------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 2 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 16 Mai 2018

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Steve George**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDGCh@cynulliad.cymru

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

## 2 Cynyrchiadau ffilm a theledu mawr yng Nghymru: Sesiwn dystiolaeth 6

(09:30 - 11:30) (Tudalennau 1 - 13)

Paul Higgins, Cadeirydd Dragon Digital ac Aelod o'r Panel Buddsoddi yn y Cyfryngau.

Andrew M. Smith, Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol, Pinewood Group

## 3 Cynyrchiadau ffilm a theledu mawr yng Nghymru: Sesiwn dystiolaeth 7

(10:30 - 11:30)

Jane Tranter, Sylfaenydd, Bad Wolf

Natasha Hale, Prif Swyddog Gweithredu, Bad Wolf

## 4 Papurau i'w nodi

### 4.1 Radio yng Nghymru: Tystiolaeth ychwanegol

(Tudalennau 14 - 16)

### 4.2 Adolygiad o Gronfa Radio Cymunedol Llywodraeth Cymru

(Tudalennau 17 - 78)

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:**

**6 Ystyried y dystiolaeth**

(11:30 - 11:45)

**7 Cyllid heblaw cyllid cyhoeddus ar gyfer y celfyddydau: Trafodaeth breifat**

(11:45 - 12:30) (Tudalennau 79 - 91)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Paul Higgins – Chair **Dragon Digital**

Dragon Digital are an award winning, industry leading restoration, post production and digital delivery facility based in South Wales.

Dragon were selected as one of 6 preferred suppliers by the BFI to work on the Unlocking Film Heritage project. The programme as a whole digitised 10,000 films, some of which were undertaken at Dragon's facility in Wales.

In addition to this Dragon have provided film restoration services on classic film titles such as 'The Private Life of Henry VIII' (1933) and the award winning restoration of 'Napoleon' (1927) as well as other prestigious works.

More recently Dragon Digital have again been selected as one of the BFI's Framework suppliers for film scanning and restoration under the current project for Heritage 2022.

Paul Higgins also Chairs **Fields Park Media Partners**

Fields Park are a specialist corporate finance consultancy focused on the media sector.

Over the past 30 years it has handled some 60+ assignments and invested in and helped to form and develop a number of major media businesses.

Just by way of background and for example it has:

Helped found Optimum Releasing and funded its expansion and development into a leading UK film distributor prior to its acquisition by Studio Canal – this business is now Studio Canal UK.

Set up and invested in Target Media Group Limited – (Target Media, Organic, SuperHero Screen) now the leading media and planning agency to the entertainment sector in the UK.

Set up Edicis - a leading content group bringing together a collection of content agencies focused on the entertainment sector including OTM, White Label Production and Dragon Digital. (its clients include BFI and Studio Canal).

Invested in and helped develop Coco Television into Irelands number one independent television production company.

Invested in and helped develop BigBalls Media into a leading sports YouTube Channel with over 2million subscribers and co-producers of 'You Me and the Apocalypse' with Working Title and Sky.

Invested in many other film, TV rights and games businesses such as Cue Card Limited, Ripstone Limited and The Media Eye.

Fields Park is also an active producer of Films and TV series and from their base in South Wales they have been supporting Welsh film and TV projects including SUBMARINE, JUST JIM, LIBRARY SUICIDES, THE LIGHTHOUSE, THE CHAMBER and LAST SUMMER as well being a financier of the Cinematic Schemes and as the Beacons Short Film Initiative alongside Ffilm Cymru and the BFI.

Fields Park has a current slate of over 12 film and TV projects in various stages of development, production, and release.

Paul Higgins also serves as a member of the Welsh Government's Media Investment Board.

# Eitem 4.1

Cynulliad Cenedlaethol Cymru / National Assembly for Wales
Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu / The Culture, Welsh Language and Communications Committee
Radio yng Nghymru / Radio in Wales
CWLC(5) RADIO02
Ymateb gan Marc Webber / Evidence from Marc Webber

Dear Committee,

Thank you for inviting me to your session on Radio in Wales. I hope you found the information useful.

I would just like to offer a quick follow-up to some of the points I raised in the meeting.

The first is further information around how I believe a Welsh Language national commercial station can be viable.

There is already a very successful version of this idea running in the Republic of Ireland.

The main Irish Language broadcasters have joined together with Radioplayer (part-owned by Global and the BBC) to create An Seinnteoir Raidió - a digital radio player available as an app or online which offers all the Irish Language radio output in one place.

The story about it's launch is below. I know Radioplayer are very keen to recreate this service in the Welsh Language and would be happy to discuss it with you.

http://www.rte.ie/about/en/press-office/press-releases/2016/0308/773384-first-ever-irish-language-radio-app-available-to-download-now/

In terms of running a 24/7 radio station in the Welsh Language on DAB. Most of the owners of all the local DAB licences in Wales (the only one that was not was Swansea Sound). They could be persuaded/asked right now to release frequency from those licences to stream Capital Cymru in its current format throughout Wales, as opposed to it only being available in NW Wales. Most of those DAB licences in Wales are either owned by Global or Nation Radio.

Admittedly, trying to get Capital Cymru on FM is a larger task due to the prohibitive cost of FM transmission, which is part down to topography, part down to a monopoly held by Arqiva.

I see revenue potential from rolling out Capital Cymru across Wales on online, DAB and FM formats. This could be started by the Assembly and Welsh Government themselves by buying airtime for current Welsh Language campaigns with Capital Cymru. National non-governmental institutions would then follow through the Global sales teams in Cardiff and Wrexham using their leverage to get more money for their company.

Marketing is perhaps the big concern and a concerted effort to raise awareness of the new station should be made by stakeholders.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru / National Assembly for Wales
Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu / The Culture, Welsh Language and Communications Committee
Radio yng Nghymru / Radio in Wales
CWLC(5) RADIO
Ymateb gan Communicorp / Evidence from Communicorp

Communicorp UK supports the industry's rising talent by working alongside the Student Radio Association to offer all SRA members the chance to gain hands on experience at any of our stations to help them develop their radio skills. We love their energy, ideas and enthusiasm and our teams welcome them inside our stations regularly.

We are also proud sponsors of the yearly I Love Student Radio Awards at the National Student Radio Conference. These awards celebrate the commitment and contributions of individuals in student radio. Communicorp UK also invests time and resource in SRA training days and regional events to give their members access to our professional skills and expertise.

Eitem 4.2

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk




# Adolygiad o Gronfa Radio Cymunedol Llywodraeth Cymru

Gorffennaf 2012

Os hoffech wneud cais am yr wybodaeth hon mewn fformat arall, rhowch wybod i ni drwy ddefnyddio'r wybodaeth isod:

Drwy'r post:

Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon
Llywodraeth Cymru
Y Trydydd Llawr
Craidd y Gogledd
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Drwy e-bost:

sian.evans3@wales.gsi.gov.uk

Dros y ffôn:

Saesneg: 0300 060 3300 neu 0845 010 3300
Cymraeg: 0300 060 4400 neu 0845 010 4400

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn y fformat hwn ar wefan Llywodraeth Cymru - http://www.cymru.gov.uk/diwylliant

ISBN digidol 978 0 7504 7696 6
© Hawlfrant y Goron 2012
WG15910

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Crynodeb Gweithredol | 1 |
| Cyflwyniad | 5 |
| Gweithredu’r Gronfa Radio Cymunedol | 7 |
| Y Buddiannau Cymunedol sy'n Deillio o'r Gronfa | 19 |
| Bodlonrwydd ar y Gronfa a'r modd y caiff ei Gweinyddu | 31 |
| Materion yn Codi o'r Adolygiad | 34 |
| Atodiad 1 Cefndir Deddfwriaeth a Pholisi | 42 |
| Atodiad 2 Holiadur i’r Gorsafoedd Radio Cymunedol | 52 |
| Atodiad 3 Llythyr atodol 10 Ionawr 2012 at y Gorsafoedd Radio Cymunedol | 58 |

## Crynodeb Gweithredol

1. Sefydlodd Gweinidogion Cymru yr adolygiad o'r Gronfa Radio Cymunedol er mwyn canfod a oedd y manteision i'r gorsafoedd radio cymunedol unigol, y sector a'u cymunedau sy'n deillio o'r Gronfa Radio Cymunedol yn cyfiawnhau adnewyddu'r Gronfa gan Lywodraeth Cymru ar ôl cylch ceisiadau terfynol y Gronfa gyfredol yn 2012-13.

2. Roedd yr adolygiad yn cynnwys gwerthusiad ymarferol o'r hyn a oedd yn rhaglen fach o grantiau gwerth isel a oedd yn seiliedig ar arolwg holiadur drwy'r post o'r naw gorsaf radio gymunedol yng Nghymru a oedd wedi bod yn gymwys i wneud cais am gymorth gan y Gronfa. Ymhlith y materion a ystyriwyd roedd i ba raddau roedd gweithgareddau gorsafoedd radio cymunedol a oedd yn cael grant gan y Gronfa yn cyflawni dibenion a blaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cymru o ran hyrwyddo'r gwaith o adfywio eu cymunedau, yn annog hyfforddiant, yn darparu cyfleoedd swyddi ac yn atgyfnerthu hunaniaeth ddiwylliannol ac ieithyddol eu cymunedau.

### Yr Effeithiau ar y Gorsafoedd Radio Cymunedol

3. O dan bedwar cylch ceisiadau blynyddol y Gronfa Radio Cymunedol yn ystod y cyfnod 2008-09 i 2011-12 dyfarnwyd cyfanswm o £367,518 i saith o'r naw gorsaf radio gymunedol yng Nghymru.

4. Ar y cyfan ceisiodd y gorsafoedd a gyflwynodd geisiadau ac y dyrannwyd arian iddynt o'r Gronfa gymorth gyda'u costau gorbenion ar ffurf arian ar gyfer swyddi cyflogedig i staff allweddol a oedd yn cyfrif am 67 y cant o'r grant a ddyrannwyd, cymorth ar gyfer swyddi a chostau rhedeg (20 y cant o'r arian a ddyrannwyd) a chymorth ar gyfer costau rhedeg yn unig (13 y cant).

5. Roedd yr ymatebwyr a gafodd gymorth ariannol o dan y Gronfa o'r farn bod y dyraniadau grant a gawsant wedi rhoi rhywfaint o sefydlogrwydd ariannol iddynt. Ystyriwyd bod angen cymorth grant i helpu i ariannu gwariant gweithredol y gorsafoedd o ddydd i ddydd a oedd yn anodd ei godi ar adeg pan oedd refeniw masnachol o hysbysebion a nawdd wedi lleihau'n sylweddol yn ystod y dirwasgiad ac roedd mwy o gystadleuaeth i sicrhau ffynonellau eraill o arian cyhoeddus neu elusennol a mwy o ansicrwydd ynghylch y broses honno. Roedd y gorsafoedd radio cymunedol hynny roedd eu trwyddedau yn eu gwahardd rhag codi refeniw masnachol o hysbysebion neu nawdd “ar yr awyr” am fod eu hardaloedd gwasanaethu yn gorgyffwrdd ag ardaloedd gorsafoedd radio masnachol bach o'r farn bod y Gronfa yn arbennig o werthfawr.

6. Bu'r cymorth ariannol a gafwyd o dan y Gronfa Radio Cymunedol ar gyfer swyddi a chostau rhedeg yn fodd i'r gorsafoedd weithredu'n effeithiol a chanolbwyntio ar sicrhau'r manteision cymdeithasol i'w cymunedau sy'n ofynnol gan eu trwyddedau. Darparodd y swyddi a'r unigolion a recriwtiwyd i'w llenwi y sgiliau a'r arbenigedd allweddol i ddatblygu'r gorsafoedd a gwnaethant helpu'r gorsafoedd i gynhyrchu rhagor o incwm parhaus, er enghraifft, drwy werthu mwy o hysbysebion, hyfforddi gwirfoddolwyr a chreu cysylltiadau rhwng y gorsafoedd a'u cymunedau lleol.

7. Cafodd pedair o'r pum gorsaf radio gymunedol ddyraniadau grant o dan y Gronfa a rhoesant wybodaeth atodol am eu ffynonellau incwm. Cynhyrchodd y pedair gorsaf hyn incwm a oedd rhwng 1.7 a 5.2 gwaith yn fwy na'r dyraniadau a gawsant o dan y Gronfa, sy'n tanlinellu'r ffaith bod y cymorth ariannol a roddwyd drwy'r Gronfa wedi galluogi'r gorsafoedd i gynhyrchu cryn dipyn o incwm ychwanegol, yn enwedig ar ffurf cymorth grant. Fodd bynnag, pwysleisiodd cymhareb isel incwm hunangynyrchedig y gorsafoedd i'r grant a gawsant o dan y Gronfa (1.4 gwaith) pa mor fregus oedd sefyllfa ariannol y gorsafoedd a'u bod yn dibynnu ar gymorth ariannol allanol er mwyn parhau'n hyfyw. Yn gyffredinol, bu'r swm cymharol fach o arian a roddwyd gan Lywodraeth Cymru o'r Gronfa yn fodd i'r gorsafoedd gynnal eu gweithrediadau a'u hymestyn hyd yn oed a chynhyrchu mwy o incwm nag roeddent wedi'i gael o'r grantiau a ddosbarthwyd gan y Gronfa ac yn hyn o beth gellid ystyried eu bod yn rhoi gwerth am arian mewn termau ariannol.

8. Gofynnwyd i'r gorsafoedd radio cymunedol roi eu barn am yr effaith ar orsafoedd a'r sector radio cymunedol pe bai Llywodraeth Cymru yn lleihau'r arian a roddir ar gyfer radio cymunedol, neu ei dynnu'n ôl. Byddai effaith ddisgwyliedig lleihau maint y Gronfa Radio Cymunedol yn dibynnu ar i ba raddau y gallai gorsafoedd sicrhau ffynonellau eraill o arian. Er y gallai gorsafoedd radio cymunedol werthu amser ar yr awyr ar gyfer hysbysebion neu geisio nawdd i raglenni roedd hyn bellach yn fwy anodd am fod busnesau preifat wedi torri cyllidebau hysbysebu ac roedd yn amharod i hysbysebu ar raddfa fach ac, o ganlyniad, roedd y taliadau a godid gan orsafoedd ar hysbysebwyr wedi lleihau'r sylweddol. At hynny, roedd llawer o'r ymddiriedolaethau a'r elusennau a oedd wedi rhoi arian i orsafoedd radio cymunedol yn y gorffennol wedi lleihau nifer y grantiau roeddent yn bwriadu eu dyfarnu ar adeg pan oedd toriadau mewn arian cyhoeddus wedi cynyddu'r galw am y fath gymorth. Yn achos ceisiadau am swyddi allweddol byddid wedi disgwyl i lefel is o gymorth ariannol o dan y Gronfa arwain at leihad yn nifer yr oriau sy'n gysylltiedig â'r swyddi neu at eu hailddosbarthu o benodiadau amser llawn i benodiadau rhan-amser Disgwylid i hyn wneud y gorsafoedd yn llai effeithlon.

9. Roedd ymatebwyr o'r farn y byddai peidio â rhoi unrhyw arian o gwbl am brosiectau arfaethedig gorsafoedd radio cymunedol yn amharu cryn dipyn ar allu'r gorsafoedd i reoli eu gofynion busnes o ddydd i ddydd drwy orfodi'r rheolwyr i neilltuo hyd yn oed fwy o amser i godi arian. Roedd yr ymatebwyr o'r farn y byddai'r sgiliau allweddol a gollid drwy beidio â llenwi'r swyddi yn cyfyngu ar allu gorsafoedd i gynhyrchu incwm a goruchwylio, cefnogi a hyfforddi staff gwirfoddol er mwyn sicrhau eu bod yn effeithiol. Am fod y gorsafoedd radio cymunedol yn dibynnu'n fawr ar wirfoddolwyr, gallai staff gwirfoddol llai effeithiol, dros amser, amharu ar hyfywedd a lefelau gwasanaeth a ddarperir gan orsafoedd, gan beryglu eu dyfodol.

### Y Manteision Cymunedol a Sicrheir

10. Roedd amcanion allweddol y gorsafoedd radio cymunedol a'r manteision cymdeithasol roeddent am eu sicrhau i'w hardaloedd lleol a'u cymunedau buddiant yn seiliedig ar yr amcanion manteision cymdeithasol gorfodol a nodir yng Ngorchymyn Radio Cymunedol 2004 a oedd yn rhagofyniad ar gyfer dyfarnu trwyddedau gweithredu i orsafoedd.

11. Amcanion y gorsafoedd radio cymunedol oedd rhoi gwybodaeth i'r unigolion hynny nas gwasanaethir ar hyn o bryd gan gyfryngau darlledu eraill, eu haddysgu a rhoi llais iddynt drwy gynnig llwyfan i'r unigolion hynny nad yw eu chwaith na'u safbwyntiau'n cael eu cynrychioli'n ddigonol yn y cyfryngau prif ffrwd, darparu hyfforddiant a chyfleoedd profiad gwaith a rhoi cyfle i'r cyhoedd weld sut mae'r gorsafoedd yn cael eu gweithredu a rheoli'r gorsafoedd a'u hannog i gymryd rhan yn y gwaith hwnnw. Rodd amcanion y gorsafoedd yn gydnaws â blaenoriaethau adfywio a blaenoriaethau cymdeithasol ehangach Llywodraeth Cymru.

12. O ran manteision cymdeithasol neu fuddiannau cymunedol nododd yr ymatebwyr fod eu gweithgareddau yn canolbwyntio ar bobl ifanc, grwpiau oedran hŷn neu'r rhai sy'n byw mewn rhannau difreintiedig penodol o'u hardaloedd megis ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf.

13. Nododd y gorsafoedd radio cymunedol sy'n cael cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru eu bod yn sicrhau amrywiaeth o fuddiannau i'w cymunedau lleol. Y prif fuddiannau oedd:

- Cynyddu nifer ac amrywiaeth y rhaglenni radio sydd ar gael, o gerddoriaeth boblogaidd i raglenni o ddiddordeb arbennig.
- Hyrwyddo gwybodaeth am yr iaith Gymraeg mewn ardaloedd lle mai Saesneg yw'r brif iaith ac annog pobl i'w defnyddio.
- Darlledu rhaglenni ar gyfer grwpiau iaith penodol mewn ardaloedd lleol, er enghraifft mae Radio Cardiff yn darlledu rhaglenni yn Somalieg a Punjabeg ac mae Calon FM yn darlledu rhaglenni ym Mhwyleg a Sbaeneg i boblogaethau Pwyleg a Sbaeneg Wrecsam. At hynny, roedd darlledu rhaglenni dros y rhyngrwyd yn ennyn diddordeb yn yr ardaloedd ymhlith cyn-drigolion a'u teuluoedd sy'n byw mewn mannau eraill, gan gynnwys dramor.
- Creu nifer o gyfleoedd cyflogaeth, cyfleoedd hyfforddiant a chyfleoedd gwirfoddoli i bobl leol, roedd llawer ohonynt yn ddi-waith neu ar brofiad gwaith o ysgolion neu golegau mewn ardaloedd a oedd yn wynebu problemau economaidd a chymdeithasol lle mai prin oedd y cyfleoedd amgen i weithwyr proffesiynol a rheolwyr.
- Roedd pob un o'r gorsafoedd radio cymunedol yn gweithredu mewn partneriaeth ac yn cydweithio â nifer fawr o sefydliadau eraill yn eu hardaloedd, gan gynnwys awdurdodau lleol a'r awdurdodau iechyd, cynghorau tref a chymuned, yr heddlu a gwasanaethau brys eraill, ysgolion, colegau, prifysgolion ac elusennau.
- O ganlyniad i'r arian ychwanegol roedd y gorsafoedd yn gallu trefnu digwyddiadau a gweithgareddau mewn ardaloedd lle mai prin oedd y fath weithgareddau a gynhaliwyd yn y gorffennol.

**Gwelliannau i'r modd y caiff y Gronfa ei Gweinyddu**

14. Roedd Llywodraeth Cymru wedi defnyddio'r Gronfa Radio Cymunedol fel dull o ariannu gorsafoedd radio cymunedol yn uniongyrchol. Roedd arian hefyd wedi'i roi ar wahân i orsafoedd radio cymunedol gan ei rhaglen Cymunedau yn Gyntaf a'r

Adran Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth (BETS), at nifer o ddibenion, gan gynnwys arian craidd ac er mwyn ariannu swyddi allweddol, gan ddyblygu diben y Gronfa Radio Cymunedol. Efallai yr hoffai Llywodraeth Cymru ystyried a fyddai dull mwy cyson o weithredu o fewn Llywodraeth Cymru yn briodol, gan gynnwys sefydlu ac ariannu grant radio cymunedol unigol a meithrin trefniadau cydweithio neu hyd yn oed gyfuno gwahanol gategorïau o gyfryngau er mwyn creu'r hyn a all fod yn fodelau busnes newydd.

15. Yn ystod tri chylch ariannu cyntaf y Gronfa Radio Cymunedol dyrannwyd arian i bob un o'r gorsafoedd hynny a gyflwynodd geisiadau boddhaol o dan y Gronfa er ei fod yn llai na'r swm roeddent wedi gwneud cais amdano mewn rhai achosion. Ar gyfer cylch ariannu 2011-12 ceisiwyd dyfarnu arian grant i'r gorsafoedd a wnaeth y ceisiadau cryfaf er mwyn sicrhau eu bod yn cael y symiau roeddent wedi gofyn amdanynt neu symiau tebyg, ond dyrannwyd arian grant i bob un o'r gorsafoedd a gyflwynodd geisiadau boddhaol o dan y Gronfa. Ymddengys fod y gorsafoedd wedi dod i feddwl am y Gronfa fel cymhorthdal gwarantedig ac er bod y rhan fwyaf o'r gorsafoedd yn fodlon ar y Gronfa a'r ffordd roedd yn cael ei gweinyddu roeddent o'r farn y dylai barhau i gyflawni ei nod presennol, sef talu costau gweinyddol craidd gorsafoedd. Roedd rhai o'r gorsafoedd o'r farn y dylid rhannu'r Gronfa yn gyfartal rhwng pob ymgeisydd er mwyn i bob gorsaf gael incwm blynyddol penodol ac y dylid cynyddu'r Gronfa yn unol â chwyddiant a nifer y gorsafoedd radio cymunedol trwyddedig newydd a oedd yn gymwys i gael arian grant.

16. Nododd canllawiau'r Gronfa Radio Cymunedol mai un o'r meini prawf ar gyfer asesu ceisiadau i'r Gronfa oedd cynaliadwyedd hirdymor. Fodd bynnag, roedd llawer o'r swyddi a gafodd gymorth ariannol yn benodiadau byrdymor a oedd yn gyfyngedig o ran amser ar gyfer hyd cyfnod y grant, ac roedd rhai o'r swyddi roedd ceisiadau wedi'u cyflwyno ar eu cyfer yn swyddi a adnewyddwyd a oedd wedi cael cymorth ariannol mewn cylchoedd ariannu blaenorol.

17. Mae'n bosibl y byddai parhau â'r Gronfa ar ei ffurf bresennol yn gwneud gorsafoedd yn fwy dibynnol ar gymorth ariannol gan y Gronfa yn hytrach na'u hannog i fod yn fwy cynaliadwy. Er enghraifft, bu gorsafoedd yn amharod i gyfrannu at ariannu prosiectau ar y cyd â gorsafoedd eraill megis prosiectau i ddatblygu'r rhwydwaith busnesau digidol ymhellach (y rhwydwaith digidol ar-lein a sefydlwyd o dan y rhaglen E-Fusnes sy'n cael ei hariannu gan yr Undeb Ewropeaidd sef y prosiect ar gyfer Busnesau ar y Rhwydwaith Digidol neu DNB (*Digital Networked Business*)) a allai weithredu fel porth i'r sector a ffynhonnell o incwm ychwanegol. Am fod y Gronfa yn canolbwyntio ar annog cynaliadwyedd gellid dadl y dylid targedu o leiaf rywfaint o'r arian at gefnogi mentrau a fyddai'n cynnal cynaliadwyedd hirdymor gorsafoedd.

18. Pe bai penderfyniad yn cael ei wneud i adnewyddu'r Gronfa am gyfnod pellach, byddai angen ystyried datblygu cyfres o ddangosyddion perfformiad cyffredin a chyflwyno gweithdrefnau monitro yn unol ag arfer gorau Llywodraeth Cymru ar gyfer gweinyddu grantiau.

## Cyflwyniad

1. Sefydlodd Gweinidogion Cymru yr adolygiad o'r Gronfa Radio Cymunedol er mwyn gwerthuso effeithiau'r Gronfa. Sefydlwyd y Gronfa er mwyn rhoi cymorth ariannol gwerth £500,000 dros bum mlynedd i'r naw gorsaf radio gymunedol a oedd yn bodoli yng Nghymru. Bwriadwyd i'r Gronfa roi cymorth grant i dalu costau refeniw craidd y gorsafoedd ar gyfer gweithgareddau a oedd yn ymwneud â rhedeg y gorsafoedd radio megis rheoli, gweinyddu, codi arian, allgymorth cymunedol a chefnogi gwirfoddolwyr roedd yn anodd cael arian allanol ar eu cyfer. Nodir y cefndir deddfwriaethol a'r cefndir polisi i radio cymunedol yng Nghymru a manylion am ddosbarthiad y gorsafoedd yn fanwl yn Atodiad 1.

2. Dim ond at orsafoedd radio cymunedol wedi'u trwyddedu'n llawn y dyfarnwyd trwydded radio cymunedol bum mlynedd lawn iddynt gan Ofcom, sef y rheoleiddiwr radio, roedd y grantiau o'r Gronfa wedi'u hanelu. At hynny, bwriadwyd i'r Gronfa roi blaenoriaeth i geisiadau a oedd yn hyrwyddo cynaliadwyedd a chydweithio â chymunedau lleol y gorsafoedd a gorsafoedd eraill. Roedd hefyd yn ofynnol i ymgeiswyr ddangos sut roeddent yn cyfrannu at agenda ddwyieithog Llywodraeth Cymru.

3. Ers 2008-09 roedd Llywodraeth Cymru wedi cynnal pedwar cylch ariannu ar gyfer cymorth arian o'r Gronfa a oedd wedi dyrannu grantiau gwerth cyfanswm o £367,518 i saith o'r naw gorsaf radio gymunedol a oedd yn gymwys i wneud cais i'r Gronfa. Bwriedir cynnal cylch ariannu arall yn 2012-13 er mwyn dyrannu'r swm o £100,000 sy'n weddill.

4. Diben yr adolygiad oedd nodi a oedd effaith y Gronfa Radio Cymunedol ar orsafoedd unigol a'r sector a'u cymunedau yn cyfiawnhau adnewyddu'r Gronfa gan Lywodraeth Cymru ar ôl 2012-13. Roedd yr adolygiad wedi'i gynllunio'n bennaf i ddarparu tystiolaeth i alluogi Gweinidogion Llywodraeth Cymru i ddod i benderfyniad ynghylch p'un a ddylid adnewyddu'r Gronfa ai peidio. Ni fwriadwyd iddo wneud yr argymhellion priodol ei hun.

5. Roedd yr adolygiad yn cynnwys gwerthusiad ymarferol o'r hyn a oedd yn rhaglen fach o grantiau gwerth isel a oedd yn seiliedig ar arolwg holiadur drwy'r post o'r naw gorsaf radio gymunedol yng Nghymru a oedd wedi bod yn gymwys i wneud cais am gymorth o dan y Gronfa (gweler Atodiad 2). Anfonwyd llythyr ar wahân at y gorsafoedd hefyd yn gofyn am wybodaeth ychwanegol (gweler Atodiad 3). Cynhaliwyd trafodaethau hefyd gyda rhai o reolwyr y gorsafoedd a rhanddeiliaid eraill, megis Ofcom. Byddai gwerthusiad allanol helaethach wedi bod yn anghymesur. Ystyriodd yr holiadur y canlynol:

- I ba raddau roedd gweithgareddau'r gorsafoedd radio cymunedol a oedd yn cael cymorth ariannol o dan y Gronfa yn cyflawni amcanion allweddol Llywodraeth Cymru a'i blaenoriaethau cenedlaethol a rhanbarthol, yn enwedig a oedd y gorsafoedd a oedd yn cael cymorth ariannol o dan y Gronfa yn bodloni amodau'r Gronfa, yn hyrwyddo'r gwaith o adfywio eu cymunedau drwy wella lles drwy annog ffyrdd iach o fyw, yn darparu gweithgareddau a oedd yn lleihau tlodi, anghydraddoldeb, gwahaniaethu ac anfantais gymdeithasol, yn annog hyfforddiant a oedd yn targedu pobl

agored i niwed neu bobl wedi'u hallgáu, gan helpu i hyrwyddo cyfleoedd swyddi a chynyddu incwm ac atgyfnerthu hunaniaeth ddiwylliannol ac ieithyddol y gymuned.

- Beth fyddai'r goblygiadau i'r gorsafoedd a'r sector pe na bai Llywodraeth Cymru wedi sefydlu unrhyw gronfa neu pe bai'r cyllid a oedd ar gael wedi'i leihau.
- A ellid gwella'r modd roedd y Gronfa yn cael ei gweinyddu. Fel arfer byddai'r adolygiad yn cofnodi sylwadau'r ymatebwyr heb eu dilysu'n wrthrychol. Oherwydd prinder mesurau allbwn a gwybodaeth feintiol neu ansoddol hefyd nid oedd modd nodi effaith gyfun dulliau'r gorsafoedd o sicrhau manteision cymdeithasol neu fanteision cymunedol ac i ba raddau roedd eu cymunedau yn gwerthfawrogi eu gweithgareddau.

6. Bydd yr adroddiad hwn yn ystyried yn gyntaf y cefndir i weithrediad y Gronfa, a’r rhan a chwaraewyd gan y gorsafoedd radio cymunedol. Bydd wedyn yn nodi’r manteision a’r buddion i’r gymuned y ceisiodd y gorsafoedd radio cymunedol eu sicrhau o fewn eu hardaloedd lleol ac yn mesur i ba raddau y llwyddwyd i wireddu hynny. Bydd yr adroddiad hefyd yn ystyried i ba raddau y mae'r gorsafoedd yn fodlon ar y Gronfa a’r modd y mae Llywodraeth Cymru yn ei gweinyddu a sut y gellir addasu'r Gronfa i ddiwallu anghenion gorsafoedd unigol a’r sector yn well. Bydd rhan olaf yr adroddiad yn crynhoi'r canfyddiadau allweddol ac yn trafod ffyrdd posibl ymlaen.

## Gweithredu'r Gronfa Radio Cymunedol

Bydd yr adran hon yn edrych i weld sut mae'r Gronfa Radio Cymunedol yn cael ei gweithredu, sut y cafodd ei sefydlu a pha ddefnydd a wnaed o'r gronfa gan y gorsafoedd radio cymunedol. Bydd hefyd yn cynnwys dadansoddiad o'r modd y caiff y gorsafoedd eu hariannu a chyfraniad y Gronfa at gynaliadwyedd y gorsafoedd a'r prif heriau a rhwystrau oedd yn eu hwynebu.

### Sut y Sefydlwyd y Gronfa Radio Cymunedol ?

7. Cydnabu Llywodraeth Cymru botensial statws radio cymunedol pan y'u sefydlwyd yn gyntaf a rhoddodd gymorth ariannol uniongyrchol iddynt i ddechrau drwy ei chyfundrefn grantiau cymdeithasol, megis y Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol a Cymunedau yn Gyntaf. Ym mis Rhagfyr 2006 cytunodd Llywodraeth Cymru i sefydlu Cronfa Radio Cymunedol ar wahân a fyddai'n dosbarthu £100,000 y flwyddyn dros bum mlynedd (cyfanswm o £500,000). Ers 2008-09 mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal pedwar cylch ariannu ar gyfer gorsafoedd radio cymunedol o'r Gronfa Radio Cymunedol a bwriedir cynnal y cylch ariannu terfynol y Gronfa bresennol yn ystod y flwyddyn ariannol 2012-13. Nodir manylion y ceisiadau am gymorth ariannol a gyflwynwyd gan y gorsafoedd radio cymunedol a'r grantiau a ddyrannwyd yn Nhabl 1.

8. Dengys y Tabl, yn dilyn y pedwar cylch ariannu cyntaf, fod cyfanswm o £367,518 wedi'i ddyrannu i saith gorsaf radio gymunedol. Ar gyfer pob cylch ariannu roedd y galw am gymorth ariannol gan y Gronfa gryn dipyn yn fwy na'r £100,000 a oedd ar gael i'w ddosbarthu er na chyflwynodd dwy orsaf – sef Radio Cardiff a Radio Tircoed - geisiadau i unrhyw un o'r cylchoedd ariannu ac na chyflwynodd XS gais i gylch ariannu 2008-9 a chollodd Point FM gylch ariannu 2010-11. Mae'r Tabl hefyd yn nodi, ac eithrio Point FM, fod grant wedi'i ddyrannu i bob un o'r gorsafoedd a gyflwynodd geisiadau am gymorth ariannol o dan y Gronfa yn 2009-10 er ei fod yn llai na'r swm roeddent wedi gwneud cais amdano mewn rhai achosion. Adlewyrchai hyn y dull o ddyrannu arian o'r Gronfa a fabwysiadwyd gan y panel asesu. Yn 2008-9 penderfynodd y panel fabwysiadu dull safonol o weithredu lle y cafodd pob un o'r gorsafoedd hynny a oedd eisoes "ar yr awyr" a gyflwynodd geisiadau boddhaol am gymorth ariannol £1,500 am bob mis yn y flwyddyn honno. Cafodd y gorsafoedd hynny a wnaeth gais am gymorth ariannol nad oeddent "ar yr awyr" bryd hynny werth tri mis o gostau sefydlu, sef £4,500, a ddilynwyd gan y posibilrwydd o gael arian ychwanegol gwerth £1,500 y mis unwaith y byddent wedi dechrau darlledu. Yn 2009-10 a 2010-11, pan oedd y rhan fwyaf o'r gorsafoedd "ar yr awyr", penderfynodd y panel rannu'r Gronfa yn gyfartal rhwng yr ymgeiswyr, ond cafodd y rhai a wnaeth gais am lai o arian y swm y gofynnwyd amdano a rhannwyd yr arian dros ben yn gyfartal rhwng yr ymgeiswyr a oedd yn weddill. Ar gyfer cylch ariannu 2011-12 ceisiwyd rhoi arian i'r ceisiadau cryfaf er mwyn sicrhau eu bod yn cael y symiau y gofynnwyd amdanynt neu symiau tebyg. Cafodd y symiau a ddyfarnwyd i'r cynigion gwannach eu graddio hefyd ar sail cryfder neu wendid canfyddedig y cynigion ond dyfarnwyd arian grant o dan y Gronfa i bob un o'r gorsafoedd a gyflwynodd geisiadau boddhaol.

**Sut y Defnyddiwyd y Gronfa gan y Gorsafoedd Radio Cymunedol?**

9. Nododd y saith gorsaf radio gymunedol a wnaeth gais am gymorth ariannol i'r Gronfa Radio Cymunedol eu bod wedi cyflwyno cais am arian am ei fod yn eu helpu i dalu eu costau rhedeg roeddent wedi'i chael hi'n anodd eu hariannu yn barhaus. Pwysleisiodd rheolwr un orsaf natur fregus arian gorsafoedd radio cymunedol drwy ddweud nad oedd ei orsaf erioed wedi bod yn “cash rich enough to be able to manage in meeting its overheads without financial support”.

10. Mae Tabl 2 yn dosbarthu'r math o geisiadau am arian a gyflwynwyd gan y gorsafoedd radio cymunedol rhwng 2008-9 a 2011-12. Defnyddiodd y gorsafoedd y Gronfa yn bennaf fel ffynhonnell arian ar gyfer swyddi cyflogedig ar gyfer staff allweddol. Roedd cyfanswm o 67 y cant o werth y ceisiadau am arian a gyflwynwyd ar gyfer ariannu swyddi allweddol penodol, yn gyfan gwbl neu'n rhannol. Roedd y mathau o swyddi yn cynnwys rheolwyr gorsafoedd, golygyddion gorsafoedd neu reolwyr gorsafoedd cynorthwyol, gweithwyr datblygu cymunedol neu weithwyr cyswllt cymunedol, gweinyddwyr gorsafoedd, cyfrifyddion, rheolwyr prosiectau, cyfarwyddwyr a chynorthwywyr rhaglenni, swyddogion gwerthu a marchnata a pheirianwyr. Roedd 20 y cant arall o'r ceisiadau, yn ôl eu gwerth, yn cynnwys ariannu swyddi a chyfraniadau at gostau rhedeg, ond dim ond 13 y cant o'r ceisiadau, yn ôl eu gwerth, a oedd am gymorth ariannol i dalu costau rhedeg yn unig.

11. Ymddengys fod y cyflogau ar gyfer y swyddi y cyflwynodd y gorsafoedd geisiadau am gymorth arian ar eu cyfer yn rhesymol. Roedd ceisiadau i'r Gronfa ar gyfer 2011/12 yn cynnwys cais GTFM am grant gwerth £8,000 i dalu dwy ran o dair o swydd Rheolwr Cyllid/Gweinyddu amser llawn ar gyflog o £12,000 y flwyddyn. Gwnaeth Point FM gais am gymorth ariannol i dalu costau swydd gweinyddwr amser llawn ar £12,000 y flwyddyn a gwnaeth XS gais am gymorth ariannol ar gyfer swyddog gwerthu a marchnata ar gyflog o £16,000 ynghyd â thaliad comisiwn o 10 y cant o werthiannau (cyfanswm o £20,955). Roedd cyflogau uwch swyddogion yn seiliedig ar feincnodau lleol megis cyflogau swyddi cyfatebol yn awdurdodau lleol neu orsafoedd radio masnachol yr ardaloedd. Roedd y gydnabyddiaeth ariannol ar gyfer swyddi rhan-amser aelodau iau o staff yn unol â'r isafswm cyflog.

12. Roedd rhai o'r swyddi roedd ceisiadau wedi'u cyflwyno ar eu cyfer wedi'u cyflwyno am gymorth ariannol mewn cylchoedd ariannu blaenorol. Er enghraifft yn 2010-11 roedd XS wedi cyflwyno cais am £15,175 i ran-ariannu swyddog gwerthu a marchnata. Er i'r orsaf gael yr arian hwn cyflwynodd gais arall y flwyddyn ganlynol am £20,955 i gyflogi swyddog gwerthu a marchnata. At hynny yn 2011-12 ailgyflwynodd GTFM gais i ariannu costau rhedeg cyffredinol yr orsaf, gan gynnwys cyflogau gweinyddwr/rheolwr cyllid a rôl cydgysylltydd gwirfoddolwyr pan oedd wedi cael yr arian i dalu costau cais tebyg yn 2010-11. Roedd rhai gorsafoedd wedi ceisio cyfuno cymorth ariannol o amrywiaeth o ffynonellau cyllido i ariannu’r swyddi allweddol. Er enghraifft yn 2010-11 cyflwynodd Tudno FM gais i'r Gronfa Radio Cymunedol am £15,222 i ran-ariannu swydd rheolwr gorsaf ar gyflog o £33,000 y flwyddyn am 12 mis ychwanegol, gyda'r gweddill yn dod o'r elw o gytundeb lefel gwasanaethau gwerth £10,500 â'r awdurdod lleol a grant gwerth £7,000 o Sefydliad Calouste Gulbenkian. Awgryma hyn fod y gorsafoedd yn fregus yn ariannol a'u bod

yn ei chael hi'n anodd ariannu aelodau allweddol o staff o'u hadnoddau eu hunain hyd yn oed pan oedd y swyddi yn cynnwys rolau cynhyrchu incwm.

**Tabl 1: Cynigion a gyflwynwyd ac Arian Grant a Ddyrannwyd o dan y Gronfa Radio Cymunedol i Orsafoedd Radio Cymunedol yng Nghymru 2008-9 i 2011-12**

| | 2008-09 | | | 2009-10 | | | 2010-11 | | | 2011-12 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gorsaf Radio | Ar yr awyr | Cynnig £ | Grant a ddyrannwyd £ | Ar yr awyr | Cynnig £ | Grant a ddyrannwyd £ | Ar yr awyr | Cynnig £ | Grant a ddyrannwyd £ | Ar yr awyr | Cynnig £ | Grant a ddyrannwyd £ | Cyfanswm y grant a ddyrannwyd £ |
| BRFM | x | 14,500 | 18,000 | x | 16,500 | 16,500 | x | 16,500 | 16,500 | x | 16,500 | 16,500 | 67,500 |
| Bro Radio | | 24,816 | 4,500 | | 24,816 | 18,626 | x | 22,816 | 17,941 | x | 22,816 | 15,899 | 56,966 |
| Calon FM | x | 20,160 | 18,000 | x | 19,000 | 18,626 | x | 24,000 | 17,941 | x | 25,000 | 16,500 | 71,067 |
| GTFM | x | 65,000 | 18,000 | x | 35,000 | 18,626 | x | 18,500 | 17,941 | x | 20,000 | 15,899 | 70,466 |
| Point FM | | 76,000 | 4,500 | | 13,600 | - | x | | | x | 18,000 | 10,000 | 14,500 |
| Tudno FM | | 17,972 | 4,500 | x | 13,122 | 13,122 | x | 15,175 | 15,175 | x | 15,222 | 15,222 | 48,019 |
| XS Afan FM gynt | x | | | x | 14,500 | 14,500 | x | 14,500 | 14,500 | x | 20,955 | 10,000 | 39,000 |
| Radio Cardiff | x | | | x | | | x | | | x | | | |
| Radio Tircoed | | | | x | | | x | | | x | | | |
| | | | | | | | | | | | | | |
| Cyfanswm | | 218,448 | 67,500 | | 136,538 | 100,000 | | 111,491 | 99,998 | | 138,493 | 100,020 | 367,518 |

**Tabl 2: Y Math o Geisiadau a wnaed gan Orsafoedd Radio Cymunedol i'r Gronfa Radio Cymunedol, 2008-9 i 2011-12**

| Diben y cais | 2008-09 £ | 2009-10 £ | 2010-11 £ | 2011-12 £ | Cyfanswm a Ddyrannwyd (£) N | % |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ariannu swyddi penodol | 153,448 | 56,938 | 92,991 | 101,993 | 405,370 | 67.0 |
| Ariannu costau rhedeg gorsafoedd | 65,000 | 13,600 | - | - | 78,600 | 13.0 |
| Ariannu swyddi a chostau rhedeg | - | 66,000 | 18,500 | 36,500 | 121,000 | 20.0 |
| Cyfanswm | 218,448 | 136,538 | 111,491 | 138,493 | 604,970 | 100.0 |

13. Ers dechrau'r Gronfa Radio Cymunedol nid oed tair gorsaf radio gymunedol wedi gwneud cais am gymorth ariannol. Dywedodd dwy o'r gorsafoedd – sef Radio Cardiff a Radio Tircoed - nad oeddent yn ymwybodol o'r Gronfa. Dywedodd Radio Cardiff fod ei weithgarwch codi arian wedi canolbwyntio ar sicrhau arian o'r sector preifat, gan gynnwys nawdd ar gyfer rhaglenni gan fusnesau preifat yng Nghaerdydd. Mae'n bosibl mai'r rheswm am hyn oedd eu bod wedi cael problemau ariannol yn y gorffennol a bod angen iddo ad-dalu'r grantiau o'r sector cyhoeddus roeddent wedi'u cael am fod mwy o risg yn gysylltiedig â'r prosiect. Oherwydd hyn roeddent yn amharod i wneud cais eto am grantiau o'r sector cyhoeddus. Ni wnaeth Point FM gais i'r Gronfa yng nghylch ariannu 2010-11 oherwydd yr anawsterau a'r oedi roedd wedi'u hwynebu wrth roi'r orsaf “ar yr awyr”.

14. Gofynnwyd i bob gorsaf radio gymunedol a gafodd gymorth ariannol o'r Gronfa Radio Cymunedol nodi ym mha ffyrdd roedd eu gorsafoedd wedi cael budd o'r grantiau a gawsant.

15. Roedd pob un o'r gorsafoedd a gafodd gymorth ariannol o'r farn bod y grantiau o'r Gronfa wedi rhoi rhywfaint o sefydlogrwydd cyllid iddynt. Nodwyd ei bod yn anodd codi arian o ffynonellau eraill i dalu costau gweithredu'r gorsafoedd o ddydd i ddydd, yn enwedig pan oedd refeniw masnachol o hysbysebion a nawdd wedi lleihau'n sylweddol yn ystod y dirwasgiad ac roedd sicrhau ffynonellau eraill o arian cyhoeddus neu elusennol yn broses fwyfwy cystadleuol ac ansicr. Bu'r cymorth ariannol a gafwyd o dan y Gronfa yn fodd i'r gorsafoedd weithredu'n effeithiol a sicrhau'r manteision cymdeithasol i'w cymunedau a oedd yn ofynnol gan eu trwyddedau.

16. Dangoswyd pa mor ddibynnol oedd y gorsafoedd ar gymorth allanol yn achos GTFM a oedd yn cael ei redeg gan dri aelod cyflogedig o staff amser llawn ac un aelod cyflogedig o staff rhan-amser a swyddog gwerthu a oedd yn cael comisiwn yn unig. Roedd un o'r swyddi amser llawn - sef y newyddiadurwr darlledu a gyflwynai ac a gynhyrchai fwletinau newyddion a rhaglenni nodwedd lleol - wedi cael cymorth

ariannol gan Cymunedau yn Gyntaf, ac roedd swydd rheolwr yr orsaf wedi'i rhan-ariannu gan Cymunedau yn Gyntaf. Roedd swydd ran-amser y cydgysylltydd gwirfoddolwyr wedi cael cymorth ariannol gan Gronfa Radio Cymunedol Llywodraeth Cymru.

17. Roedd y swyddi a gafodd gymorth ariannol o dan y Gronfa wedi rhoi nifer o gyfleoedd swyddi mewn ardaloedd â lefelau uchel o ddiweithdra megis Brynmawr, y Barri a'r Rhyl. Roedd y swyddi a'r unigolion a recriwtiwyd i'w llenwi hefyd yn darparu'r sgiliau a'r arbenigedd allweddol i ddatblygu'r gorsafoedd.

- Dywedodd XS, er enghraifft, fod y grantiau a gafodd o dan y Gronfa yn galluogi'r orsaf i gynhyrchu incwm parhaus drwy lwyddo i werthu mwy o hysbysebion a sicrhawyd gan swydd y swyddog gwerthu a marchnata, a ariannwyd gan y grant. Talai'r incwm cynyddol hwn rent misol a gorbenion cyffredinol yr orsaf.
- Yn achos Calon FM roedd y Gronfa yn rhoi cymorth ariannol i alluogi staff amser llawn a rhan-amser profiadol i reoli a hyfforddi'r gwirfoddolwyr a chreu a datblygu cysylltiadau rhwng y gorsafoedd a'u cymunedau lleol.
- Roedd Bro Radio o'r farn bod sgiliau ac arbenigedd y gweithiwr allweddol a rheolwr yr orsaf a gafodd gymorth ariannol gan y Gronfa yn allweddol i barhad yr orsaf.

18. Roedd y gorsafoedd hynny a oedd wedi'u gwahardd rhag codi refeniw yn fasnachol o hysbysebion masnachol neu nawdd “ar yr awyr” o'r farn bod y Gronfa yn arbennig o werthfawr. Dywedodd Point FM, er enghraifft, y byddai ei allu i berfformio wedi'i danseilio'n ddifrifol heb y cymorth ariannol i ategu gweithrediad craidd yr orsaf.

19. Gofynnwyd i'r gorsafoedd radio cymunedol roi eu barn am yr effaith ar orsafoedd a'r sector radio cymunedol pe bai Llywodraeth Cymru yn lleihau'r arian a roddir ar gyfer radio cymunedol, neu ei dynnu'n ôl. Roedd ymatebwyr o'r farn y byddai effaith lleihau maint y Gronfa Radio Cymunedol yn dibynnu ar i ba raddau y gallai gorsafoedd sicrhau ffynonellau eraill o arian. Er bod y rhan fwyaf o orsafoedd radio yn gallu gwerthu amser ar yr awyr neu geisio nawdd i raglenni, mae'r dirwasgiad yn debygol o amharu ar eu gallu i gynhyrchu lefel sylweddol o incwm amgen. O ganlyniad i'r dirwasgiad, mae busnesau preifat wedi torri cyllidebau hysbysebu ac maent yn amharod i hysbysebu ar raddfa fach mewn ardaloedd difreintiedig i raddau helaeth lle mae gan wrandawyr incwm gwario sy'n is na'r cyfartaledd, tra bod gweithgarwch hysbysebu cwtogedig busnesau wedi gorfodi busnesau i leihau eu prisiau hysbysebu. Yn achos y gorsafoedd hynny y mae eu trwyddedau yn eu gwahardd rhag codi unrhyw incwm masnachol, byddai lefel is o arian wedi dod â'r prosiect i ben roedd angen arian ar ei gyfer ac, ym marn ymatebwyr, yr orsaf o bosibl.

20. Yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni, er bod llawer o ffynonellau posibl eraill o arian, mae'r dirwasgiad wedi gorfodi llawer o'r sefydliadau sy'n rhoi'r fath gymorth ariannol - yr ymddiriedolaethau a'r elusennau - i gyfyngu ar nifer y grantiau y maent yn eu dyfarnu ar adeg pan fo toriadau mewn arian cyhoeddus wedi cynyddu'r galw am gymorth ariannol o'r fath gronfeydd.

21.	Nododd y gorsafoedd hynny sy'n gwneud cais am gymorth ariannol ar gyfer swyddi allweddol ei bod yn debyg y byddai lefel is o gymorth gan y Gronfa am nad oedd arian cyfatebol ar gael wedi arwain at ailddosbarthu'r swyddi o rai amser llawn i rai rhan-amser, er y gallai'r fath newid wedi cael effaith negyddol ar ddatblygiad a thwf y gorsafoedd. Mae'n debyg y byddai dileu cyllid ar gyfer swyddi allweddol a'r ddibyniaeth ar wirfoddolwyr i redeg y gorsafoedd wedi arwain at leihau effeithlonrwydd y gorsafoedd ac ansawdd y rhaglenni a gynhyrchwyd ac allbynnau eraill.

22.	Roedd yr ymatebwyr o'r farn y byddai peidio â rhoi unrhyw arian o gwbl ar gyfer yr holl brosiectau a gyflwynir gan y gorsafoedd radio cymunedol i'r Gronfa Radio Cymunedol yn amharu cryn dipyn ar allu'r gorsafoedd i reoli eu gofynion busnes o ddydd i ddydd. Roedd XS o'r farn y byddai methu â chyflogi staff gwerthu a marchnata allweddol wedi lleihau'n sylweddol yr incwm hysbysebu a gafodd yn y pen draw ac a oedd yn helpu i redeg yr orsaf.

23.	Byddai prinder aelodau allweddol o staff yn cyfyngu ar allu gorsafoedd i oruchwylio, cynorthwyo a hyfforddi staff gwirfoddol er mwyn sicrhau eu bod yn effeithiol ac yn gallu mwynhau eu profiad gwirfoddoli yn y gorsafoedd radio. Am fod gorsafoedd radio cymunedol yn sefydliadau gwirfoddol gan mwyaf roedd y gorsafoedd o'r farn y byddai diffyg goruchwyliaeth a hyfforddiant ystyrlon ac effeithiol yn debygol o amharu ar frwdfrydedd gwirfoddolwyr, gan arwain at leihad yn nifer y gwirfoddolwyr ac yn hyfywedd a lefelau gwasanaeth y gorsafoedd a allai beri i'r gorsafoedd golli eu trwyddedau darlledu yn y pen draw ac, o bosibl, gau.

24.	Dywedodd tair o'r gorsafoedd, pe na bai unrhyw arian craidd, roeddent o'r farn ei fod yn allweddol i'w bodolaeth, na fyddai'r gorsafoedd wedi gallu gweithredu. Dywedodd Tudno FM “without the Fund we would have had serious problems in surviving”. Byddai angen i hyd yn oed y gorsafoedd hynny a lwyddodd i sicrhau ffynonellau ariannu amgen reoli'r ansicrwydd a'r risg ariannol uwch y byddai dileu'r Gronfa yn eu hachosi, gan arwain at ostyngiad posibl yn safon ac ansawdd y gwasanaethau a ddarperir.

**Dadansoddiad Ariannol**

25.	Roedd y cysyniad o radio cymunedol yn awgrymu y byddai'r gorsafoedd radio yn cynhyrchu cyfran sylweddol o'u hincwm yn lleol o hysbysebu i'r cymunedau lleol, eu gweithgareddau eu hunain a gweithgarwch codi arian. Roedd pob un o'r gorsafoedd yn rhoi blaenoriaeth i godi arian ar gyfer refeniw a chyfalaf a nododd pob un eu bod yn ei chael hi'n anodd bodloni eu gofynion refeniw a chyfalaf, yn rhannol oherwydd eu bod wedi'u lleoli mewn ardaloedd a oedd yn wynebu problemau economaidd penodol a oedd yn amharu ar fusnesau lleol.

26.	Mae'r adran hon yn seiliedig ar atebion y gorsafoedd radio cymunedol i'r holiadur a'r llythyr atodol a anfonwyd i'r gorsafoedd ar ôl dadansoddi eu hymatebion.

27. Nododd gorsafoedd radio cymunedol eu bod yn cael arian refeniw o dair prif ffynhonnell.

- Yn gyntaf, “awyr amser” neu le ar eu gwefan a werthir gan y gorsafoedd ar gyfer hysbysebion neu nawdd gan y sector preifat a'r sector cyhoeddus i raglenni a digwyddiadau penodol megis sioeau teithiol. Roedd y rhan fwyaf o'r cwmnïau yn y sector preifat a oedd yn hysbysebu ar y gorsafoedd radio cymunedol yn fusnesau lleol, gan gynnwys deiliaid masnachfraint cwmnïau cenedlaethol a rhyngwladol megis McDonalds. Dim ond un orsaf, sef Radio Cardiff, a oedd wedi gallu dibynnu ar hysbysebion a nawdd gan y sector preifat yn unig i gynhyrchu incwm, yn bennaf oherwydd ei leoliad yng Nghaerdydd. Mae'n bosibl y bydd y lleihad diweddar yn incwm hysbysebu Radio Cardiff wrth i gwmnïau lleol gwtogi ar ymgyrchoedd hysbysebu a'r gostyngiad mewn prisiau hysbysebu y gall yr orsaf eu codi oherwydd y dirwasgiad orfodi'r orsaf i wneud cais am gymorth grant gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol.
- Yn ail, byddai'r gorsafoedd yn cynnal gweithgareddau codi arian gan ddibynnu ar roddion gan wirfoddolwyr a chefnogwyr eraill a fyddai'n rhoi eitemau a gâi eu gwerthu wedyn i gynhyrchu incwm. Byddai gorsafoedd hefyd yn hurio cyfarpar ac yn gwerthu eitemau a oedd yn dangos brandiau'r gorsafoedd ar eu gwefannau.
- Yn drydydd, gwnaeth wyth gorsaf gais am gymorth ariannol i amrywiaeth o ffynonellau yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r sector elusennol. Roedd y ffynonellau ariannu yn cynnwys Cronfeydd Radio Cymunedol Llywodraeth Cymru ac Ofcom, cynghorau sir a chynghorau cymuned a thref. Lluniodd rhai gorsafoedd megis Tudno FM a Bro Radio gytundebau lefel gwasanaeth â'u cynghorau. Yn achos Bro Radio câi grant o £2,000 y mis gan Gyngor Bro Morgannwg. Byddai gorsafoedd hefyd yn gwneud cais i elusennau lleol megis cronfeydd eglwysi lleol, gwobrau sefydliadau cenedlaethol sy'n canolbwyntio ar y gymuned megis Gwobr Gymunedol Nat West, y Gronfa Loteri Fawr, Comic Relief, Ymddiriedolaeth Ford Britain a'r grantiau cymunedol a roddir gan BT ac O2. Byddai gorsafoedd hefyd yn cysylltu ag elusennau megis Ymddiriedolaeth Alex Dickson, Ymddiriedolaeth Esmee Fairburn ac elusennau sy'n cefnogi gwirfoddoli megis Gwirfoddolwyr Ifanc a Gwirfoddolwyr y Mileniwm. Roedd y rhan fwyaf o'r ffynonellau cyhoeddus, preifat ac elusennol wedi'u targedu i ariannu prosiectau penodol. Nid oedd y rhan fwyaf o'r fath ffynonellau arian ar gael i dalu costau gweinyddu craidd sefydliadau fel y bwriadwyd i Gronfeydd Radio Cymunedol Llywodraeth Cymru ac Ofcom ei wneud.

28. Am mai'n anaml roedd y gorsafoedd radio cymunedol yn cynhyrchu digon o refeniw dros ben i ariannu eu gwariant cyfalaf, nododd gorsafoedd hefyd eu bod wedi ceisio cymorth ariannol ar gyfer prosiectau cyfalaf. Sicrhaodd cyfanswm o chwe gorsaf gymorth ariannol i adnewyddu cyfarpar presennol neu adeiladu cyfleusterau newydd a gafwyd o ffynonellau megis y Gronfa Loteri Fawr, Cymunedau yn Gyntaf a grantiau Datblygu Busnes ac Adfywio Meysydd Glo. Meddiannodd Bro Radio yn y Barri stiwdios newydd yn adeilad yr YMCA a gafodd grant gwerth £152,000 gan Fwrdd Adfywio'r Barri i ddatblygu Menter Cyfryngau Digidol. Cytunodd yr YMCA i osod y stiwdios ar rent isel i Bro Radio. Nodwyd bod gorsafoedd radio cymunedol

hefyd wedi ceisio ac wedi cael grantiau cyfalaf gan sefydliadau megis Ymddiriedolaeth Dulveron, Ymddiriedolaeth Stadiwm y Mileniwm a diwrnod Trwynau Coch, tra bod rhai gorsafoedd wedi sicrhau cymynroddion bach a ddefnyddiwyd ganddynt at ddibenion cyfalaf.

29. Er gwaethaf y gystadleuaeth am grantiau a'r angen i wneud ceisiadau i nifer o ffynonellau, dim ond un o'r gorsafoedd a wnaeth gais am arian allanol a nododd nad oedd wedi llwyddo i godi unrhyw arian. Roedd y grantiau a gafwyd gan y gorsafoedd radio cymunedol yn amrywio o £300 i £500 gan gynghorau cymuned a thref neu elusennau lleol i'r £45,000 a'r £79,000 a gafodd GTFM a Tudno FM yn y drefn honno gan Cymunedau yn Gyntaf.

30. Cyflwynodd y rhan fwyaf o orsafoedd geisiadau i bob un o'r ffynonellau ariannol roedd eu prosiectau yn gymwys i wneud cais iddynt. Nododd ymatebwyr eu bod wedi neilltuo cryn dipyn o amser i wneud ceisiadau am y fath gymorth ariannol. Sicrhaodd BRFM, er enghraifft, grantiau gwerth cyfanswm o £83,000 gan 20 o sefydliadau rhwng mis Tachwedd 2009 a mis Tachwedd 2011. Dywedodd rheolwr un orsaf, o'r holl weithgareddau a gyflawnid ganddo, mai gwneud ceisiadau am grantiau oedd yr un a gymerai'r rhan fwyaf o'i amser a'i fod yn amharu ar y gwaith o reoli a chyfarwyddo'r orsaf o ddydd i ddydd.

31. Mae Tabl 3 yn nodi cyfanswm yr incwm a gynhyrchwyd gan saith o'r gorsafoedd radio cymunedol yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf (2009-10 a 2010-11). Ni chafodd dwy orsaf, sef Radio Cardiff a wrthododd roi gwybodaeth ariannol ac XS a oedd wedi mynd yn fethdalwr o'i wirfodd ers cwblhau'r holiadur drwy'r post, eu cynnwys yn y Tabl, ac nid oedd arian wedi'i ddyrannu o'r Gronfa Radio Cymunedol i ddwy orsaf arall, sef Radio Tircoed a Point FM.

32. Roedd yr incwm a gynhyrchwyd gan y gorsafoedd radio cymuned ac eithrio'r Grant Radio Cymunedol yn amrywio o £56,804.68 yn achos BRFM i £158,275 yn achos Bro Radio a £146,826.49 yn achos Tudno FM. Roedd y ffynonellau incwm yn amrywio ond cododd pob un o'r gorsafoedd incwm o roddion a digwyddiadau a gwnaeth pob un ohonynt gais am incwm o grantiau refeniw a chyfalaf a'i gael.

33. Cynhyrchodd pob un o'r gorsafoedd ac eithrio Calon FM fwy o incwm o'u gwahanol ffynonellau ariannu eraill na'r incwm a gawsant o Gronfa Radio Cymunedol Llywodraeth Cymru. Cyfanswm yr incwm a gynhyrchwyd gan Calon FM oedd £6,930, hynny yw, yr incwm a gynhyrchodd ei hun a'r grantiau refeniw a chyfalaf a gafodd, gan gynnwys £5,000 mewn grantiau cyfalaf. Cafodd £36,567 o dan Gronfa Radio Cymunedol Llywodraeth Cymru neu 5.3 gwaith yn fwy na chyfanswm yr incwm a gynhyrchwyd ganddo. Cynhyrchodd y pedair gorsaf arall y dyrannwyd arian iddynt o'r Gronfa incwm a oedd rhwng 1.7 a 5.2 gwaith yn fwy na'r arian a ddyrannwyd iddynt o'r Gronfa, neu'n gyffredinol 2.3 gwaith yn fwy na'r grant a gawsant o'r Gronfa**.** Pan gymharwyd y grantiau a ddyrannwyd o'r Gronfa â'r incwm a gynhyrchwyd gan y gorsafoedd eu hunain, nid oedd y gymhareb gyffredinol ond 1.4 gwaith yn fwy na'r grant a gafodd y gorsafoedd o'r Gronfa ac er bod dwy orsaf wedi llwyddo i gynhyrchu incwm a oedd yn fwy na dwywaith y grant a gawsant, cynhyrchodd tair gorsaf gryn dipyn yn llai.

34. Ar y cyfan ymddengys fod y cymorth ariannol a roddwyd gan Lywodraeth Cymru i'r gorsafoedd wedi'u helpu i gynhyrchu rhagor o incwm, a ddefnyddiwyd ganddynt i ariannu eu costau gweithredol parhaus, rhaglenni ychwanegol a'r gwaith o ddarparu hyfforddiant i'w gwirfoddolwyr.

35. Bu'r gyfran gymharol fach o gymorth ariannol a roddwyd gan Lywodraeth Cymru o'r Gronfa yn fodd i'r gorsafoedd wneud y canlynol:

- Cynnal eu gweithrediadau a'u hehangu hyd yn oed.
- Cynhyrchu mwy o incwm na'r hyn roeddent wedi'i gael o'r grant a ddosbarthwyd gan y Gronfa mewn amgylchedd economaidd heriol. Felly gellid ystyried bod yr arian a ddarparwyd yn rhoi gwerth am arian mewn termau ariannol, hyd yn oed heb ystyried y buddiannau cymunedol ehangach eraill a sicrhawyd gan y gorsafoedd (a gaiff eu hystyried yn yr adran isod).

**Rhwystrau i Lwyddiant**

36. Roedd gorsafoedd radio cymunedol o'r farn mai'r prif rwystrau a oedd yn eu hwynebu oedd cyllidebau cyfyngedig a'r lefel isel o arian a oedd ar gael i'w galluogi i dalu costau gorbenion a chyflogi staff cyflogedig profiadol. Roedd hyd yn oed y gorsafoedd hynny a oedd yn gallu parhau i gynnal eu busnesau drwy gynhyrchu refeniw hysbysebu wedi profi effeithiau'r dirwasgiad ac roedd eu hincwm hysbysebu wedi lleihau wrth i gwmnïau lleol gwtogi ar ymgyrchoedd hysbysebu a'r prisiau roedd y gorsafoedd yn gallu eu codi ostwng. Roedd y prinder adnoddau yn arbennig wedi cyfyngu ar weithrediadau gorsafoedd am fod lefelau gwirfoddoli yn ystod cyfnod o ansicrwydd economaidd a lefelau uchel o ddiweithdra yn arbennig o uchel ac roedd mwy o alw am yr ystod o wasanaethau a ddarperid gan orsafoedd radio cymunedol.

Er enghraifft, nododd Bro Radio fod galw cynyddol o du pobl leol, busnesau a darparwyr statudol am i'r orsaf gynyddu a gwella ei gwasanaethau gwybodaeth, yn enwedig o ran delio â dyled, darparu budd-daliadau a chyngor ar bensiynau tra bod mwy o ysgolion a cholegau wedi gofyn i'r orsaf gymryd myfyrwyr ar brofiad gwaith. Roedd yr orsaf hefyd wedi dod o dan bwysau i ehangu ei ôl troed radio i Fro Morgannwg.

Nododd gorsafoedd radio cymunedol eraill bwysau tebyg ac roedd XS o'r farn, heb y cymorth ariannol ar gyfer y swyddi allweddol amser llawn a roddwyd yn flaenorol gan y Gronfa, y byddai'n ei chael hi'n anodd cyflawni ei tharged dyddiol o 12 awr o allbwn byw ym mis Ionawr a mis Chwefror 2012 pe na châi'r grant ei adnewyddu.[1]

37. Nododd y ddwy orsaf radio roedd eu trwyddedau yn eu gwahardd rhag codi incwm masnachol gyfyngiadau'r rheoliadau a oedd yn gysylltiedig â'r trwyddedau yr ystyriwyd eu bod yn peryglu hyfywedd eu gweithrediadau a'u bodolaeth.

[1] Rhoddodd Ofcom ddirwy i XS ym mis Rhagfyr 2011 am fethu â darlledu rhaglenni byw â chynnwys llafar am nifer o ddiwrnodau ym mis Rhagfyr 2010, yn groes i delerau ei drwydded radio.

38. Yn olaf, nododd nifer o orsafoedd a oedd am gynyddu nifer eu rhaglenni Cymraeg ei bod wedi'i chael hi'n anodd recriwtio gwirfoddolwyr Cymraeg eu hiaith a oedd yn ddigon hyderus i ganiatáu i'w waith gael ei ddarlledu neu ddeunydd a ysgrifennwyd ganddynt gael ei gyhoeddi ar wefannau.

39. Awgrymodd y gorsafoedd y gallent oresgyn rhai o'r rhwystrau hyn drwy leihau eu dibyniaeth ar gymhorthdal cyhoeddus a chynhyrchu mwy o'u hincwm o wahanol fentrau masnachol a chydweithredol. Er y gallai'r rhwydwaith DNB newydd gyfrannu at gynhyrchu incwm gallai hyn fod yn anodd yn ystod dirwasgiad. Fodd bynnag, cynigiodd un orsaf y gallai recriwtio mwy o wirfoddolwyr neu unigolion ar leoliadau gwaith â phrofiad neu gymwysterau ym maes marchnata, gwerthu a hysbysebu ddod â manteision i orsafoedd unigol a'r sector radio cymunedol. Awgrymodd rhai gorsafoedd y gallai pwysau ariannu orfodi gorsafoedd i gynnal trafodaethau gydag Ofcom i leihau targed y gorsafoedd o ran nifer yr oriau y maent yn darlledu'n fyw bob dydd. Cynigiodd XS y dylid lleihau'r targed o 12 i wyth awr bob dydd. Gallai'r gorsafoedd hefyd recriwtio mwy o wirfoddolwyr Cymraeg eu hiaith a allai, maes o law, gyda'r hyfforddiant priodol, ddarparu deunydd Cymraeg y gellid ei gyhoeddi a'i ddarlledu a chymorth i ragor o wirfoddolwyr Cymraeg eu hiaith, a allai ymuno â'r gorsafoedd.

40. I grynhoi, ar y cyfan cafodd y gorsafoedd a gyflwynodd geisiadau i'r Gronfa Radio Cymunedol arian grant a ddefnyddiwyd ganddynt i ariannu swyddi cyflogedig ar gyfer aelodau allweddol o staff a thalu rhai o'u costau rhedeg. Roedd pob un o'r gorsafoedd o'r farn bod y cymorth ariannol a gawsant wedi rhoi rhywfaint o sefydlogrwydd ariannol iddynt a fu'n fodd i'r gorsafoedd gyflogi personél allweddol a gynhyrchodd incwm ychwanegol, a'u helpodd i fynd ati i hyfforddi gwirfoddolwyr ac eraill ac a sicrhaodd eu bod yn gallu rheoli'r ffocws ar redeg eu sefydliadau yn hytrach na gwneud ceisiadau am ragor o gymorth grant er mwyn cadw'r gorsafoedd “ar yr awyr”.

41. Roedd y gorsafoedd o'r farn y byddai lleihau'r cymorth ariannol a roddir gan Lywodraeth Cymru, neu ei dynnu'n ôl, yn amharu cryn dipyn ar y gorsafoedd a'r sector, yn enwedig am ei bod yn anodd cael gafael ar ffynonellau eraill o arian. Byddai'r gostyngiad mewn cyllid, yn enwedig ar gyfer swyddi allweddol, wedi arwain at leihad yn nifer yr oriau sy'n gysylltiedig â'r swyddi, tra byddai'r dileu'r arian yn gyfan gwbl wedi amharu'n sylweddol ar allu gorsafoedd i reoli eu gweithgareddau o ddydd i ddydd, gan orfodi rheolwyr i neilltuo hyd yn oed fwy o amser i godi arian ac, os nad oedd adnoddau amgen a'r sgiliau allweddol ar gael, gwtogi ar eu gweithgareddau darlledu a hyfforddi, a fyddai'n amharu ar hyfywedd a lefelau gwasanaeth gorsafoedd, gan beryglu eu trwyddedau darlledu o bosibl.

42. Bu'r arian a ddyrannwyd i'r gorsafoedd radio cymunedol drwy'r Gronfa yn fodd i'r gorsafoedd gynnal ac ehangu eu gweithrediadau a chynhyrchu incwm ychwanegol ac felly gellid ystyried ei fod yn rhoi gwerth da am arian mewn termau ariannol, hyd yn oed heb ystyried y buddiannau cymunedol ychwanegol a sicrhawyd gan y gorsafoedd, a gaiff eu hystyried yn yr adran nesaf.

**Tabl 3: Ffynonellau Refeniw Gorsafoedd Radio Cymunedol 2009-10 i 2010-11**

| Ffynonellau Incwm | Radio Tircoed | Point FM | BRFM | GTFM | Calon FM | Bro Radio | Tudno FM | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Hysbysebu a Nawdd | 2781 | - | 8794.25 | 35,803.45 | 110.00 | 10,337.00 | 315 | 58,140.70 |
| Rhoddion | 1,840.90 | 3,450.00 | 4,379.50 | 261.00 | 320.00 | 505.00 | 45,219.53 | 55,975.93 |
| Digwyddiadau | 2,450.50 | 3,800.00 | 5,332.75 | 3,355.00 | | 1,200.00 | 1,450.00 | 17,588.25 |
| Cytundebau lefel gwasanaeth | | | | 91,346.00 | 1,500.00 | 200.00 | 12,395.00 | 105,441.00 |
| Cyrsiau | | | 300.00 | | | | | 300.00 |
| Hyrwyddo gwerthiannau | 106.96 | | | | | | | 106.96 |
| Ffioedd aelodaeth | 771.00 | | | | | | | 771.00 |
| Hurio cyfarpar | | 1,200.00 | | | | | | 1,200.00 |
| Recordio bandiau | | | 1,851.00 | | | | | 1,851.00 |
| Cyfanswm yr incwm a gynhyrchwyd gan y gorsafoedd eu hunain | 7,950.36 | 8,450.00 | 20,657.50 | 130,765.45 | 1,930.00 | 12,242.00 | 59,379.53 | 241,374.847 |
| Cyfanswm; grantiau refeniw | 1,000.00 | 10,000.00 | 43,487.25 | 36,567.00 | | 30,600.00 | 34,872.00 | 156,526.25 |
| Cyfanswm y grantiau cyfalaf | 19,762.00 | 20,000.00 | 25,659.93 | | 5,000.00 | 152,000 | 80,871.96 | 303,293.89 |
| Cyfanswm yr incwm | 28,712.36 | 38,450.00 | 89,804.68 | 167,332.45 | 6,930.00 | 194,842.00 | 175,123.49 | 701,194.98 |
| Grant Radio Cymunedol | | | 33,000.00 | 36,567.00 | 36,567.00 | 36,567.00 | 28,297.00 | 170,998.00 |
| Cyfanswm yr incwm heb gynnwys y Grant Radio Cymunedol | 28,712.36 | 38,450.00 | 56,804.68 | 130,765.45 | -29,637 | 158,275.00 | 146,826.49 | 530,196.98 |
| Cymhareb incwm/grant radio cymunedol | - | - | 1.7 | 3.6 | 0.81 | 4.3 | 5.2 | 2.7 |
| Cymhareb incwm hunangynyrchedig i grant radio cymunedol | - | - | 0.6 | 3.6 | 0.05 | 0.8 | 2.1 | 1.4 |

## Y Buddiannau Cymunedol sy'n Deillio o'r Gronfa

43. Roedd y manteision cymdeithasol neu'r buddiannau cymunedol roedd y gorsafoedd radio cymunedol am eu sicrhau i'w hardaloedd lleol a'u cymunedau buddiant yn adlewyrchu'r amcanion manteision cymdeithasol gorfodol a nodwyd yng Ngorchymyn Radio Cymunedol 2004 a'r blaenoriaethau o ran cynhwysiant cymdeithasol ac adfywio a nodwyd yng nghyhoeddiad Llywodraeth Cymru “Y Gronfa Radio Cymunedol: Nodiadau Cyfarwyddyd”. Mae'r amcanion a nodwyd ar gyfer y gorsafoedd radio cymunedol fel a ganlyn:

- Rhoi gwybodaeth i'r rhai nad ydynt yn cael eu gwasanaethu gan gyfryngau darlledu eraill ar hyn o bryd, eu difyrru a rhoi llais iddynt drwy gynnig llwyfan i'r unigolion hynny nad yw eu chwaith na'u safbwyntiau'n cael eu cynrychioli'n ddigonol yn y cyfryngau prif ffrwd a gweithredu fel ffocws i bryderon, problemau a newyddion lleol y gymuned, sy'n aml yn cael eu hanwybyddu. Gwnaeth rhai o'r gorsafoedd hyn megis BRFM, Point FM a Bro Radio ymestyn yr amcan hwn i gynnwys gofyniad i annog trigolion lleol i greu, cynhyrchu a darlledu eu deunydd eu hunain a hyrwyddo cydlyniant cymdeithasol eu cymunedau drwy greu ymdeimlad o hunaniaeth gymdeithasol, balchder a buddiant cyffredin mewn cymdogaethau.

- Darparu amrywiaeth eang o hyfforddiant a phrofiad gwaith i'r genhedlaeth nesaf i'w galluogi i ddarparu newyddion, gwybodaeth a hyfforddiant o safon uchel yn lleol fel bod y cymunedau yn “siarad drostynt eu hunain” ac yn dod yn fwy hunanddibynnol. Nod Bro Radio oedd “galluogi ein cymuned i siarad â'i hun a drosti ei hun.”

- Er mwyn annog y cyhoedd i fanteisio'n fwy arnynt cynhaliai nifer o orsafoedd nosweithiau agored rheolaidd i roi cyfleoedd i'r cyhoedd ddysgu am y gorsafoedd a'r cyfleoedd roeddent yn eu cynnig a chyfrannu at y gwaith o'u gweithredu a'u rheoli. Roedd gan Bro Radio breswylydd lleol a etholwyd gan y gymuned a weithredai fel “eiriolwr dros wrandawyr” a oedd yn atebol i Fwrdd Cyfarwyddwyr yr orsaf, a oedd yn cynnwys pobl leol â chefndir ym myd busnes.

44. Dywedodd sawl gorsaf mai ei phrif amcan oedd sicrhau manteision cymdeithasol yn eu holl agweddau a dywedodd sawl gorsaf hefyd y câi'r amcanion eu hailasesu fel rhan o'r drefn er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â gofynion a dyheadau eu cymunedau. Roedd yr amcanion, a oedd yn adlewyrchu materion a oedd yn ymwneud â chynhwysiant cymdeithasol ac adfywio yn bennaf, yn cyd-fynd â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, yn eu hymatebion ni chyfeiriodd yr un o'r gorsafoedd at sicrhau cynaliadwyedd ariannol y sefydliadau na'r gofyniad i gynhyrchu incwm dros ben neu ddenu ffynonellau eraill o incwm digonol i dalu eu costau gweithredol a'u gorbenion er mwyn gwella gwasanaethau yn y dyfodol.

45. Roedd y manteision cymdeithasol neu'r buddiannau cymunedol roedd y gorsafoedd radio cymunedol am eu sicrhau i'w hardaloedd lleol a'u cymunedau buddiant yn adlewyrchu'r pedwar amcan statudol o ran manteision cymdeithasol a nodwyd yng Ngorchymyn Radio Cymunedol 2004. Ni chynigiodd yr un orsaf unrhyw fath arall o fantais gymunedol neu gymdeithasol.

46. Nododd y gorsafoedd eu grwpiau buddiant penodol fel y grwpiau oedran iau neu hŷn neu drigolion rhannau difreintiedig penodol o'u hardaloedd ac, yn achos Radio Cardiff, y gymuned o bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn Ne Caerdydd, y credai nad oeddent yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol gan y cyfryngau presennol. Sicrhaodd y gorsafoedd radio cymunedol amrywiaeth o fanteision i'w cymunedau lleol roeddent yn eu priodoli i'r arian a gawsant gan y Gronfa a oedd yn cynnwys y canlynol:

- Cynnydd yn nifer yr oriau darlledu.
- Cynnydd yn nifer ac amrywiaeth y rhaglenni.
- Rhoi cefnogaeth i'r Gymraeg ac ieithoedd eraill.
- Darparu cyfleoedd cyflogaeth, cyfleoedd hyfforddi a chyfleoedd gwirfoddoli.
- Ycyfraniad at waith partneriaeth a'r gwaith o gynnal digwyddiadau a gweithgareddau lleol. Ystyrir y rhain isod.

**Amser Darlledu**

47. Mae Tabl 4 yn nodi faint o oriau bob wythnos y mae'r gorsafoedd radio cymunedol yn darlledu yn Saesneg, Cymraeg ac ieithoedd eraill. Pwysleisiodd “Y Gronfa Radio Cymunedol: Nodiadau Cyfarwyddyd” a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru pa mor bwysig ydoedd bod gorsafoedd yn adlewyrchu'r iaith Gymraeg yn eu darllediadau, yn cynnwys hysbysebion dwyieithog ar yr awyr ac yn darparu rhaglenni i ddysgwyr a siaradwyr Cymraeg ac ymgymryd â gwaith allgymorth gyda'r gymuned Gymraeg. Gyda'i gilydd darparai'r naw gorsaf radio gymunedol gyfanswm o 1158 o oriau o ddarllediadau byw bob wythnos yn Saesneg a 50.5 o oriau o allbwn Cymraeg bob wythnos, tua 4.2 y cant o'r cyfanswm.

**Tabl 4: Nifer yr Oriau a Ddarlledwyd Bob Wythnos yn Saesneg ac yn Gymraeg**

| Enw'r Orsaf | Nifer yr oriau a ddarlledwyd bob wythnos yn Saesneg | Nifer yr oriau a ddarlledwyd bob wythnos yn Gymraeg | Nifer yr oriau a ddarlledwyd bob wythnos mewn ieithoedd eraill | Cyfanswm yr oriau byw bob wythnos | Cyfanswm yr oriau bob wythnos | % o Gymraeg mewn darllediadau byw | % o Gymraeg ym mhob darllediad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| GTFM | 123 | 6 | | 129 | 168 | 4.7 | 3.6 |
| XS | 168 | - | | 168 | 168 | - | - |
| BRFM | 94 | 4 | | 98 | 98 | 4.1 | 4.1 |
| Calon FM | 108 | 4 | 4 | 116 | 116 | 3.4 | 3.4 |
| Radio Tircoed | 118 | 1 | | 119 | 168 | 0.8 | 0.6 |
| Radio Cardiff | 166 | - | 2 | 168 | 168 | - | - |
| Tudno FM | 90 | 25.5 | | 115.5 | 115.5 | 22.1 | 22.1 |
| Point FM | 160 | 8 | | 168 | 168 | 4.8 | 4.8 |
| Bro Radio | 131 | 2 | | 133 | 168 | 1.5 | 1.2 |
| Cyfanswm | 1158 | 50.5 | 6 | 1,214.5 | 1,337.5 | 4.2 | 3.8 |

48. Roedd oriau darlledu'r gorsafoedd yn amrywio rhwng gorsafoedd. Er enghraifft, roedd chwech o'r gorsafoedd “ar yr awyr” am 24 awr y dydd saith diwrnod yr wythnos, sy'n cyfateb i 168 o oriau bob wythnos. Er bod eu hallbwn dros nos yn cynnwys cerddoriaeth wedi'i haddasu a rhaglenni wedi'u syndicetio ac eitemau a drefnwyd ymlaen llaw yn bennaf, roeddent hefyd yn cynnwys negeseuon cysylltu rheolaidd, rhagflas o raglenni, hysbysebion, newyddion lleol, penawdau'r tywydd a bwletinau newyddion ar gyfer y DU a bwletinau newyddion rhyngwladol yn ystod yr wythnos. Roedd y rhaglenni a gynhyrchwyd yn benodol gan y gorsafoedd (darllediadau “byw”), a gâi eu darlledu fel arfer rhwng 7 am a chanol nos ar y rhan fwyaf o ddyddiau'r wythnos, yn amrywio o 98 awr yr wythnos yn achos BRFM i 129 o oriau'r wythnos yn achos GTFM. Darlledai XS gyfanswm o 168 o oriau yn Saesneg o gymharu â 90 o oriau bob wythnos gan Tudno FM ac roedd yr amser a neilltuwyd ar gyfer darllediadau Cymraeg yn amrywio o 25.5 awr yr wythnos yn achos Tudno FM i ddim darllediadau Cymraeg o gwbl ar XS a Radio Cardiff. Esboniodd Radio Cardiff ac XS eu bod yn darlledu hysbysebion Cymraeg weithiau nad oeddent wedi'u cynnwys yn yr ystadegau ar gyfer eu hallbwn Cymraeg. Yn achos Radio Cardiff roedd yr orsaf hefyd yn darlledu yn Somalieg a Punjabeg i'r gymuned lleiafrif ethnig ym Mae Caerdydd. Roedd Calon FM hefyd yn darlledu dwy awr yr wythnos ym Mhwyleg a dwy awr yr wythnos yn Sbaeneg i boblogaeth Bwyleg a Sbaeneg Wrecsam. Roedd rhai o'r gorsafoedd hefyd yn darlledu rhaglenni dros y rhyngrwyd a oedd yn ennyn diddordeb ymhlith cyn drigolion a'u teuluoedd, roedd llawer ohonynt yn byw dramor, gan gynnwys yr UDA, a oedd am gadw mewn cysylltiad â datblygiadau yn yr ardaloedd lle roeddent yn arfer byw. Sefydlodd Point FM gydberthynas â nifer o orsafoedd radio cymunedol yn Ohio, lle yr ymsefydlodd llawer o deuluoedd o'r Rhyl yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, er mwyn archwilio materion a oedd yn ymwneud â hanes teuluol.

49. Nododd y gorsafoedd fod nifer yr oriau o ddarllediadau byw wedi cynyddu ers i'r gorsafoedd agor. Yn achos BRFM, er enghraifft, roedd nifer y darllediadau byw wedi cynyddu o 56 i 98 awr yr wythnos, yn bennaf am fod yr orsaf yn gallu cyflogi staff. Roedd darllediadau Cymraeg gorsafoedd eraill wedi cynyddu hefyd. Cynyddodd Tudno FM ei ddarllediadau Cymraeg 12 awr yr wythnos neu 50 y cant, tra roedd GTFM wedi dyblu ei allbwn Cymraeg ers 2007 i gynnwys sioe gylchgrawn dair awr a oedd yn cynnwys gwybodaeth am weithgareddau Mentrau Iaith lleol. Dywedodd Calon FM fod cynnydd sylweddol wedi bod yn y gerddoriaeth Gymraeg yn rhestrau chwarae cylchdro cyffredinol yr orsaf, a oedd hefyd yn cynnwys artistiaid lleol yn ogystal â cherddoriaeth Gymraeg.

50. Roedd rhai gorsafoedd wedi targedu siaradwyr Cymraeg yn benodol. Roedd Tudno FM wedi penodi Cyfarwyddwr a oedd yn gyfrifol am gynyddu allbwn Cymraeg yr orsaf. Perswadiodd BRFM yr Adran Gymraeg yn Ysgol Gyfun Tredegar i gyflwyno rhaglen awr unwaith yr wythnos i siaradwyr Cymraeg rhugl ac roedd yr orsaf hefyd yn darlledu dwy raglen ddwyieithog arall. Roedd dwy orsaf, sef BRFM a Calon FM, wedi cynnal yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nglynebwy yn 2010 a Wrecsam yn 2011 ac roeddent wedi rhoi lle amlwg i'r Eisteddfod Genedlaethol yn eu darllediadau ac wedi darlledu'r digwyddiad yn ei gyfanrwydd ar gyfer eu gwrandawyr. Yn achos BRFM sefydlodd yr orsaf orsaf RSL ar wahân am yr wythnos a fu'n darlledu'n gyfan gwbl yn Gymraeg o Faes yr Eisteddfod am gost o £3,000, gyda hanner y swm hwnnw yn cael ei ariannu gan noddwr. Yn ystod Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam darlledodd Calon FM nifer o raglenni Cymraeg a dwyieithog er mwyn annog siaradwyr Saesneg a siaradwyr Cymraeg i gymryd rhan yn yr Eisteddfod a chafodd pecynnau “Dysgu Cymraeg mewn Pum Munud” byr eu cynnwys yn ei raglenni cymunedol Saesneg drwy gydol y flwyddyn ac roedd gwefan yr orsaf hefyd yn ddwyieithog.

51. Roedd BRFM a GTFM yn cynnwys eitemau dysgu Cymraeg wythnosol ac yn hyrwyddo dosbarthiadau Cymraeg. Roedd Point FM a Bro Radio wedi cyflwyno sioeau dwyieithog i ddysgwyr Cymraeg a oedd yn cynnwys Cymry Saesneg eu hiaith a oedd yn ceisio dysgu Cymraeg gyda chyflwynwragedd a oedd yn siarad Cymraeg yn rhugl. Roedd y ddwy raglen yn cynnwys cerddoriaeth draddodiadol a modern Gymraeg.

### Rhaglenni Radio

52. Mae Tabl 5 yn nodi'r categorïau o raglenni a ddarlledwyd gan y gorsafoedd. Mae'r ffigurau yn amcangyfrifon a roddwyd gan y gorsafoedd am nad oedd Ofcom yn mynnu eu bod yn cadw cofnodion o union nifer yr oriau a neilltuwyd i gategorïau penodol o raglenni. Mabwysiadodd y gorsafoedd radio cymunedol fformat treigl a gymysgai eu hallbwn i greu naratif parhaus, amlweddog a oedd yn cynnwys cerddoriaeth bob hyn a hyn, fel y gallai fod yn anodd gwahanu'r gwahanol gategorïau o raglenni, yn enwedig faint o amser a neilltuwyd ar gyfer cerddoriaeth, a oedd yn elfen fawr o raglenni rhai gorsafoedd.

**Tabl 5: Y Math o Raglenni a Ddarlledwyd ar Orsafoedd Radio Cymunedol**

| Rhaglen Categorïau | GTFM (oriau bob wythnos) | BRFM (oriau bob wythnos) | Calon FM (oriau bob wythnos) | Radio Tircoed (oriau bob wythnos) | Radio Cardiff (oriau bob wythnos) | Tudno FM (oriau bob wythnos) | Point FM (oriau bob wythnos) | Bro Radio (oriau bob wythnos) | Cyfanswm (oriau bob wythnos) | Canran |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Newyddion Lleol | 6 | 14 | 29 | 10 | 1 | 5 | 8 | 32 | 105 | 10.1 |
| Newyddion cenedlaethol | 5.6 | - | - | | | 4 | 8 | 2 | 19.6 | 1.9 |
| Cerddoriaeth | * | 64 | 25 | 91 | 148 | 63.5 | 112 | * | 503.5 | 48.2 |
| Rhaglenni o ddiddordeb lleol | 82.5 | 6 | | 16 | 5 | 20 | 8 | 35 | 172.5 | 16.5 |
| Rhaglenni o ddiddordeb cyffredinol | 32 | 7 | 22 | | 12 | 18 | 20 | 82 | 193 | 18.4 |
| Chwaraeon | 6.5 | 3 | 2 | 4 | 3 | 5 | 8 | 4 | 35.5 | 3.4 |
| Celfyddydau | | - | 9 | - | | - | | | 9 | 0.9 |
| Ieithoedd ac eithrio'r Gymraeg | | - | 4 | | 2 | | | | 6 | 0.6 |
| Cyfanswm | 132.6 | 94 | 91 | 121 | 171 | 115.5 | 164 | 155 | 1,044.1 | 100.0 |

* Ni allai GTFM na Bro Radio roi amcangyfrifon am fod cyfran sylweddol o'u rhaglenni yn cynnwys cerddoriaeth.

53. O ran allbwn rhaglenni'r gorsafoedd roedd yn amlwg iawn mai cerddoriaeth oedd yr elfen fwyaf a oedd yn cyfrif am 503.5 awr yr wythnos neu 48.2 y cant o'u holl allbwn, ond mae'n debyg bod y ffigur hwn yn rhy isel am na allai GTFM na Bro Radio roi amcangyfrif manwl gywir o union nifer yr oriau o gerddoriaeth a ddarlledwyd ganddynt bob wythnos. Roedd faint o gerddoriaeth a chwaraewyd yn amrywio rhwng gorsafoedd. Roedd allbwn cerddoriaeth Radio Cardiff yn cyfateb i 148 awr yr wythnos ac roedd allbwn cerddoriaeth Tudno FM yn cyfateb i 63.5 awr yr wythnos. At hynny, roedd nifer o orsafoedd yn darlledu rhaglenni cerddoriaeth arbenigol megis GTFM a oedd yn darlledu 17 awr o'r fath raglenni. Roedd Calon FM hefyd yn darlledu rhaglenni celfyddydol ar wahân a oedd yn canolbwyntio ar farddoniaeth, llyfrau, y theatr a ffilm. Roedd ffocws lleol a chymunedol y gorsafoedd hefyd yn amlwg am eu bod yn darlledu cryn dipyn o raglenni newyddion lleol a rhaglenni o ddiddordeb lleol a oedd yn cyfateb i 277.5 awr yr wythnos, neu 26.6 y cant o'r amser darlledu.

54. Fel arfer roedd y newyddion cenedlaethol ar ffurf dwy neu dair munud o ddarllediadau newyddion bob dydd ar yr awr, a brynwyd fel arfer gan y gorsafoedd gan Independent Radio News, un o is-gwmnïau Sky News.

55. Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf roedd cymysgedd rhaglenni'r gorsafoedd wedi newid a gwelwyd cynnydd yn y cynnyrch byw, ac yn benodol roedd mwy o amser wedi'i neilltuo i newyddion lleol ac eitemau nodwedd a materion cyfoes cenedlaethol a'u goblygiadau lleol. Pwysleisiodd rhai gorsafoedd fod y cymysgedd rhaglenni yn newid yn barhaus i adlewyrchu barn gwrandawyr, digwyddiadau lleol a gynhelid ar wahanol adegau o'r flwyddyn a diddordebau gwirfoddolwyr unigol. Nododd Cardiff Radio fod ei raglenni cerddoriaeth arbenigol wedi newid wrth i droellwyr newydd ymuno â'r orsaf ac mewn ymateb i alwadau gan wrandawyr roedd yr orsaf wedi dechrau sioe sgâ newydd yn ddiweddar. Nododd Bro Radio hefyd fod gan yr orsaf raglen lawn bellach, ond ddwy flynedd yn ôl, pan y'i lansiwyd am y tro cyntaf, roedd cyfnodau pan mai dim ond cerddoriaeth a oedd yn cael ei chwarae am nad oedd digon o bobl i lenwi'r holl amser ar yr awyr a oedd ar gael. Bellach, roedd gan yr orsaf restr aros o unigolion i gyflwyno eu sioeau eu hunain.

56. Roedd fformatau rhaglenni'r gorsafoedd yn amrywio. Er enghraifft, roedd GTFM yn darlledu rhaglenni cerddoriaeth boblogaidd yn ystod y dydd a rhaglenni o ddiddordeb arbennig gyda'r nos yn ystod yr wythnos ac ar y penwythnos. Câi Independent Radio News (Sky News) ei ddarlledu bob dydd ar yr awyr a châi ei ddilyn gan newyddion lleol mewnol rhwng 6am ar ddydd Llun a 6am ar ddydd Sadwrn bob wythnos. Nid oedd unrhyw newyddion lleol wedi'u hamserlenni ar y penwythnos. Roedd allbwn wythnosol yr orsaf yn ystod y dydd yn cynnwys gwybodaeth leol fel rhan o'r drefn, megis y penawdau teithio, “beth sydd ymlaen” yn yr ardal, sgyrsiau byr a recordiwyd ymlaen llaw a chyfweliadau byw, gyda cherddoriaeth boblogaidd yn cael ei chwarae bob hyn a hyn. Roedd allbwn y gorsafoedd gyda'r nos ac ar y penwythnos yn cynnwys amrywiaeth eang o raglenni o ddiddordeb arbennig yn bennaf a oedd yn cynnwys amrywiaeth eang o fathau o gerddoriaeth a gyflwynwyd gan arbenigwyr lleol. Yn ddiweddar roedd GTFM wedi lansio rhaglenni busnes a rhaglenni moduro lleol misol.

57. Roedd pob un o'r gorsafoedd yn rhoi pwys ar roi llais i'w hardaloedd. Er mwyn hwyluso'r broses o drafod a mynegi barn roedd y gorsafoedd yn darlledu sesiynau

holi ac ateb ar faterion lleol gydag Aelodau Cynulliad ac Aelodau Seneddol lleol, cynrychiolwyr pleidiau eraill a chyrff statudol lleol a chyrff Llywodraeth. Roedd y gorsafoedd hefyd yn cynnal trafodaeth bord gron gyda grwpiau lleol ar faterion lleol cyfoes megis trosedd, cau ysgolion lleol a datblygiadau cynllunio arfaethedig a oedd yn effeithio ar eu hardaloedd, a rhaglenni mynediad agored (ffonio i mewn, e-bost neu anfon negeseuon testun) i ysgogi cyfranogiad gwrandawyr. Roedd yn well gan rai gorsafoedd megis Point FM ryngweithio'n uniongyrchol â'u cynulleidfaoedd a byddent yn annog eu cynulleidfaoedd i gysylltu â chyflwynwyr rhaglenni neu sioeau yn uniongyrchol anfon negeseuon testun neu e-bost, a oedd sicrhau bod gan y gwrandawyr berchenogaeth ar y materion a oedd yn cael eu hystyried. Roedd GTFM yn rhannu rhai o'i raglenni ffonio i mewn byw â Radio Cardiff.

**Cyflogaeth**

58. Nodwyd mai un o'r prif fanteision cymdeithasol sy'n deillio o orsafoedd radio cymunedol yw cyflogaeth, naill ai amser llawn neu ran-amser, a'r cyfleoedd gwirfoddoli a hyfforddi y maent yn eu cynnig i bobl ifanc. Mae Tabl 6 yn nodi nifer yr aelodau o staff a gwirfoddolwyr a oedd yn gweithio yn y gorsafoedd radio cymunedol. Roedd y gorsafoedd yn cyflogi cyfanswm o 18 o staff amser llawn neu ran-amser. Roedd y rhan fwyaf o'r staff cyflogedig yn rheolwyr gorsafoedd, golygyddion, uwch aelodau o staff â phrofiad ym maes cyllid, staff marchnata/gwerthu, swyddogion datblygu cymunedol a pheirianwyr radio. Roeddent yn cyflawni ystod lawn o rolau sy'n gysylltiedig â rhedeg y gorsafoedd radio a hefyd hyfforddi a goruchwylio'r gwirfoddolwyr. Nid oedd tair gorsaf radio gymunedol - sef Radio Tircoed, Radio Cardiff a Point FM - yn cefnogi unrhyw staff cyflogedig amser llawn ac nid oedd dwy o'r tair gorsaf hyn, sef Radio Tircoed a Radio Cardiff, yn cyflogi unrhyw staff cyflogedig rhan-amser ychwaith, ond roeddent yn dibynnu'n gyfan gwbl ar wirfoddolwyr rhan-amser i redeg y gorsafoedd. Roedd y rhan fwyaf o'r unigolion a oedd yn gweithio mewn gorsafoedd radio cymunedol (mwy na 96 y cant) naill ai'n wirfoddolwyr amser llawn neu'n wirfoddolwyr rhan-amser. Roedd nifer y gwirfoddolwyr yn y gorsafoedd yn amrywio rhwng 136 yn Radio Cardiff i 27 yn XS a Bro Radio.

59. Roedd llawer o resymau pam mae unigolion yn gwirfoddoli i weithio gyda gorsafoedd radio cymunedol. Mae gwirfoddoli yn rhoi teimlad o gyflawniad i unigolion am eu bod yn gwneud rhywbeth gwahanol ac yn meithrin sgiliau newydd. Mae pobl eraill yn chwilio am yrfa yn y cyfryngau ac maent am gael profiad uniongyrchol o ddarlledu, tra bod pobl eraill, o bosibl, yn unig ac wedi'u hynysu ac maent am weithio gydag eraill a helpu yn eu cymunedau lleol.

60. Roedd y gwirfoddolwyr yn y gorsafoedd radio cymunedol yn dod o bob grŵp oedran, cefndir a sector cyflogaeth. Roeddent yn cynnwys:

- Pobl ifanc nad oeddent mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.
- Y rhai ar leoliadau gwaith o ysgolion a cholegau lleol, a oedd am gael profiad o bob agwedd ar waith cynhyrchu radio.
- Unigolion a oedd yn ddi-waith.
- Myfyrwyr.

- Pobl wedi ymddeol.
- Unigolion eraill mewn gwaith llawn amser.

Roedd y gorsafoedd yn gweithio gydag adrannau cyfryngau colegau lleol gyda'r bwriad o ddarparu lleoliadau i'w myfyrwyr. Nodwyd bod nifer gynyddol o bobl ifanc â chymwysterau Safon Uwch a gradd nad oeddent yn gallu dod o hyd i swyddi parhaol yn gwirfoddoli.

61. Câi gwirfoddolwyr eu defnyddio i gyflawni rolau a oedd yn gysylltiedig â phob agwedd ar y gwaith o redeg gorsafoedd radio. Roedd y rolau yn cynnwys paratoi newyddion, gwaith ymchwil, cyflwyno rhaglenni, llunio hysbysebion, darlledu y tu allan, gwaith peirianyddol gorsafoedd, cymorth technegol, gwaith gweinyddol mewn swyddfa, golygu a chynhyrchu rhaglenni. Mewn rhai gorsafoedd roedd pob un o'r rhaglenni yn cael eu cyflwyno gan wirfoddolwyr. Yn achos GTFM roedd mwy na 40 o wirfoddolwyr unigol o gronfa o 60 yn ymwneud yn uniongyrchol â gweithgareddau gorsafoedd mewn unrhyw wythnos benodol.

62. Roedd pob un o'r gorsafoedd radio cymunedol yn darparu hyfforddiant i wirfoddolwyr a'r rhai ar leoliadau gwaith heb fawr ddim profiad o radio. Roedd yr hyfforddiant hwn ar ffurf rhaglenni sefydlu llawn a oedd yn ymdrin â phob agwedd ar waith y gorsafoedd radio a dysgu seiliedig ar waith a hyfforddiant pwrpasol ar agweddau penodol o waith cynhyrchu radio, megis gwneud a chyflwyno rhaglenni, recordio sain, gan gynnwys golygu. Bwriad y gorsafoedd, fel arfer, oedd teilwra'r rhaglenni hyfforddiant i gyd-fynd ag anghenion a diddordebau'r gwirfoddolwr unigol a'r orsaf.

Roedd BRFM, er enghraifft, wedi datblygu rhaglen hyfforddiant strwythuredig a oedd yn cynnwys diwrnodau blasu ar dechnegau megis sgiliau cyfweld, sgiliau golygu a sgiliau cyfrifiadurol sylfaenol a oedd yn agored i bob aelod o'r gymuned fel ffordd o annog cyfranogiad, cymorth o ddydd i ddydd drwy hyfforddiant ffurfiol ac anffurfiol a oedd yn gysylltiedig â mentora, dilyn cyrsiau ffurfiol ym Mhrifysgol Morgannwg a oedd yn arwain at achrediad, a chwrs ffurfiol 10 wythnos a oedd yn ymdrin â sgiliau darlledu a sgiliau bywyd allweddol, megis gwaith tîm, disgyblaeth, hunangymhelliant, cyfathrebu a sgiliau trefnu.

63. Roedd cyfraniad y gwirfoddolwyr at y gorsafoedd yn un sylweddol. Yn achos Bro Radio yn ystod y cyfnod rhwng mis Ionawr a mis Tachwedd 2010 neilltuodd y gwirfoddolwyr iau (rhwng 13 a 24 oed) gyfanswm o 2,765 awr i'r orsaf a neilltuodd y gwirfoddolwyr dros 24 oed gyfanswm o 3,347 awr, sy'n cyfateb i gyfraniad ariannol gwerth £35,632 yn seiliedig ar yr isafswm cyflog.

**Tabl 6: Nifer y gweithwyr cyflogedig a'r gwirfoddolwyr mewn Gorsafoedd Radio Cymunedol**



| | Radio Tircoed | Radio Cardiff | Point FM | BRFM | GTFM | XS | Calon FM | Bro Radio | Tudno FM | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y staff cyflogedig amser llawn (30 awr yr wythnos a mwy) | - | - | - | 2 | 3 | 2 | 2 | 1 | 1 | 11 |
| Nifer y staff rhan-amser (llai na 30 awr yr wythnos) | - | - | 4 | 1 | - | - | 1 | 1 | - | 7 |
| Nifer y gwirfoddolwyr (amser llawn) | - | 1 | 14 | 5 | 1 | - | - | - | - | 21 |
| Nifer y gwirfoddolwyr (rhan-amser) | 48 | 135 | 34 | 30 | 60 | 25 | 60 | 25 | 55 | 472 |
| Cyfanswm | 48 | 136 | 52 | 38 | 64 | 27 | 63 | 27 | 56 | 511 |

**Tabl 7: Canlyniadau Gwirfoddolwyr a Myfyrwyr a Ymgymerodd â Hyfforddiant mewn Gorsafoedd Radio Cymunedol yn ystod y cyfnod 2009-11**

| | Radio Tircoed | Point FM | BRFM | GTFM | Calon FM | Bro Radio | Tudno FM | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y gwirfoddolwyr a ddilynodd raglenni hyfforddiant | 85 | 14 | 50 | 24 | 300 | 90 | 153 | 716 |
| Nifer y gwirfoddolwyr a gwblhaodd raglenni hyfforddiant | 85 | 24 | 50 | 24 | 300 | 60 | 146 | 689 |
| Nifer y gwirfoddolwyr a gafodd swydd gyflogedig rywle arall yn yr orsaf | 3 | 10 | 11 | 2 | 9 | 6 | 13 | 54 |
| % yr unigolion a gwblhaodd raglen hyfforddiant ac a gafodd swydd gyflogedig | 3.5 | 41.7 | 22.0 | 8.3 | 3.0 | 10.0 | 8.9 | 8.0 |

64. Mae Tabl 7 yn nodi'r hyfforddiant y nododd gorsafoedd radio cymunedol iddynt ei ddarparu i wirfoddolwyr a'r unigolion hynny ar leoliadau gwaith. Ymgymerodd 716 o wirfoddolwyr a myfyrwyr â hyfforddiant yn ystod y ddwy flwyddyn ariannol 2009-11. Roedd y nifer yn amrywio o 300 yn achos Calon FM a 14 yn Point FM. Cwblhaodd cyfanswm o 689 o'r 716 a ymgymerodd â hyfforddiant (hynny yw, 96.2 y cant) yr hyfforddiant. Cafodd cyfanswm o 8 y cant o'r rhai a gwblhaodd yr hyfforddiant waith cyflogedig yn eu gorsafoedd radio neu rywle arall. Fodd bynnag, derbyniwyd nifer o unigolion eraill ar gyrsiau cyfryngau addysg uwch neu addysg bellach oherwydd y profiad gwaith a'r hyfforddiant a gawsant yn y gorsafoedd. Roedd y ganran a gafodd waith cyflogedig yn amrywio o 3 y cant yn Calon FM, a hyfforddodd y nifer fwyaf o wirfoddolwyr, i 41.7 y cant yn Point FM, a hyfforddodd y nifer leiaf.

**Partneriaethau a Chydweithredu**

65. Ystyrir bod sefydlu partneriaethau yn un o'r camau ar y ffordd i adfywio, ei fod yn un o ddangosyddion arfer rheoli da ac yn un o ofynion Llywodraeth Cymru ar gyfer y sefydliadau sy'n cael cymorth ariannol ganddi. Mae Nodiadau Canllaw Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gronfa Radio Cymunedol, er enghraifft, yn pwysleisio pwysigrwydd cydweithredu, gan gynnwys gorsafoedd yn gwneud ceisiadau ar y cyd am gymorth ariannol gan y Gronfa Radio Cymunedol. Dywedodd pob un o'r gorsafoedd radio cymunedol eu bod yn gweithio mewn partneriaeth neu'n cydweithredu â sefydliadau eraill a rhoddodd pob un ohonynt enghreifftiau, er na chyflwynwyd unrhyw geisiadau ar y cyd am gymorth ariannol i'r Gronfa.

66. Ymhlith y sefydliadau roedd y gorsafoedd radio cymunedol yn gweithio gyda hwy roedd cyrff cyhoeddus megis cynghorau sir, cynghorau cymuned a thref, yr heddlu, gwasanaethau tân ac achub, cyrff iechyd, ysgolion lleol, colegau a phrifysgolion. Roedd Calon FM, er enghraifft, wedi'i leoli ym Mhrifysgol Glyndwr yn Wrecsam ac roedd GTFM a Radio Cardiff wedi cael cymorth gan Brifysgol Morgannwg. Câi'r rhaglenni gyda'r nos ar Radio Cardiff eu darlledu gan fyfyrwyr o gampws y Brifysgol yng Nghaerdydd. Roedd pob un o'r gorsafoedd yn gwneud rhaglenni a oedd yn rhoi sylw i waith yr heddlu lleol, gwasanaethau tân ac ambiwlans, gwasanaethau cynghorau, a oedd yn cynnwys rhoi cyngor ar ddiogelwch a rhaglenni atal troseddu, eitemau nodwedd ar broblemau yn ymwneud â throsedd megis y troseddau sy'n ymwneud â cheir a welwyd mewn ardaloedd penodol a'r cyngor diweddaraf ar faterion megis bwyta'n iach ac ymarfer gan gynrychiolwyr sefydliadau gofal iechyd.

67. Sefydlodd rhai gorsafoedd bartneriaethau â phapurau newydd lleol, megis partneriaeth Bro Radio â thîm newyddion Glamorgan Gem a Chyngor Bro Morgannwg, i roi'r newyddion a'r cyngor diweddaraf ar gyfer eu hardaloedd. Darlledai GTFM ei fwletinau newyddion lleol ei hun a ddarparai i orsafoedd ar-lein a gorsafoedd RSL lleol, sef Rhondda Radio yn Nhreherbert a Dapper FM a oedd wedi'i leoli ym Mhen-y-waun. Yn ystod y gaeaf yn 2009 a 2010 rhoddodd gorsafoedd y wybodaeth ddiweddaraf am benderfyniadau i gau ffyrdd, ysgolion ac adeiladau cyhoeddus yn ystod tywydd garw iawn a buont yn gweithredu fel cyfryngwyr rhwng eu gwrandawyr a'r gwasanaethau brys.

68. Nododd pob un o'r gorsafoedd eu bod yn gweithio gydag elusennau lleol megis Marie Curie, Canolfannau Cyngor ar Bopeth, Nyrsys Macmillan, Sefydliad Prydeinig y Galon. Roedd yr holl enwadau crefydd yn cyfrannu at raglenni crefyddol, megis rhaglen “Thought for the Week” a oedd yn cael ei darlledu gan Radio Tircoed. Roedd y gorsafoedd hefyd yn gweithio gyda phartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'w gwrandawyr am ddatblygiadau yn yr ardaloedd adfywio a thynnu sylw at gyfleoedd swyddi mewn busnesau lleol a'r digwyddiadau a oedd yn cael eu cynnal gan y partneriaethau. Roedd Bro Radio, a leolir yng Nghanolfan yr YMCA yn y Barri, yn gweithio'n agos gyda staff yr YMCA i hyrwyddo gweithgarwch gwneud rhaglenni radio a ffilmiau yn y gymuned i bobl leol.

69. Nododd pob un o'r gorsafoedd eu bod yn ceisio meithrin gwell dealltwriaeth o'u cymunedau ac atgyfnerthu cysylltiadau y tu mewn iddi. Er enghraifft, roedd Radio Cardiff yn darlledu rhaglenni ar faterion amgylcheddol lleol, AIDs, hawliau pobl Hoyw

a hanes pobl Dduon ac roedd BRFM yn darlledu rhaglenni a roddai lwyfan i wahanol sefydliadau elusennol ymgysylltu â'r cyhoedd i godi ymwybyddiaeth o'u gwasanaethau. Aeth GTFM ymhellach gan annog trafodaethau gydag elusennau a chyrff eraill am gynnwys y cyhoedd mewn cynlluniau megis adfywio cymunedau, gwirfoddoli, cymunedau diogelach, ymddeol a dysgu gydol oes. At hynny, creodd y gorsafoedd gysylltiadau â sefydliadau megis y partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf yn eu hardaloedd, cyrff yn y sector gwirfoddol a'r Sefydliad Cymunedol yng Nghymru i ddarparu cysylltiadau newydd rhwng sefydliadau a grwpiau newydd. Roedd rhai gorsafoedd radio cymunedol, megis BRFM, yn defnyddio gwirfoddolwyr fel gweithwyr allgymorth er mwyn sicrhau bod y gorsafoedd yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am faterion ac anghenion a chynnal cysylltiadau â chyfryngau a grwpiau lleol eraill.

**Digwyddiadau**

70. O ganlyniad i'r Gronfa Radio Cymunedol, nododd rhai gorsafoedd radio cymunedol megis GTFM iddynt gynnal digwyddiadau a gweithgareddau yn eu hardaloedd er mai prin iawn oedd y fath weithgareddau a gynhaliwyd yn y gorffennol. Cynhaliwyd y rhain gan y gorsafoedd eu hunain neu mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol a chyrff eraill. Ymhlith y digwyddiadau a gynhaliwyd roedd cyngherddau a dawnsfeydd i bobl ifanc, sioeau teithiol, gwasanaethau carolau, cynnau goleuadau Nadolig Pontypridd, agor ffordd osgoi Gartholwg a darlledu gwasanaethau coffa lleol. Rhoddodd XS gyhoeddusrwydd i ddrama “The Passion“ ym Mhort Talbot a oedd yn cynnwys Michael Sheen yn y brif ran dros gyfnod o dri diwrnod a phenodwyd Point FM yn orsaf radio swyddogol Clwb Pêl-droed y Rhyl a chyd-noddwr Sioe Awyr y Rhyl.

71. I grynhoi, o ystyried amrywiaeth a chwmpas eu gweithgareddau ymddengys fod gorsafoedd radio cymunedol wedi cymryd y camau sydd eu hangen i ddarparu gwasanaethau darlledu effeithiol a'u bod wedi cyflawni eu hamcanion o ran sicrhau manteision cymdeithasol a nodir yn eu trwyddedau. Ymddengys hefyd eu bod wedi ennyn agweddau cadarnhaol at wella gwasanaethau lleol a hunanwerth unigolion, grwpiau a'u hardaloedd drwy feithrin agweddau “gallu gwneud”, gan annog hunangymorth drwy roi cyngor, gwybodaeth ddefnyddiol a hyfforddiant mewn sgiliau cyfryngol ac ymgysylltu ag asiantau llywodraeth yn eu hardaloedd.

72. Awgrymodd yr amrywiaeth o weithgareddau a oedd yn cael eu cyflawni gan orsafoedd radio cymunedol eu bod yn sefydliadau arloesol ac egnïol.

## Bodlonrwydd ar y Gronfa a'r modd y caiff ei Gweinyddu

73. Mae'r adran hon yn ystyried yn gyntaf farn y gorsafoedd radio cymunedol ynglŷn â’r Gronfa Radio Cymunedol a sut y gellid ei haddasu i ddiwallu anghenion gorsafoedd radio cymunedol a'r sector yng Nghymru yn well. Mae hefyd yn ystyried i ba raddau y mae'r gorsafoedd yn fodlon ar y modd y mae Llywodraeth Cymru yn gweinyddu'r Gronfa.

### Cynigion ar gyfer Newid y Gronfa

74. Gofynnwyd i orsafoedd radio cymunedol roi eu barn ar sut y gellid addasu'r Gronfa i ddiwallu anghenion gorsafoedd unigol a'r sector radio cymunedol yn well yng Nghymru. A'r hyn y gallai Llywodraeth Cymru ei wneud i hyrwyddo a chefnogi gorsafoedd radio cymunedol a'r sector.

75. O ran newidiadau posibl i'r Gronfa Radio Cymunedol roedd y gorsafoedd yn cefnogi'r Gronfa a'r modd roedd yn cael ei gweithredu. Roedd pedair gorsaf o'r farn bod y Gronfa ar ei ffurf bresennol yn ddigonol i ddiwallu anghenion eu gorsafoedd, yn enwedig y cyfle i gael arian i recriwtio aelodau allweddol o staff. Gwnaeth y gorsafoedd nifer o awgrymiadau ar gyfer addasu'r Gronfa, gan gynnwys: cynyddu'r Gronfa yn unol â'r cynnydd yng nghostau gorbenion gorsafoedd radio cymunedol ac yn unol â'r cynnydd yn nifer y gorsafoedd radio cymunedol, ar ôl trwyddedu gorsafoedd newydd, er enghraifft.

76. Awgrymodd un orsaf y dylid rhannu'r Gronfa yn gyfartal rhwng pob ymgeisydd fel y byddai pob gorsaf yn cael incwm blynyddol penodol. Awgrymodd gorsaf arall ddull gweithredu ychydig yn wahanol a oedd yn golygu y byddai pob gorsaf yn cael swm penodedig unffurf i helpu gyda'i orbenion gweithredu ac wedyn bennu swm hyblyg y gellid ei dargedu at brosiectau, cyflogaeth neu anghenion penodol. Awgrymwyd hefyd y dylid cynyddu'r amrywiaeth o weithgareddau y byddai'r Gronfa yn eu hariannu. Câi'r meysydd penodol eu nodi ar ôl ymgynghori â'r sector radio cymunedol ond cynigiwyd y dylent gynnwys y rhwydwaith DNB newydd.

77. At hynny, awgrymodd y gorsafoedd radio cymunedol nifer o gamau y gallai Llywodraeth Cymru eu cymryd i gefnogi radio cymunedol. Roeddent o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru gynnwys gorsafoedd radio cymunedol yng Nghymru ar restr Llywodraeth Cymru o gyflenwyr cyfryngau a ffefrir ac y dylai hefyd, fel rhan o'r drefn, roi cyfran o'i hysbysebion gwasanaethau cyhoeddus y telir amdanynt ar orsafoedd radio cymunedol ochr yn ochr â'i hysbysebion ar radio a theledu masnachol. Roeddent o'r farn y byddai prisiau hysbysebu cyfun gorsafoedd radio cymunedol yn gymharol isel, ond y byddai'r manteision i'r sector yn sylweddol.

78. Cynigiodd y gorsafoedd y dylai swyddogion Llywodraeth Cymru gyfarfod â chynrychiolwyr y sector radio cymunedol o bryd i'w gilydd i drafod datblygu'r sector a materion penodol a oedd o ddiddordeb iddynt neu a oedd yn peri pryder iddynt. Byddai materion yn cynnwys rôl y gorsafoedd o ran hyfforddi, codi proffil radio cymunedol, er enghraifft, drwy annog gorsafoedd i gydweithio â darlledwyr eraill megis y BBC, ITV a S4C a noddi gwobrau i gydnabod eu cyflawniadau a'u rhagoriaeth er mwyn annog safonau uchel yn y sector.

**Gweinyddu'r Gronfa Radio Cymunedol**

79. Mae gwella gwasanaethau bellach yn flaenoriaeth bwysig i bob gwasanaeth cyhoeddus. Felly, un agwedd bwysig ar werthusiad o Gronfa Radio Cymunedol Llywodraeth Cymru sydd â ffocws allanol oedd nodi i ba raddau y mae gorsafoedd radio cymunedol yn fodlon ar y modd y caiff y Gronfa ei gweinyddu a chael adborth ganddynt ar b'un a ellid gwella'r prosesau. Gofynnwyd i'r gorsafoedd nodi'r canlynol:

- Sut y clywsant am y Gronfa.
- Eu hasesiadau o agweddau ar brosesau gweinyddu Llywodraeth Cymru.

80. Er i fanylion y Gronfa a'r cylchoedd ariannu ar wahân gael eu hanfon drwy'r post i bob gorsaf radio gymunedol, dim ond pedair o'r gorsafoedd a nododd iddynt glywed am y Gronfa yn uniongyrchol drwy lythyr a anfonwyd gan Lywodraeth Cymru. Nododd dwy orsaf iddynt gael eu hysbysu o'r Gronfa gan Ofcom, nododd dwy arall iddynt glywed amdani gan wirfoddolwyr yn yr orsaf a chlywodd un orsaf amdani yn y wasg ond yn rhy hwyr i anfon cais i Lywodraeth Cymru.

81. Gofynnwyd i'r gorsafoedd hefyd roi gradd o 1 ( gwael) i 5 (ardderchog) i'w hasesiad o'r wybodaeth a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru am ddiben y Gronfa, y canllawiau ar sut i wneud cais am gymorth ariannol i'r Gronfa, pa mor hawdd oedd y ffurflen gais i'w defnyddio, eglurhad ynghylch sut y câi'r ceisiadau eu hasesu a'r gwasanaeth a ddarperir i ymgeiswyr yn gyffredinol drwy gydol y broses ariannu.

**Tabl 8: Barn ar y Modd y mae Llywodraeth Cymru yn Gweinyddu'r Gronfa Radio Cymunedol**

| Gorsaf radio | Graddau a roddwyd am berfformiad Llywodraeth Cymru | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Gwybodaeth am ddiben y Gronfa | Canllawiau ar sut i wneud cais | Pa mor hawdd oedd y ffurflen gais i'w defnyddio | Eglurhad ynghylch y broses asesu | Boddhad cyffredinol â'r gwasanaeth a gafwyd |
| BRFM | 5 | 5 | 5 | 5 | 5 |
| Bro Radio | 4 | 4 | 5 | 5 | 4 |
| Calon FM | 5 | 5 | 5 | 5 | 5 |
| GTFM | 5 | 5 | 4 | 5 | 5 |
| Point FM | 4 | 4 | 4 | 4 | 5 |
| Tudno FM | 5 | 5 | 5 | 5 | 5 |
| XS | 5 | 5 | 5 | 4 | 5 |
| Radio Cardiff | 4 | 4 | Dd/G | Dd/G | Dd/G |
| Radio Tircoed | 3 | 5 | 4 | 5 | 2 |
| Cyfanswm | | | | | |
| Marc a gafwyd | 40 | 42 | 37 | 38 | 36 |
| Marc uchaf posibl | 45 | 45 | 40 | 40 | 40 |

82. Nodir y graddau a roddwyd gan y gorsafoedd radio cymunedol yn Nhabl 8. Mae graddau gorsafoedd unigol wedi'u cyfuno i roi cyfanswm. Am na wnaeth Radio Cardiff gais i'r Gronfa roedd o'r farn na allai gyflwyno sylwadau ar ba mor hawdd oedd y ffurflen gais i'w defnyddio, y broses asesu na'r gwasanaeth a ddarparwyd i ymgeiswyr i'r Gronfa. Awgryma ymatebion cyfun y gorsafoedd sy'n amrywio o 42 allan o 45 i 36 o 40 fod y gorsafoedd radio cymunedol yn fodlon ar ddogfennaeth y Gronfa a'r modd roedd y broses gwneud cais yn cael ei gweinyddu. Dywedodd nifer o orsafoedd fod gweithdrefnau Llywodraeth Cymru yn foddhaol ac nad oedd angen iddynt newid. Nododd un orsaf “o gymharu ag arianwyr eraill roedd y broses yn wych.”

83. Yr unig awgrym ar gyfer newid y broses gwneud cais a wnaed gan un orsaf oedd y dylid cyhoeddi'r amserlen ar gyfer penderfyniad y panel ar geisiadau i'r Gronfa er mwyn rhoi digon o amser i'r gorsafoedd hynny roedd eu ceisiadau i'r Gronfa am gymorth ariannol i adnewyddu swyddi a oedd yn bodoli eisoes yn aflwyddiannus roi'r hysbysiadau diswyddo gofynnol i'w staff. Mae hyn, unwaith eto, yn pwysleisio natur fregus cyllid refeniw'r gorsafoedd.

84. Ystyrir bod gweithgarwch monitro yn allweddol i weithredu cyfundrefn grantiau yn iawn a sicrhau atebolrwydd am arian cyhoeddus. Mae'r Canllawiau ar gyfer y Gronfa Radio Cymunedol yn ei gwneud yn ofynnol i'r gorsafoedd radio cymunedol gyflwyno adroddiadau monitro chwarterol gyda'u hawliadau grant. Er i rai o'r gorsafoedd radio cymunedol a gafodd arian gan y Gronfa Radio Cymunedol gyflwyno'r adroddiadau chwarterol nid oedd pob un o'r gorsafoedd wedi gwneud hynny. Roedd hefyd yn ofynnol i'r gorsafoedd gwblhau templedi gwerthuso a oedd yn nodi sut roedd y grantiau a ddyfarnwyd yn flaenorol wedi'u gwario, ond ymddengys nad yw pob un o'r gorsafoedd a wnaeth gais i'r Gronfa wedi gwneud hynny. Prin oedd yr ymweliadau gan swyddogion Llywodraeth Cymru â gorsafoedd radio cymunedol ac ni chynhaliwyd unrhyw gyfarfodydd ymgynghori nac unrhyw gyfarfodydd eraill â'r sector na'i gynrychiolwyr.

85. I grynhoi, ymddengys fod y gorsafoedd radio cymunedol yn fodlon ar ddiben y Gronfa Radio Cymunedol a'r modd roedd wedi'i gweinyddu gan Lywodraeth Cymru. Roeddent o'r farn y dylai'r Gronfa barhau i roi cymorth ariannol i dalu costau gweinyddu gorsafoedd ac y dylai Llywodraeth Cymru gynyddu'r Gronfa yn unol â chwyddiant ac unrhyw gynnydd yn nifer y gorsafoedd trwyddedig newydd a oedd yn gymwys i gael arian gan y Gronfa.

## Materion yn Codi o'r Adolygiad

86. Mae'r adran hon yn crynhoi yn gyntaf ganfyddiadau allweddol yr adolygiad ac wedyn mae'n ystyried nifer o faterion sy'n achosi pryder ac yn awgrymu ffyrdd posibl ymlaen. Ac yn olaf, mae'r adran hon yn ystyried a ddylid adnewyddu'r Gronfa Radio Cymunedol ar ôl 2012-13, pan ddaw'r arian ar gyfer y cylch presennol i ben.

### Crynodeb o'r Canfyddiadau Allweddol

87. Dangosodd yr adolygiad, yn ystod pedwar cylch ariannu'r Gronfa Radio Cymunedol, fod saith o'r gorsafoedd wedi rhannu cyfanswm o £367,518. Dyrannwyd arian o'r Gronfa i bob un o'r gorsafoedd a gyflwynodd geisiadau boddhaol. Roedd y rhan fwyaf o'r ceisiadau a gyflwynwyd am gymorth gyda chostau gorbenion gorsafoedd ar ffurf arian ar gyfer swyddi cyflogedig i staff allweddol a oedd yn cyfrif am 67 y cant o'r swm a ddyrannwyd, cymorth ar gyfer swyddi a chostau rhedeg (20 y cant) a chymorth ar gyfer costau rhedeg yn unig (13 y cant).

88. Am mai prin oedd y cronfeydd a oedd rhoi cymorth ariannol ar gyfer costau craidd sefydliadau yn hytrach na phrosiectau penodol roedd y galw am gymorth ariannol gan y Gronfa ym mhob un o'r pedwar cylch gryn dipyn yn fwy na'r £100,000 a oedd ar gael i'w ddosbarthu er na chyflwynodd dwy orsaf geisiadau i unrhyw un o'r cylchoedd.

89. Nododd yr adolygiad fod cymorth ariannol gan y Gronfa wedi sicrhau manteision cymdeithasol pwysig i'w cymunedau. Llwyddodd y gorsafoedd i gynyddu nifer ac amrywiaeth y rhaglenni radio a oedd ar gael yn sylweddol. Roedd rhai o'r gorsafoedd yn darlledu am 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos. Cofnododd y naw gorsaf gyfanswm o 1,214.5 awr yr wythnos o ddarllediadau byw a oedd yn cynnwys amrywiaeth eang o raglenni Saesneg a Chymraeg a oedd yn adlewyrchu amgylchiadau, materion a gofynion lleol. Drwy fabwysiadu fformatau ffonio i mewn rhoddodd y gorsafoedd lais i'w cymunedau a chyfleoedd iddynt gyfrannu at raglenni.

90. Er bod y gorsafoedd, gyda'i gilydd, ond yn darlledu 50.5 awr yr wythnos o raglenni Cymraeg, roedd hysbysebion a chyfarchion Cymraeg/dwyieithog a oedd yn cael eu defnyddio'n aml gan gyflwynwyr yn rhaglenni Saesneg y gorsafoedd yn golygu bod y Gymraeg yn llawer mwy amlwg mewn ardaloedd lle mai Saesneg oedd y brif iaith. At hynny, nododd y gorsafoedd eu bod yn annog dysgwyr Cymraeg drwy ddarlledu cyrsiau Cymraeg ar yr awyr a hyrwyddo cyrsiau Cymraeg eraill a oedd yn cael eu cynnal yn lleol. Roedd y gorsafoedd hefyd yn darlledu rhaglenni mewn ieithoedd eraill i'w cymunedau lleol, er enghraifft roedd Radio Cardiff yn darlledu rhaglenni yn Somalieg a Punjabeg ac roedd Calon FM yn darlledu rhaglenni ym Mhwyleg a Sbaeneg i boblogaethau Pwyleg a Sbaeneg eu hiaith yn Wrecsam. Roedd rhai o'r gorsafoedd yn darlledu rhaglenni dros y rhyngrwyd a oedd o ddiddordeb i gyn-drigolion a'u teuluoedd, roedd llawer ohonynt yn byw dramor, gan gynnwys yn UDA, a oedd am gadw mewn cysylltiad â datblygiadau yn yr ardaloedd lle roeddent yn arfer byw, tra mynegodd disgynyddion ymfudwyr blaenorol ddiddordeb mewn olrhain hanes eu teulu.

91. Creodd y gorsafoedd radio cymunedol nifer o gyfleoedd ar gyfer cyflogaeth, hyfforddiant a gwirfoddoli i bobl leol. Er bod y gorsafoedd ond yn cyflogi 18 o staff

amser llawn a rhan-amser, a oedd yn cynnwys yn bennaf uwch aelodau o staff a staff proffesiynol a oedd yn cynnal y gweithrediadau, roedd y gorsafoedd wedi'u lleoli mewn ardaloedd a oedd yn wynebu problemau economaidd a chymdeithasol lle mai prin oedd y cyfleoedd eraill a oedd ar gael i weithwyr proffesiynol a rheolwyr. Mewn cyferbyniad rhoddodd y gorsafoedd gyfleoedd i 511 o wirfoddolwyr amser llawn a rhan-amser, a oedd yn dod o ystod eang o grwpiau oedran a chefndiroedd ac a oedd yn cynnwys pobl ifanc nad oeddent mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant, unigolion di-waith, myfyrwyr a phobl wedi ymddeol. Roedd y gorsafoedd hefyd yn rhoi cyfleoedd profiad gwaith i ddisgyblion ysgolion a cholegau. Roedd yr hyfforddiant a gynigiwyd i'r gwirfoddolwyr yn adlewyrchu eu profiad a'u diddordebau a gofynion y gorsafoedd ac roedd yn canolbwyntio ar amrywiaeth eang o sgiliau a oedd yn gysylltiedig â darlledu a TG a chafodd yr unigolion hynny ar leoliadau profiad gwaith a'r gwirfoddolwyr iau hyfforddiant mewn sgiliau bywyd trosglwyddadwy hefyd. Amcangyfrifodd un orsaf radio gymunedol fod gwerth ariannol yr oriau a weithiwyd gan ei wirfoddolwyr yn cyfateb i fwy na £35,000 mewn cyfnod o wyth mis.

92. Nododd pob un o'r gorsafoedd radio cymunedol eu bod yn gweithredu mewn partneriaeth ac yn cydweithredu â sefydliadau eraill yn eu hardaloedd, gan gynnwys y cynghorau sir a'r cynghorau cymuned a thref, yr heddlu a'r gwasanaethau brys, ysgolion, colegau, prifysgolion ac elusennau. O ganlyniad roedd sefydliadau lleol eraill yn gallu cyfrannu at raglenni lleol a oedd yn rhoi cyfleoedd iddynt esbonio eu gweithgareddau i wrandawyr a chael adborth ganddynt, tra'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i drigolion lleol am ddatblygiadau yn eu hardaloedd yn y dyfodol a bygythiadau posibl i iechyd a bygythiadau a oedd yn gysylltiedig â throsedd a'r camau y gellid eu cymryd i liniaru'r fath fygythiadau.

93. Nododd y gorsafoedd hefyd eu bod yn trefnu digwyddiadau a gweithgareddau i'w hardaloedd megis sioeau teithiol, gwasanaethau carolau, hyrwyddo dramâu megis drama The Passion a ddarlledwyd ar XS a'r nawdd a roddwyd gan Point FM i Sioe Awyr y Rhyl. Cynhaliwyd y rhain yn aml mewn partneriaeth â chyrff eraill, er mwyn codi proffil gorsafoedd a chynhyrchu refeniw.

94. Defnyddiodd y gorsafoedd radio cymunedol y cymorth ariannol gan y Gronfa Radio Cymunedol yn bennaf i ariannu swyddi allweddol roedd eu hangen i weithredu'r gorsafoedd yn effeithiol nad oeddent yn gallu eu hariannu heb gymorth grant. Roedd y swyddi allweddol yn cynnwys rheoli'r gorsafoedd, cynhyrchu incwm, hyfforddi a goruchwylio'r gwirfoddolwyr a darlledu rhaglenni o safon uchel i'r cymunedau lleol. Darparodd y gorsafoedd arian cyfatebol ar gyfer y swyddi roeddent wedi gwneud cais i'r Gronfa am gymorth ariannol yn eu cylch gan ddefnyddio grantiau ac arian o ffynonellau eraill. Cynhyrchodd pedair o'r pum gorsaf radio gymunedol y dyrannwyd arian iddynt o'r Gronfa ac a roddodd wybodaeth ariannol i swyddogion Llywodraeth Cymru incwm a oedd rhwng 1.7 a 5.2 gwaith yn fwy na'r symiau a ddyrannwyd iddynt o'r Gronfa, sy'n awgrymu bod y cymorth ariannol a gafodd y gorsafoedd gan Lywodraeth Cymru wedi eu helpu i gynhyrchu rhagor o incwm, a ddefnyddiwyd ganddynt i ariannu eu costau gweithredol parhaus neu ehangu eu gweithgareddau.

95. Roedd y gorsafoedd o'r farn y byddai dod â'r Gronfa i ben neu ei lleihau'n sylweddol yn amharu cryn dipyn ar allu gorsafoedd i reoli eu gweithgareddau busnes

o ddydd i ddydd. Byddai anallu rhai gorsafoedd i gyflogi aelodau allweddol o staff wedi'u gwneud yn llai effeithiol, gan amharu ar eu hyfywedd a'u lefelau gwasanaeth, gan gynnwys hyfforddi a goruchwylio gwirfoddolwyr ac ansawdd eu rhaglenni radio a allai olygu eu bod yn gorfod cau neu'n colli eu trwyddedau.

96. Yn olaf, o ran gweinyddu'r Gronfa, ymddengys fod y gorsafoedd yn fodlon iawn ar y modd roedd y Gronfa yn cael ei gweinyddu a'r broses gwneud cais a'r gweithdrefnau a chredent yn gryf y dylai'r Gronfa barhau i gyflawni ei diben presennol, sef helpu i dalu costau gweinyddol craidd gorsafoedd, gan gynnwys swyddi allweddol. Awgrymodd yr adolygiad o weithdrefnau monitro y dylid atgyfnerthu'r gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â'r Gronfa yn unol ag arfer gorau Llywodraeth Cymru ar gyfer gweinyddu grantiau.

**Trafod Materion sy'n Codi o'r Adolygiad**

97. Roedd y gorsafoedd a gafodd gymorth ariannol o dan y Gronfa o'r farn bod y grantiau yn rhoi sefydlogrwydd ariannol iddynt a oedd yn galluogi'r gorsafoedd i gyflogi staff allweddol, yr ystyriwyd eu bod yn bwysig i weithredu'r gorsafoedd yn effeithiol. Roedd y grant hefyd wedi helpu'r gorsafoedd i dalu eu costau gorbenion ar adeg pan oedd yn anodd codi arian at y fath ddibenion am fod refeniw masnachol o hysbysebion a nawdd wedi lleihau'n sylweddol oherwydd y dirwasgiad.

98. Dangoswyd y pwysau ariannol sy'n wynebu gorsafoedd radio cymunedol yn ddiweddar pan aeth XS (Afan FM gynt) yn fethdalwr o'i wirfodd ym mis Rhagfyr 2011 ar ôl i Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi hawlio swm mawr o arian yn annisgwyl, nad oedd yn gallu ei dalu. Mae gorsafoedd yng Nghymru wedi wynebu problemau llif arian parod tebyg yn y gorffennol, yn achos trwydded a roddwyd yn wreiddiol i Toradio yn Nhorfaen a gafodd ei dychwelyd cyn i'r orsaf ddechrau darlledu. Mae'r anawsterau a wynebir gan orsafoedd radio cymunedol o ran cynhyrchu incwm dros ben a thalu eu costau gorbenion cynyddol a chyflogi staff yn codi cwestiynau am gynaliadwyedd y gorsafoedd a'r modd y cânt eu rheoli. Ymddengys, ar sail y dystiolaeth a gafwyd gan reolwyr y gorsafoedd, na all gorsafoedd gynhyrchu digon o incwm dros ben i dalu eu costau gweithredu heb gael arian gan y Gronfa Radio Cymunedol a ffynonellau ariannu eraill. Ymddengys fod y problemau yn arbennig o anodd i'r gorsafoedd hynny – sef Point FM a Tudno FM – y mae'r ardaloedd a wasanaethir ganddynt yn gorgyffwrdd ag ardal trwydded yr orsaf radio fasnachol Coast FM ac na chaniateir iddynt godi unrhyw incwm masnachol o hysbysebion na nawdd ar yr awyr i raglenni.

99. Er bod Ofcom yn asesu a oes gan ddarpar ymgeiswyr ddigon o adnoddau i weithredu gorsafoedd radio cymunedol cyn rhoi'r trwyddedau mae'r dirwasgiad diweddar wedi amharu ar allu gorsafoedd i godi incwm masnachol o hysbysebion a nawdd. Mae hyn yn awgrymu bod dadl o blaid Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill yn asesu digonolrwydd ffynonellau incwm presennol gorsafoedd a nodi a oes unrhyw gyfleoedd posibl eraill.

100. Mae'r ôl troed bach o 5 km y mae gorsafoedd radio cymunedol yn gweithredu o'i fewn yn cyfyngu ar y cyfleoedd sydd ar gael yno i gynhyrchu digon o incwm masnachol i gynnal gorsafoedd. Byddai galluogi gorsafoedd radio cymunedol i wasanaethu ardal fwy o faint drwy gynyddu ôl troed presennol y gorsafoedd lle y bo'n briodol yn gwneud y gorsafoedd yn fwy hyfyw ac yn sicrhau y gallai gorsafoedd

radio cymunedol ymsefydlu a gweithredu'n effeithiol mewn ardaloedd gwledig neu mewn ardaloedd lle y siaredir y Gymraeg.

101. Roedd amcanion y gorsafoedd radio a'r manteision cymdeithasol neu'r buddiannau cymunedol roeddent am eu sicrhau wedi'u hanelu at sicrhau cynhwysiant cymdeithasol ac adfywio cymunedau ac felly roeddent yn gyson ag amcanion a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ei hun. Fel y maent yn cael eu gweithredu ar hyn o bryd gellid dadlau bod gorsafoedd radio cymunedol yn canolbwyntio cymaint ar fod yn sefydliadau adfywio a datblygu cymunedol ag y maent yn canolbwyntio ar y cyfryngau. Nododd y gorsafoedd radio cymunedol drwy'r Gronfa Radio Cymunedol eu bod wedi creu nifer o swyddi cyflogedig a'u bod yn annog hyfforddiant ac addysg, yn hyrwyddo gwirfoddoli, yn rhoi cyngor ar faterion iechyd, yn helpu i gynnal digwyddiadau lleol ac yn cynnal trafodaethau ar faterion a oedd yn effeithio ar eu hardaloedd ac yn meithrin hunangymorth ac yn annog ymgysylltu ag asiantau'r llywodraeth.

102. Er bod yr amrywiaeth o weithgareddau a gyflawnwyd gan y gorsafoedd radio cymunedol yn awgrymu eu bod yn sefydliadau arloesol, am nad oedd unrhyw fesurau allbwn na dangosyddion meintiol ac ansoddol nid oedd yn bosibl nodi effaith lawn y camau a gymerwyd gan orsafoedd radio unigol na'u heffaith gyfun. Er mwyn sicrhau y caiff perfformiad gorsafoedd radio cymunedol eu monitro a'u holrhain yn effeithiol efallai y bydd angen i Lywodraeth Cymru gytuno ar nifer o fesurau allbwn â'r gorsafoedd radio sy'n cael cymorth ariannol gan y Gronfa y gellid eu cynnwys yn ffurflenni monitro chwarterol y gorsafoedd a roddir i swyddogion Llywodraeth Cymru a'u holrhain dros amser.

103. Un o'r anawsterau penodol sy'n gysylltiedig â gwerthuso effeithiolrwydd gorsafoedd radio cymunedol yw diffyg ffigurau ar gyfer cynulleidfaoedd a fyddai'n ei gwneud yn bosibl i gynnal asesiad cymharol o lwyddiant gorsafoedd radio cymunedol o ran denu gwrandawyr. Mae'r rhan fwyaf o'r gorsafoedd radio cymunedol yn rhy fach i allu fforddio defnyddio'r Radio Joint Audience Research Ltd (RAJAR) i fesur eu cynulleidfaoedd. Un o'r meysydd lle y gallai gorsafoedd radio cymunedol gydweithredu fyddai sefydlu methodoleg ar gyfer amcangyfrif niferoedd gwrandawyr gorsafoedd, o bosibl drwy ddefnyddio dirprwyon yn lle gwrandawyr megis nifer yr ymweliadau â gwefannau'r gorsafoedd.

104. Byddai ffocws y gorsafoedd radio cymunedol ar gymunedau lleol a'u hallbynnau newyddion a'r pwyslais ar ddarparu gwybodaeth a thrafodaethau a'r cysylltiadau â grwpiau a chymunedau difreintiedig ac wedi'u hallgáu yn eu galluogi i hysbysu eu cymunedau o bolisïau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU a'u goblygiadau lleol, gan annog cymunedau i fynegi eu barn neu eu pryderon i'r Llywodraeth.

105. Ymddengys fod Cymru yn cael llai nag amser cymesur yn y cyfryngau newyddion cenedlaethol ac mae gorsafoedd radio masnachol yng Nghymru yn newid y pwyslais o newyddion lleol i newyddion cenedlaethol o ganlyniad i ganoli perchenogaeth gorsafoedd a'r trefniadau ar gyfer prynu a darlledu newyddion cenedlaethol yn bennaf gan Independent Radio News (Sky News). Byddai cysylltiadau gorsafoedd radio cymunedol â chymunedau lleol yn ddefnyddiol i sawl rhan o Lywodraeth Cymru. Mae rhai rhannau o Lywodraeth Cymru megis

Cymunedau yn Gyntaf a BETS wedi ariannu nifer o brosiectau gorsafoedd radio cymunedol gan gynnwys yn ddiweddar gwefan rhwydwaith DNB. Rhoddodd Cymunedau yn Gyntaf gymorth ariannol ar gyfer dwy swydd allweddol yn GTFM ac i dalu rhent, cyfleustodau, yswiriant a ffioedd rheoli'r orsaf ers 2006 am gyfanswm cost o £225,721.64. Roedd hefyd gysylltiadau rhwng gorsafoedd radio cymunedol a phartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf lleol gan gynnwys ariannu sioeau Cymunedau yn Gyntaf i hyrwyddo eu gweithgareddau a'u gwasanaethau.

106. Mae gan adrannau Llywodraeth Cymru megis Treftadaeth, APADGOS, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Iechyd a Gofal Cymdeithasol, yr Amgylchedd a BETS fuddiant mewn llawer o'r ardaloedd lle mae gorsafoedd radio cymunedol wedi'u lleoli ac yn eu cymunedau buddiant. Felly, efallai y byddai'n fuddiol i Lywodraeth Cymru ystyried a fyddai dull corfforaethol a chyson o ymdrin â'r sector yn briodol am fod gorsafoedd radio cymunedol eu hunain yn dechrau cydweithredu drwy rwydwaith DNB. Gallai dull cyson o weithredu o fewn Llywodraeth Cymru arwain at ailgyflunio cymorth i'r sector radio cymunedol a fyddai'n cynyddu'r arian a'r cymorth arall sydd ar gael i'r sector ac ysgafnhau'r gwaith o weinyddu'r grant. Gellid hefyd ei gysylltu â sectorau cysylltiedig a allai wasanaethu sector radio cymunedol wedi'i ehangu megis y Prifysgolion a allai roi cyngor a chyrsiau hyfforddi a sefydliadau megis y Papurau Bro a allai helpu'r gorsafoedd radio i gasglu adroddiadau newyddion lleol a hyfforddi gwirfoddolwyr fel newyddiadurwyr.

107. Mae rhai gorsafoedd megis Bro Radio wedi llunio partneriaeth â phapurau newydd lleol megis y Glamorgan Gem er mwyn cynhyrchu newyddion a gwybodaeth gyfoes ar gyfer y gymunedol leol. Mae twf y sector radio cymunedol a dechrau gwasanaeth teledu lleol ledled y DU yn awgrymu y gall fod cyfleoedd i gydweithredu a chydweithio rhwng y gwahanol gategorïau o gyfryngau neu gyfleoedd i'w cyfuno hyd yn oed er mwyn sefydlu ffynonellau newyddion lleol a'r hyn all fod yn fodelau busnes newydd.

108. Mae datblygiad rhwydwaith DNB yn darparu system ar gyfer meithrin trefniadau cydweithio a chydweithredu rhwng gorsafoedd radio cymunedol mewn perthynas â materion megis hyfforddiant, rhannu profiadau, nodi arferion da, helpu ei gilydd i ddatblygu sefydliadau proffesiynol, disgybledig a chredadwy ag allbwn o safon uchel. Gallai hefyd weithredu fel porth ar gyfer cysylltiadau rhwng y sector radio cymunedol a hysbysebwyr posibl a'r sector cyhoeddus. Er mwyn datblygu'r rhwydwaith bydd angen rhagor o arian yn bennaf gan y gorsafoedd radio cymunedol, y mae'r gorsafoedd wedi bod yn amharod i ddod o hyd iddo oherwydd eu sefyllfa ariannol fregus, ond dylai hyrwyddo datblygiad, effeithiolrwydd a chynaliadwyedd hirdymor y sector.

109. Argymhellodd y Sefydliad Materion Cymreig yn ei adroddiad diweddar “Taking Responsibility for our Media” y dylai Llywodraeth Cymru ystyried lobïo'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i ddatganoli polisi radio cymunedol i Lywodraeth Cymru. Pe bai Llywodraeth Cymru yn penderfynu ei bod am bwyso ar yr Adran i ddatganoli'r cyfrifoldeb am y maes polisi hwn iddi byddai dadleuon o blaid hynny. Byddai trosglwyddo'r cyfrifoldeb am radio cymunedol i Lywodraeth Cymru yn adlewyrchu natur leol radio cymunedol ond hefyd y cysylltiad rhwng ei fentrau a'i ddyheadau polisi a rhai Llywodraeth Cymru a'i hasiantau lleol. Byddai datganoli cyfrifoldeb polisi am radio cymunedol hefyd yn sicrhau bod cynllun a strwythur y

rhwydwaith radio cymunedol yn addas i ddiwallu anghenion Cymru yn y dyfodol. Mae'r naw gorsaf radio gymunedol bresennol yn gwasanaethu tua chwarter poblogaeth Cymru. Bydd hyn yn cynyddu rhywfaint ar ôl cynnwys y pedair gorsaf radio gymunedol a sicrhaodd drwyddedau yn ystod trydydd cylch trwyddedu Ofcom, er i XS fethu.

110. Os bwriedir ymestyn cwmpas gorsafoedd radio cymunedol yn y dyfodol gallai twf y sector gael ei rwystro gan argaeledd cyfyngedig amleddau. Er mwyn cynyddu nifer y gorsafoedd byddai angen i Lywodraeth Cymru lobïo Llywodraeth y DU ac Ofcom i gael amleddau ychwanegol ar gyfer gorsafoedd radio cymunedol.

111. Diben yr adolygiad oedd nodi a ddylid adnewyddu'r Gronfa Radio Cymunedol ar ôl y pumed cylch ariannu yn 2012-13, sef y cylch ariannu terfynol.

112. Er bod y syniad o orsaf radio gymunedol a fyddai'n canolbwyntio ar anghenion grwpiau ac ardaloedd sy'n wynebu lefelau arbennig o uchel o allgáu cymdeithasol ac amddifadedd yn un sy'n haeddu cael ei gefnogi mae dwy agwedd ar y model o orsaf radio gymunedol sy'n gweithredu ar hyn o bryd yng Nghymru sy'n achosi pryder.

113. Yn gyntaf, mae'n ansicr a yw'r model o orsaf radio gymunedol sy'n gweithredu ar hyn o bryd mewn ardaloedd daearyddol bach iawn, a redir ar sail nid-er-elw yn bennaf gan wirfoddolwyr, yn annibynnol gynaliadwy neu a all fod yn annibynnol gynaliadwy. Ymddengys fod cwmpas daearyddol bach y gorsafoedd yn cyfyngu ar eu gallu i gynhyrchu digon o incwm masnachol oherwydd y nifer fach o gwmnïau a leolir yno, a chyfyngir cryn dipyn ar allu'r gorsafoedd hynny y mae eu hardaloedd yn gorgyffwrdd ag ardaloedd trwydded gorsafoedd radio masnachol i godi incwm masnachol neu ni allant wneud hynny. O dan yr amgylchiadau hyn, mae'n rhaid i orsafoedd sydd am osgoi problemau llif arian parod ddibynnu ar godi arian a all fod yn anodd yn ystod dirwasgiad ac mewn ardaloedd sy'n wynebu problemau economaidd. Efallai yr hoffai Llywodraeth Cymru ystyried ar y cyd â rhanddeiliaid eraill sut y gallai gorsafoedd radio cymunedol ehangu eu seiliau ariannu drwy weithgareddau masnachol a gweithgareddau eraill er mwyn peidio â mynd yn orddibynnol ar gyfundrefnau grantiau Llywodraeth Cymru a sefydliadau eraill.

114. Mae'r ail fater sy'n achosi pryder yn ymwneud â rheoli a llywodraethu gorsafoedd radio cymunedol. Roedd gorsafoedd yn dibynnu ar nifer fach o staff amser llawn a rhan-amser ac roedd rhai yn dibynnu'n gyfan gwbl ar wirfoddolwyr. Mae hyn yn codi amheuaeth ynghylch digonolrwydd trefniadau llywodraethu'r sefydliadau a'u gallu, eu profiad a'u harbenigedd i ymdopi â'r gwaith o redeg sefydliadau yn ystod cyfnod economaidd anodd sydd wedi gwneud y gwaith o reoli diffygion llif arian parod yn anos. Mae'r rhan fwyaf o orsafoedd wedi ceisio llenwi'r bylchau yn eu cyllid drwy godi arian a hyd yma ymddengys fod y rhan fwyaf ohonynt wedi llwyddo i gael cymorth grant ar gyfer prosiectau a thalu rhai o'u costau gorbenion. Fodd bynnag, mae tystiolaeth bod un orsaf, sef XS, wedi cwtogi ar yr amser roedd yn darlledu allbwn byw, yn groes i ofynion ei thrwydded, ac nad oedd wedi darparu ar gyfer cais annisgwyl am arian gan HMRC, gyda'r canlyniad bod yr orsaf wedi cau. Cyn cytuno i roi arian grant dylai Llywodraeth Cymru fodloni ei hun bod y gorsafoedd wedi rhoi trefniadau llywodraethu a rheoli priodol ar waith.

115. Mae'r dirwasgiad a'r toriadau mewn gwariant cyhoeddus wedi cynyddu'r galw ymhlith sefydliadau eraill am ffynonellau ariannu amgen ac mae'n golygu bod codi arian yn broses fwy anodd, llafurus ac ansicr.

116. Roedd y gorsafoedd yn fodlon ar y modd roedd Cronfa Radio Cymunedol Llywodraeth Cymru yn gweithredu a hoffent ei gweld yn parhau fel math o gymhorthdal i dalu cyfran o'u costau staffio a'u costau gorbenion. Mae'n bosibl bod y Gronfa fel y'i gweithredir ar ei ffurf bresennol wedi gwneud y gorsafoedd yn fwy dibynnol ar gymorth ariannol y Gronfa yn hytrach na'u hannog i fod yn fwy cynaliadwy, er enghraifft, mae gorsafoedd wedi bod yn amharod i gofrestru ar gyfer y rhwydwaith DNB newydd ac maent wedi bod yn amharod i gyfrannu arian er mwyn ei ddatblygu ymhellach fel porth i'r sector. O gofio'r pwyslais y mae'r Gronfa yn ei roi ar sicrhau cynaliadwyedd efallai y byddai wedi bod yn fwy effeithiol i dargedu'r arian i gefnogi mentrau a fyddai'n helpu i sicrhau cynaliadwyedd hirdymor gorsafoedd megis rhwydwaith DNB a chymorth i orsafoedd radio cymunedol newydd a sefydlwyd yn ddiweddar.

**Gweinyddu'r Gronfa**

117. Awgrymodd ymatebion y gorsafoedd radio i'r holiadur eu bod yn fodlon ar ddogfennaeth y Gronfa a'r broses gwneud cais a'r gweithdrefnau. Roedd y gorsafoedd hefyd yn fodlon ar ddiben y Gronfa a'r unig gynnig ar gyfer newid oedd y dylid cyhoeddi'r amserlen ar gyfer cyfarfodydd y panel penderfynu er mwyn rhoi digon o amser i'r gorsafoedd hynny roedd eu ceisiadau i'r Gronfa am gymorth ariannol i adnewyddu swyddi a oedd yn bodoli eisoes yn aflwyddiannus roi'r hysbysiadau diswyddo gofynnol i'w staff. Mae hyn yn pwysleisio ymhellach sefyllfa ariannol fregus llawer o'r gorsafoedd.

118. Er ei bod yn ofynnol i'r gorsafoedd hynny sy'n cael cymorth ariannol gan y Gronfa gyflwyno adroddiadau monitro chwarterol gyda'u hawliadau grant nid oedd pob gorsaf yn gwneud hynny, ond pan wnaethant gais am gymorth ariannol yn ystod y cylchoedd ariannu roedd yn ofynnol iddynt gwblhau templed gwerthuso yn nodi sut y gwariwyd y grantiau a ddyfarnwyd yn flaenorol. Cynigir y dylai fod yn ofynnol yn y dyfodol i'r gorsafoedd hynny sy'n cael cymorth ariannol gan y Gronfa gyflwyno adroddiadau monitro chwarterol yn nodi sut y gwariwyd grant y chwarter blaenorol ynghyd â mesurau canlyniadau penodol y cytunir arnynt rhwng y gorsafoedd a swyddogion Llywodraeth Cymru ac y dylai'r taliadau grant chwarterol fod yn amodol ar gwblhau'r ffurflenni monitro. Er ei bod yn bosibl y bydd y gorsafoedd yn ystyried bod hyn yn cynyddu'r baich gweinyddol ar yr hyn sydd wedi bod yn ddull “ysgafn” o weinyddu'r Gronfa ystyrir bod y broses fonitro chwarterol yn arfer da ar gyfer sefydliadau sy'n wynebu'r risg o ansefydlogrwydd ariannol.

119. Am y gall gwaith monitro ddefnyddio llawer o adnoddau ac o gofio'r adnoddau staffio cyfyngedig sydd ar gael ar gyfer materion sy'n ymwneud â'r cyfryngau yn yr Adran Dreftadaeth gellid ystyried a ddylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu dull cydgysylltiedig a rennir o fonitro perfformiad gorsafoedd radio cymunedol pe bai Llywodraeth Cymru yn penderfynu cyflwyno un porth cymorth ar gyfer radio cymunedol. Dylai hyn gynnwys cyfarfodydd rheolaidd rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru a chynrychiolwyr y sector radio cymunedol i drafod materion sydd o ddiddordeb i'r ddwy ochr sy'n ymwneud â'r sector.

120. Mae'r gwaith o fonitro a gwirio perfformiad gorsafoedd radio cymunedol wedi'i lesteirio gan y diffyg gwybodaeth sylfaenol a'r diffyg ymchwil gan y gorsafoedd i nodi p'un a oedd eu cynulleidfaoedd a'u rhanddeiliaid yn fodlon ar eu perfformiad ai peidio. Er enghraifft, roedd yn anodd nodi'r effaith roedd y cymorth ariannol gan y Gronfa wedi'i chael ar allbwn darlledu Cymraeg y gorsafoedd. Er bod y rhan fwyaf o'r gorsafoedd, ac eithrio Tudno FM, yn darlledu fawr ddim allbwn Cymraeg, nodwyd bod nifer y darllediadau Cymraeg wedi cynyddu ers i'r gorsafoedd agor, ond nad oedd modd gwirio hyn am nad oedd unrhyw wybodaeth sylfaenol ar gael. Esboniodd y gorsafoedd fod y cynnydd cymharol araf i'w briodoli i'r ffaith ei bod yn anodd recriwtio darlledwyr ac awduron gwefannau Cymraeg eu hiaith. Roedd rhai o'r gorsafoedd yn targedu dysgwyr Cymraeg drwy ddarlledu rhaglenni arbennig a digwyddiadau megis yr Eisteddfod Genedlaethol pan gafodd ei chynnal yn eu hardaloedd ac yn hyrwyddo dysgu Cymraeg drwy gyflwyno pecynnau arbennig yn eu rhaglenni Saesneg. Prin oedd y dystiolaeth a roddwyd gan y gorsafoedd i ddangos pa mor fodlon oedd siaradwyr Cymraeg lleol neu sefydliadau sy'n cynrychioli siaradwyr Cymraeg ar wasanaethau Cymraeg y gorsafoedd. Dylai Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill a'r sector gytuno ar gyfres o fesurau canlyniadau a dangosyddion perfformiad y byddai'n ofynnol i orsafoedd sy'n cael cymorth grant eu casglu a rhoi gwybod amdanynt a dylent roi cyngor ar sut y gellid casglu'r wybodaeth yn gosteffeithiol.

## Atodiad 1

## Cefndir Deddfwriaeth a Pholisi

### Y cefndir deddfwriaethol

121. Drwy Ddeddf Darlledu 1990 anogwyd y sector radio masnachol i dyfu a sefydlwyd Trwyddedau Gwasanaeth Cyfyngedig byrdymor a hirdymor (RSLs). Roedd RSLs hirdymor wedi'u dynodi ar gyfer gorsafoedd ysbytai, gorsafoedd myfyrwyr a gorsafoedd milwrol tra bod RSLs byrdymor yn para hyd at 28 o ddiwrnodau ac fel arfer fe'u defnyddiwyd gan grwpiau cymunedol i ddarlledu yn ystod digwyddiadau arbennig a gwyliau.

122. Treialwyd y syniad o drydedd lefel gymunedol o ddarlledu gan yr Awdurdod Radio, sef y rheoleiddiwr bryd hynny, yn 2002 pan drwyddedwyd 15 o orsafoedd radio Access fel y'u gelwir am gyfnod prawf o flwyddyn i brofi dichonoldeb y fath orsafoedd. Roedd GTFM, a oedd yn gwasanaethu ardal Pontypridd, yn un o'r gorsafoedd Access cyntaf, yr unig un a drwyddedwyd yng Nghymru. Ymestynnwyd trwyddedau gorsafoedd peilot Access yn 2003 am flwyddyn arall ac yn dilyn cyfnod ymgynghori ac ymgyrchu parhaus gan y sector gwirfoddol, yn enwedig y Gymdeithas Cyfryngau Cymunedol, a oedd yn cynrychioli'r sefydliadau hynny a oedd yn ymwneud â radio cymunedol, caniataodd Llywodraeth y DU yn Neddf Cyfathrebu 2003 i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant gyflwyno gorsafoedd radio cymunedol newydd drwy is-ddeddfwriaeth a sefydlodd gyfundrefn reoleiddio ar gyfer gorsafoedd radio cymunedol newydd a oedd i'w gweinyddu gan Ofcom, sef y rheoleiddiwr newydd, a ddisodlodd yr Awdurdod Radio ar ddiwedd 2003.

123. Nodwyd nodweddion radio cymunedol yng Ngorchymyn Radio Cymunedol 2004, a ddiwygiwyd gan Orchymyn Radio Cymunedol (Diwygio) 2010[2]. Roeddent yn cynnwys y gofyniad y dylai gorsafoedd radio cymunedol gael eu rhedeg ar sail nid-er-elw ac i raddau helaeth gan wirfoddolwyr a sicrhau manteision cymdeithasol neu gymunedol. Roeddent hefyd yn gwasanaethu ardal ddaearyddol fach, ag arwynebedd o 5km fel arfer, gan ddefnyddio FM (yn VHF Band II, sef y band a ddefnyddir yn y DU i ddarlledu gwasanaethau FM) neu ar y donfedd Ganol gan ddefnyddio AM.

124. At hynny, sefydlodd Deddf Cyfathrebu 2003 y fframwaith rheoleiddio a ddefnyddid gan Ofcom i reoleiddio radio cymunedol. Rhoddwyd trwyddedau am gyfnod o bum mlynedd ac ers 2010 mae wedi bod yn bosibl i orsafoedd wneud cais i adnewyddu trwyddded am bum mlynedd arall. Gall y gymuned y bwriedir ei gwasanaethu fod yn ardal ddaearyddol neu'n gymuned fuddiant megis is-gymuned benodol yn yr ardal megis grŵp oedran, grŵp diwylliannol neu grŵp ethnig penodol. Er enghraifft, yng Nghymru mae Bro Radio yn y Barri, a leolir yn yr adeilad YMCA lleol, yn ymwneud â hyfforddi pobl ifanc nad ydynt mewn addysg. Mae Tudno FM, ar y llaw arall, a leolir mewn ystad dai fawr yn Llandudno, lle y ceir poblogaeth fawr o

---

[2] Gwnaed y diwygiadau i'r Gorchymyn er mwyn hyrwyddo twf gorsafoedd radio cymunedol a sicrhau eu bod yn gweithredu'n fwy effeithiol ac roeddent yn seiliedig ar ymgynghoriad Ofcom “ The Future of Radio-The Next Phase” a gyhoeddwyd yn 2007 y nodwyd ei gasgliadau ym mhapur ymgynghori'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon “Amendments to the Community Radio Licensing Regime” yn 2009.

bobl hŷn, yn darparu gwasanaethau i'r genhedlaeth hŷn ac yn hyrwyddo cynhwysiant cymunedol. Mae Radio Cardiff yn gwasanaethu'r cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn ardal Bae Caerdydd yn Ne Caerdydd.

125. O dan Orchymyn Radio Cymunedol 2004 er mwyn bod yn gymwys i gael trwydded roedd yn ofynnol i wasanaethau arfaethedig fodloni'r meini prawf canlynol:

- Darperir y gwasanaeth yn bennaf er lles aelodau'r cyhoedd.
- Bwriedir iddo wasanaethu cymunedau penodol, a ddiffinnir fel pobl sy'n byw, sy'n gweithio neu'n sy'n dilyn rhaglenni addysg neu hyfforddiant mewn ardal neu gymdogaeth benodol, neu bobl sydd ag un neu ragor o ddiddordebau cyffredin.
- Bwriedir idddo weithredu ar sail ddosbarthu nid-er-elw. Dim ond er mwyn parhau i ddarparu'r gwasanaeth yn y dyfodol neu wella'r modd y caiff ei ddarparu neu er mwyn sicrhau manteision cymdeithasol i aelodau'r cyhoedd neu'r gymuned darged y dylid defnyddio unrhyw elw a gynhyrchir gan orsaf.
- Dylai ddarparu cyfleoedd i aelodau'r gymuned darged weithredu a rheoli'r orsaf.
- Dylai fod yn atebol i'r gymuned darged.

126. Nododd Adran 105 o Ddeddf Darlledu 1990 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cyfathrebu 2004 ofynion arbennig ychwanegol roedd yn rhaid i Ofcom eu hystyried wrth asesu ceisiadau am drwyddedau radio cymunedol. Ymhlith y rhain roedd: gallu pob ymgeisydd i gynnal y gwasanaeth arfaethedig; y graddau roedd y gwasanaeth yn darparu ar gyfer chwaeth a diddordebau'r gymuned; y graddau roedd yn cynyddu amrywiaeth y rhaglenni a oedd ar gael; tystiolaeth leol o'r galw am y gwasanaeth; potensial y gwasanaeth i sicrhau manteision cymdeithasol; pa mor atebol ydoedd i'r gymuned a pha mor hygyrch ydoedd i aelodau'r gymuned.

127. Nododd y Gorchymyn y dylai gorsafoedd radio cymunedol gyflawni pedwar amcan gorfodol o ran sicrhau manteision cymdeithasol:

- Darparu gwasanaethau darlledu cadarn i unigolion na fyddent fel arall yn gallu cael gafael ar y fath wasanaethau.
- Hwyluso trafodaeth a mynegi barn.
- Darparu addysg a hyfforddiant i unigolion nas cyflogir gan y sawl sy'n darparu'r gwasanaeth; ac
- Hyrwyddo gwell dealltwriaeth o'r gymuned benodol ac atgyfnerthu cysylltiadau y tu mewn iddi.

128. At hynny, mae'n bosibl y bydd gan ymgeiswyr am drwyddedau amcanion manteision cymdeithasol ychwanegol sydd wedi'u nodi yn nhrwyddedau'r gorsafoedd, ac sy'n adlewyrchu'r amcanion o ran manteision cymdeithasol a nodwyd yn y ceisiadau gwreiddiol a gyflwynwyd i Ofcom.

129. Mae'n rhaid i orsafoedd radio cymunedol gydymffurfio â'r rheolau perchenogaeth a nodir yn Neddf Darlledu 1990. Dim ond cwmnïau cofrestredig (neu gyrff cyfatebol megis y rhai a grëwyd o dan statud) a all ddal trwyddedau radio cymunedol. Ni all unigolion ddal trwyddedau ac ni all unrhyw gwmni na sefydliad ddal mwy nag un drwydded radio cymunedol a cheir cyfyngiadau hefyd ar berchenogaeth rhwng radio masnachol a radio cymunedol.

130. Mae'n ofynnol i orsafoedd radio cymunedol weithredu o fewn cyfyngiadau ariannol caeth sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt gael eu hariannu o amrywiaeth o ffynonellau. Gall y rhan fwyaf o orsafoedd radio cymunedol ddarlledu hysbysebion a derbyn nawdd masnachol, er bod yn rhaid i hanner incwm y gorsafoedd o leiaf ddod o ffynonellau anfasnachol eraill. At hynny, mae'n rhaid i orsafoedd gael eu hariannu drwy amrywiaeth o ffynonellau cyhoeddus er mwyn diogelu eu cyfanrwydd golygyddol fel na fyddai gorsaf benodol yn cael ei hariannu gan awdurdod lleol neu brifysgol yn unig. Mewn rhai achosion mae gorsafoedd wedi'u gwahardd rhag codi unrhyw incwm masnachol ar yr awyr lle mae'r ardaloedd a wasanaethir ganddynt yn gorgyffwrdd ag ardaloedd gorsafoedd masnachol bach sy'n gwasanaethu llai na 150,000 o wrandawyr. At ddibenion y Gorchymyn bydd dwy drwydded yn gorgyffwrdd os yw cynulleidfa bosibl un o'r gwasanaethau trwyddedig yn cynnwys 50% neu fwy o'r boblogaeth oedolion bosibl (50 oed neu drosodd) o'r gwasanaeth trwyddedig arall. Gwelwyd hyn yn achos dwy orsaf radio gymunedol yng Ngogledd Cymru – sef Tudno FM a Point FM- na chaniateir iddynt godi unrhyw incwm masnachol am fod yr ardaloedd a wasanaethir ganddynt yn gorgyffwrdd ag ardal trwydded gorsaf radio masnachol Coast FM, gorsaf sy'n eiddo i Global Radio ac sydd bellach wedi'i brandio fel Heart. Bwriadwyd i'r darpariaethau hyn ddiogelu gorsafoedd masnachol bach sy'n gweithredu mewn marchnad lle y disgwylir i refeniw o hysbysebion leihau ac nad ydynt yn gallu cael gafael ar arian cyhoeddus.

131. Er bod cyfyngiadau ar yr incwm o hysbysebion a nawdd gall gorsafoedd radio cymunedol ystyried gwerth amser gwirfoddolwyr wrth gyfrifo trosiant y gorsafoedd ac sy'n cyfrannu at gyfanswm incwm anfasnachol gorsafoedd, na allent, mewn rhai achosion, weithreddu hebddo.

132. Mae gan Ofcom bwerau i ddiddymu trwydded radio cymunedol os oes tystiolaeth sy'n dangos y canlynol:

- Nid yw'r orsaf wedi cydymffurfio â'r gofynion arbennig o ran didueddrwydd a nodir yn Neddf Cyfathrebu 2003.
- Nid yw'r orsaf yn cyflawni nodweddion allweddol radio cymunedol fel y'u nodir yng Ngorchymyn Radio Cymunedol 2004; neu
- Nid yw'r orsaf yn cydymffurfio â'i “hymrwymiadau allweddol” unigol a nodir mewn trwyddedau.

**Cefndir Polisi i Radio Cymunedol yng Nghymru**

133. Cafodd Cymru ei phrofiad cyntaf o radio cymunedol yn 2003 pan drwyddedwyd y gorsafoedd radio Access, fel y'u gelwir, gan yr Awdurdod Radio, sef y rheoleiddiwr bryd hynny, am gyfnod prawf i brofi dichonoldeb y fath orsafoedd.

Roedd GTFM, a oedd yn gwasanaethu ardal Pontypridd, yn un o'r gorsafoedd radio Access gyntaf, yr unig un a drwyddedwyd yng Nghymru.

134. Polisi Ofcom, y rheoleiddiwr newydd a sefydlwyd gan Ddeddf Cyfathrebu 2004, ers ei sefydlu yw annog sefydlu gorsafoedd radio cymunedol. Yng Nghymru gwnaed hyn ar sail ranbarthol – sef Gogledd Cymru a Gogledd-orllewin Lloegr a De Cymru a De-orllewin Lloegr – i'w gwneud yn bosibl i asesu effeithiau'r gorsafoedd arfaethedig yng Nghymru ar Ogledd-orllewin a De-orllewin Lloegr, ac effeithiau'r gorsafoedd arfaethedig yn Lloegr ar Gymru.

135. Yn dilyn yr ymgynghoriadau a oedd yn ymwneud â sefydlu gorsafoedd radio cymunedol yn 2005 gwahoddodd Ofcom grwpiau cymunedol ledled y DU i wneud cais am drwyddedau radio cymunedol. Cafwyd ail gylch trwyddedu yn 2008 a thrydydd cylch ym mis Gorffennaf 2011.

136. Os bodlonodd y gorsafoedd y meini prawf a nodwyd yn y ddeddfwriaeth a bod gan y gorsafoedd ddigon o adnoddau i weithredu byddai Ofcom fel arfer yn rhoi trwydded iddynt. Nid yw Ofcom yn cynnal cystadlaethau ceisiadau na chystadlaethau harddwch, oni fydd cystadleuwyr am y nifer gyfyngedig o amleddau. Hyd yma dim ond yn Wrecsam y cafwyd cystadleuaeth rhwng gorsafoedd lle mai'r prif faen prawf dethol oedd pa orsaf radio a fyddai'n bodloni'r meini prawf orau.

137. Yr unig gyfyngiad ar nifer y gorsafoedd radio digidol yw argaeledd amleddau fel arfer ym mand VHF Band II (FM). Oherwydd prinder amleddau, nododd Ofcom cyn y trydydd cylch trwyddedu na châi ceisiadau am drwyddedau newydd eu derbyn mewn 12 o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru gan gynnwys Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, Pen-y-bont ar Ogwr, Bro Morgannwg, Rhondda Cynon Taf, Caerdydd, Caerffili, Casnewydd, Sir y Fflint, Wrecsam, Conwy a Sir Ddinbych. Mae'n bosibl, pe bai galw am gwmpas ehangach i orsafoedd radio cymunedol yn yr ardaloedd hyn, y gellid darparu amleddau addas ar y donfedd ganol (AM). Fodd bynnag, maent yn wynebu mwy o ymyrraeth gan orsafoedd darlledu cyfandirol.

138. Cyflwynwyd chwe chais i Ofcom yn ystod y trydydd cylch trwyddedu ar gyfer gorsafoedd radio cymunedol, y daeth pump ohonynt o Ogledd Cymru ac a oedd yn cynnwys Llanelwy, Abergele, Harlech, Ynys Môn a Phrestatyn. Dim ond un cais a gyflwynwyd am orsaf i wasanaethu rhan helaeth o hen sir Dyfed, sef Radio Beca, a oedd yn ehangach nag ôl troed y radio cymunedol arferol, a allai fod yn groes i ganllawiau cyfredol Ofcom. Mewn ardaloedd gwledig fel Gorllewin a Chanolbarth Cymru, am fod mwy o amleddau FM addas ar gael, gellid caniatáu i wasanaethau ddarlledu i ardaloedd â radiws ehangach na 5km, am fod angen idddynt wasanaethu poblogaeth wasgaredig. Cyhoeddodd Ofcom y byddai pedair gorsaf yn cael trwyddedau yn dilyn y trydydd cylch trwyddedu, sef: Glan Clwyd AM, Bodelwyddan, Sir Ddinbych, Mon FM, Ynys Môn, Harlech FM, Gwynedd a Radio Beca.[3] Dangosodd y penderfyniad i roi trwydded i Radio Beca fod Ofcom yn barod i fod yn hyblyg wrth asesu'r trefniadau darlledu a chwmpas gorsafoedd radio cymunedol mewn ardaloedd gwledig a oedd yn gwasanaethu poblogaethau gwasgaredig. Fodd

[3] Ofcom, Ofcom Awards Eleven New Community Radio Licences, Datganiad i'r wasg, 5 Ebrill 2012; Western Mail, 20 Ebrill 2012

bynnag, mae costau sefydlog sylweddol yn gysylltiedig â'r cyfleusterau darlledu, a allai ei gwneud yn anos cynnal gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig.

139. Yn y tymor canolig i hirdymor mae Llywodraeth y DU yn bwriadu bwrw ymlaen â'r gwaith o uwchraddio'r system radio analog i system radio ddigidol yn y DU. Byddai hyn yn debyg i'r broses ddigideiddio bresennol sy'n mynd rhagddi ar hyn o bryd ar gyfer teledu. Byddai trosglwyddo gorsafoedd o fand FM i system ddigidol yn rhyddhau'r sbectrwm y gellid ei werthu, er enghraifft, i weithredwyr band eang symudol. Pan fydd Radio Wales a Radio Cymru a Capital FM yn dechrau darlledu'n ddigidol yn unig (mae rhai gorsafoedd yn gweithredu ar amleddau FM ac amleddau digidol) byddai'n rhyddhau'r sbectrwm FM a fyddai'n galluogi Ofcom i drwyddedu mwy o orsafoedd radio cymunedol, gan gynyddu cwmpas daearyddol y gorsafoedd a rhoi cyfle, o bosibl, i orsafoedd radio cymunedol arbenigol newydd ddatblygu mewn rhai o'r ardaloedd mwyaf poblog. Er enghraifft, yn ddiweddar cafodd Ofcom gais am orsaf radio gymunedol gan Mumbles FM, sydd ond yn darlledu ar y rhyngrwyd ond a leolir yn ardal awdurdod lleol Abertawe lle na châi ceisiadau am drwyddedau radio cymunedol newydd eu derbyn. Byddai Ofcom yn gallu caniatáu'r cais hwnnw pe bai gorsaf Wave FM yn Abertawe yn trosglwyddo i'r sbectrwm digidol, ond WAVE FM piau'r penderfyniad hwnnw.

**Gorsafoedd Radio Cymunedol yng Nghymru**

140. Ym mis Tachwedd 2011 roedd naw gorsaf radio gymunedol sy'n darlledu yng Nghymru. Nodir y rhain yn Nhabl 9.

**Tabl 9: Gorsafoedd Radio Cymunedol yng Nghymru ym mis Tachwedd 2011**

| Enw'r Orsaf | Ardal a wasanaethir /cymuned fuddiant | Dyddiad sefydlu | Dyddiad dechrau darlledu |
|---|---|---|---|
| GTFM | Pontypridd, gwasanaeth cyffredinol | Gweithredai gynt fel gwasanaeth â thrwydded “Access” ers 2003 | 1/1/2006 |
| XS | Castell-nedd Port Talbot, cerddoriaeth i bobl ifanc | 2003 | 20/4/2007 |
| BRFM | Brynmawr, Blaenau Gwent, cerddoriaeth arbenigol | Medi 2004 | 18/10/2007 |
| Calon FM | Wrecsam, gwasanaeth cyffredinol | 2004 | 1/3/2008 |
| Radio Tircoed | Tircoed Fforest Village, Abertawe, gwasanaeth cyffredinol | Mai 2005 | 1/12/2008 |
| Radio Cardiff | Bae Caerdydd, cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig | 2005 | 8/10/2007 |
| Tudno FM | Wrecsam, gwasanaeth cyffredinol | Tachwedd 2005 | 12/7/2008 |
| Point FM | Y Rhyl, gwasanaeth cyffredinol | Tachwedd 2007 | 24/3/2010 |
| Bro Radio | Y Barri, gwasanaeth cyffredinol | 2008 | 31/3/2009 |

141. Mae'r rhan fwyaf o'r gorsafoedd wedi'u lleoli mewn ardaloedd trefol yn rhannau dwyreiniol Gogledd a De Cymru ac ar y cyfan maent yn darparu gwasanaeth radio cyffredinol i'w cymunedau, er bod BRFM yn darparu cerddoriaeth arbenigol ac mae XS yn darparu cerddoriaeth i bobl ifanc, tra bod Radio Cardiff yn canolbwyntio ar wasanaethu'r cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig ym Mae Caerdydd. Nododd rhai o'r gorsafoedd radio megis GTFM eu bod yn canolbwyntio ar unigolion y mae angen cymorth a chefnogaeth benodol arnynt yn eu hardaloedd, tra bo gorsafoedd eraill yn canolbwyntio ar rannau penodol o'u hardaloedd, megis Tudno FM sy'n gwasanaethu wardiau Tudno a Mostyn yn yr ardal Cymunedau yn Gyntaf. Amcangyfrifwyd y gall y gorsafoedd gyda'i gilydd gyrraedd tua 675,000 o bobl, tua chwarter poblogaeth Cymru. Roedd pob un o'r gorsafoedd wedi wynebu anawsterau o ran sicrhau cyllid ac o ganlyniad roedd bwlch o rai blynyddoedd rhwng yr adeg pan y'i sefydlwyd a'r adeg pan wnaethant ddechrau darlledu. Am ei bod yn anodd iddi sicrhau cyllid cychwynnol penderfynodd un orsaf, sef Toradio a oedd wedi'i lleoli yn ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, ddychwelyd ei thrwydded a pheidio â darlledu, tra dychwelodd Tircoed Village Radio ei drwydded hefyd am na allai ei gynnal ei hun yn ariannol, ond ers hynny mae wedi ailddechrau darlledu. At

hynny, aeth Radio Cardiff yn fethdalwr yn 2008 ar ôl cael gorchymyn i ad-dalu'r arian a gafodd gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, a oedd wedi penderfynu atal ei grant ar ôl dod i'r casgliad nad oedd modd rheoli'r risg a oedd yn gysylltiedig â'r prosiect mwyach. Tanlinellwyd natur fregus arian gorsafoedd radio cymunedol ymhellach ym mis Rhagfyr 2011 pan gyhoeddwyd bod XS wedi mynd yn fethdalwr o'i wirfodd yn dilyn cais annisgwyl am swm mawr o arian gan Gyllid a Refeniw EM na allai ei dalu.

**Ymwneud Llywodraeth Cymru â Radio Cymunedol**

142. Er nad yw darlledu yn fater datganoledig mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi cymorth ariannol a chymorth arall i'r sector radio cymunedol yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi cymorth i'r sector am ei bod o'r farn bod radio cymunedol yn gyfrwng i annog cyfranogiad a gwirfoddoli, yn ddarparwr hyfforddiant mewn amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys darlledu, TGCh a sgiliau gweinyddu a rheoli cysylltiedig ac yn ffynhonnell gwybodaeth gyhoeddus a chymunedol ac yn fodd i drafod materion sy'n achosi pryder yn lleol a sut mae camau gweithredu cenedlaethol yn effeithio ar gymunedau, yn enwedig y rhai sydd mewn perygl o gael eu hallgáu a'u rhoi o dan anfantais. Mae cymorth Llywodraeth Cymru i radio cymunedol wedi cynnwys helpu partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf i ddefnyddio radio cymunedol i gyfathrebu â'u cymunedau ac annog cymunedau i ddatblygu gweithgarwch gwirfoddoli a throsglwyddo sgiliau TGCh a darlledu, sydd o ddiddordeb i bobl ifanc ac yn ddefnyddiol iddynt. At hynny, rhoddodd Llywodraeth Cymru gymorth ariannol uniongyrchol i orsafoedd radio cymunedol drwy'r Gronfa Radio Cymunedol ac yn ddiweddar anogodd Adran Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth (BETS) Llywodraeth Cymru orsafoedd radio cymunedol i gydweithio drwy hwyluso'r gwaith o sefydlu rhwydwaith digidol ar-lein i'r gorsafoedd yng Nghymru. Nodir y datblygiadau hyn yn yr adran hon.

**Hyrwyddo Datblygu Cymunedol**

143. Deilliodd cefnogaeth Llywodraeth Cymru i orsafoedd radio cymunedol o'r ffaith ei bod yn sylweddoli pa rôl y gallai ei chwarae o ran ysgogi cyfranogiad y gymuned a gweithgarwch datblygu cymunedol mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Roedd y cymorth a roddwyd yn cynnwys rhoi cymorth arbenigol am ddim i Wasanaeth Cymorth Cymunedau yn Gyntaf i gynorthwyo partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf a oedd am ddefnyddio radio cymunedol i gyfathrebu â'u cymunedau. Ymgymerodd rhaglen Cynhwysiant Digidol Llywodraeth yn Gyntaf, Cymunedau@Ei Gilydd, a gynhaliwyd rhwng 2005-09, â menter a oedd yn cynnwys gorsafoedd radio cymunedol yn Rhondda Cynon Taf, Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin a oedd yn cynnwys darparu hyfforddiant i alluogi unigolion dan anfantais i ddefnyddio cyfarpar darlledu digidol, cyfrifiaduron bwrdd gwaith a gliniaduron i wella sgiliau pobl leol o ran TGCh, er mwyn gwella cynhwysiant digidol a llythrennedd cyfryngau yn ogystal â'u hannog i gymryd mwy o ran yn eu cymunedau. Ystyriodd y gwerthusiad o'r rhan o'r prosiect a oedd yn cynnwys Rhondda Cynon Taf fod y prosiect yn llwyddiant am fod llawer o'r cyfranogwyr a fyddai wedi bod yn annhebygol o ystyried cyrsiau TGCh ffurfiol wedi cael gwaith neu leoliadau hyfforddiant ac wedi cofrestru ar gyrsiau addysg ffurfiol.[4]

[4] Andrew Jones Report to Consider How the Development of Community Radio Stations Can Be Harnessed Most Effectively to Support the Regeneration Agenda in Wales , Vistaradio, Chwefror 2009.

144. Roedd yr ail fenter Cynhwysiant Digidol a gynhaliwyd gan Cymunedau 2.0, a ddechreuodd ym mis Ebrill 2009, yn cynnwys cynllun peilot wedi'i leoli mewn gorsaf RSL, sef Dapper FM ym Mhen-y-waun yn Rhondda Cynon Taf, i nodi i ba raddau y gallai radio cymunedol annog cynhwysiant digidol. Roedd y prosiect yn cynnwys gosod ystafelloedd TG yn yr orsaf radio y gellid eu defnyddio i ddarparu hyfforddiant TG ac a fyddai'n gweithredu hefyd fel cyfleuster galw heibio cymunedol. Roedd y dull gweithredu wedi'i dreialu'n llwyddiannus rywle arall yn y DU, ond er nad oedd y gwerthusiad ffurfiol wedi'i gwblhau y farn gyffredinol oedd, er bod y fenter wedi llwyddo i annog gwirfoddoli, ei bod yn llai llwyddiannus o ran hyrwyddo cynhwysiant digidol.

**Cronfa Radio Cymunedol Llywodraeth Cymru**

145. Rhoddodd Llywodraeth Cymru gymorth ariannol uniongyrchol i orsafoedd radio cymunedol. Er enghraifft, rhwng mis Tachwedd 2002 a mis Mawrth 2007 rhoddodd y Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol grantiau gwerth cyfanswm o £382,493 i bedair gorsaf radio gymunedol.[5] Am fod llawer o orsafoedd radio cymunedol yn ei chael hi'n anodd dechrau darlledu cytunodd Llywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2006 y câi £100,000 ei ddyrannu dros bum mlynedd (cyfanswm o £500,000) i'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio bryd hynny i gefnogi gorsafoedd radio cymunedol a'i roi gyda'r Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol (CFAP). Yn dilyn adolygiad mewnol o CFAP penderfynwyd wedyn mai dim ond arian ar gyfer prosiectau cyfalaf y byddai'r rhaglen yn ei gynnig ac y dylid trosglwyddo'r cyfrifoldeb am y Gronfa Radio Cymunedol newydd i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon (yr elfen ddarlledu sydd bellach wedi'i chynnwys yn y portffolio Treftadaeth). Gyda chytundeb y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio a'r Prif Weinidog trosglwyddwyd yr arian i Brif Grŵp Gwariant Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon ym mis Tachwedd 2007.

146. Dim ond gorsafoedd radio cymunedol wedi'u trwyddedu'n llawn y rhoddwyd trwydded radio cymunedol bum mlynedd lawn iddynt gan Ofcom sy'n gymwys i wneud cais i Gronfa Radio Cymunedol Llywodraeth Cymru, gan gynnwys gorsafoedd sydd wedi'u trwyddedu ond nad ydynt yn darlledu bellach. Fodd bynnag, nid yw gorsafoedd sy'n gweithredu o dan Drwydded Gwasanaeth Cyfyngedig neu sy'n darlledu dros y rhyngrwyd yn unig yn gymwys i wneud cais am arian. Dim ond i dalu costau refeniw gorsafoedd radio cymunedol sy'n gysylltiedig â gweithgareddau craidd megis rheoli, gweinyddu, codi arian, allgymorth cymunedol a chefnogi gwirfoddolwyr y mae'r grant ar gael. Er y gellir ariannu rhai o'r gweithgareddau a gyflawnir gan orsafoedd radio cymunedol megis hyfforddiant o ffynonellau penodol gall fod yn anodd i orsafoedd gael gafael ar gyllid i helpu i dalu costau'r gwaith craidd sy'n gysylltiedig â rhedeg gorsaf. Câi blaenoriaeth ei rhoi i geisiadau sy'n hyrwyddo cynaliadwyedd a chydweithio â'r gymuned darged a gorsafoedd eraill ac mae hefyd yn ofynnol i ymgeiswyr ddangos sut maent yn cyfrannu at agenda Cymru ddwyieithog Llywodraeth Cymru. Cyn cyhoeddi Cronfa Radio Cymunedol Llywodraeth Cymru roedd Ofcom wedi sefydlu Cronfa Radio Cymunedol yn werth

[5] Dyfarnwyd y grantiau i GTFM (£47,027) ar gyfer cyfarpar a chostau rhedeg yr orsaf; Afan FM (£69,884) ar gyfer gwasanaeth gwybodaeth yn seiliedig ar gerddoriaeth; Brynmawr Scene (£17,027) i greu gwasanaeth radio lleol a hyfforddi gwirfoddolwyr ar sut i gynllunio a chynhyrchu rhaglenni; Radio Cymunedol Llandudno ( £248,555) ar gyfer cyfarpar, staff a chostau rhedeg.

£500,000 y flwyddyn yn 2004 i roi cymorth i dalu'r costau craidd sy'n gysylltiedig â rhedeg gorsaf radio gymunedol. Yn wahanol i Gronfa Llywodraeth Cymru dim ond at y gorsafoedd trwyddedig hynny a oedd eisoes yn darlledu roedd cronfa Ofcom wedi'i thargedu. Ni chaiff gorsafoedd radio cymunedol â thrwyddedau llawn yng Nghymru sydd eisoes yn darlledu ac sy'n gwneud cais i Gronfa Ofcom eu hystyried am grant pellach gan Gronfa Radio Cymunedol Llywodraeth Cymru ar gyfer yr un prosiect neu swydd.

147. Ers 2008-09 mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal pedwar cylch ariannu ar gyfer gorsafoedd radio cymunedol gan y Gronfa Radio Cymunedol. Dyfarnwyd y grantiau hyn ar sail gystadleuol. Y grant lleiaf y gellid gwneud cais amdano oedd £5,000, ond nid oedd unrhyw derfyn uchaf. Adolygwyd y ceisiadau a gafwyd a phenderfynwyd arnynt gan banel a oedd yn cynnwys swyddogion Llywodraeth Cymru ac un cynrychiolydd o Ofcom Cymru a roddodd gyngor ar y ceisiadau. Cyhoeddwyd canlyniad y pedwerydd cylch ym mis Chwefror 2011 a hyd hynny roedd arian grant gwerth cyfanswm o £367,518 wedi'i ddyrannu i saith gorsaf radio gymunedol. Cynhaliwyd pumed cylch y Gronfa bresennol ar gyfer blwyddyn ariannol 2012-13, sef y cylch terfynol, i ddyrannu'r £100,000 o oedd yn weddill ym mis Chwefror 2012 a arweiniodd at wyth o'r gorsafoedd radio cymunedol yn cael cymorth ariannol gan y Gronfa.

### Annog Cydweithio

148. Gall nifer gyfyngedig o staff a ffocws lleol gorsafoedd radio cymunedol arwain at ynysu a rhyngweithio cyfyngedig rhwng gorsafoedd. Er mwyn gwella trefniadau cydweithio a gweithgarwch rhannu gwybodaeth a syniadau mae'r Gronfa Radio Cymunedol yn rhoi blaenoriaeth i gefnogi prosiectau ar y cyd, er ei bod yn rhoi'r pwyslais ar geisiadau gan orsafoedd radio cymunedol unigol. Cynyddodd Adran Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth a Chyfadran Diwydiannau Creadigol a Diwylliannol, Prifysgol Morgannwg y pwyslais ar roddir ar gydweithio drwy sefydlu rhwydwaith busnes digidol ar-lein ymhellach (o dan y rhaglen E-Fusnes sy’n cael ei hariannu gan yr Undeb Ewropeaidd sef y prosiect ar gyfer Busnesau ar y Rhwydwaith Digidol neu DNB (*Digital Networked Business*)) ar gyfer y naw gorsaf radio gymunedol yng Nghymru a rhanddeiliaid eraill. Mae'r DNB yn system ar-lein ddatblygedig y bwriedir iddi wella cysylltiadau rhwng sefydliadau cysylltiedig. Mae ar ffurf llwyfan arddangoswr sy'n hawdd ei ymestyn: gellir ei ymestyn drwy ymgorffori cymwysiadau newydd y gellir eu datblygu mewn bron unrhyw iaith meddalwedd gan unrhyw ddatblygwr a'u cynnal ar unrhyw weinydd. Cyfraniad Llywodraeth Cymru oedd darparu cymhwysiad prototeip y DNB i'r rhwydwaith radio cymunedol sy'n cael ei gynnal am ddim ar hyn o bryd am gyfnod prawf o chwe mis gan Transplan, sy'n gwmni gweinydd. At hynny, ariannodd Llywodraeth Cymru ddau brosiect ymgynghoriaeth cysylltiedig - cynllun defnyddio ac adroddiad asesu'r DNB - er mwyn hwyluso'r gwaith o ddatblygu'r prosiect. Cynigiodd yr adroddiad defnyddio nifer o gamau y gallai'r rhwydwaith eu cymryd ar y cyd, gan gynnwys rhannu gwybodaeth ddefnyddiol ac arfer gorau, cynhyrchu adnoddau hyfforddi, rhannu storïau newyddion, llunio cymhwysiad gwibnegeseua bwrdd gwaith a chyfleuster cynadledda fideo er mwyn hwyluso cyfathrebu rhwng gorsafoedd a darparu adnoddau Cymraeg a hyfforddiant i bob gorsaf.

149. Ar ddiwedd y cyfnod prawf mater i'r rhwydwaith fydd ariannu'r gwaith o ddatblygu'r prosiect yn y dyfodol. Er y byddai gan y gorsafoedd radio cymunedol ddiddordeb mewn ymuno â'r rhwydwaith yr unig beth sy'n eu hatal rhag gwneud hynny yw costau cynnal hirdymor y llwyfan a chostau'r gwaith o'i ddatblygu ymhellach. Cynigiodd cynllun datblygu'r DNB nifer o fesurau ar gyfer sicrhau cynaliadwyedd y rhwydwaith yn y dyfodol, gan gynnwys noddi'r rhwydwaith, incwm o hysbysebon a gynhyrchir drwy weithredu fel man cyswllt canolog â'r sector radio cymunedol a manteisio ar y broses ddadreoleiddio hysbysebu a gychwynnwyd yn ddiweddar gan God Darlledu newydd Ofcom 2011. O ystyried y diffyg arian a wynebir gan y rhan fwyaf o orsafoedd radio cymunedol, roedd y rhan fwyaf o'r gorsafoedd yn amharod i ymrwymo i fynd i gostau sylweddol drwy gynnal y rhwydwaith ar ôl y cyfnod prawf am ddim a gynigir gan Transplan.

## Atodiad 2

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Gwerthuso Cronfa Radio Cymunedol Llywodraeth Cymru

### Llenwi'r ffurflen

Diolch i chi am gytuno i lenwi'r holiadur hwn. Atebwch bob cwestiwn mor gyflawn â phosibl. Mae'r manylion ar gyfer dychwelyd yr holiadur, wedi'i lenwi, ar y dudalen olaf.

---

### Cefndir y Gorsafoedd Radio Unigol

1. Beth yw enw'r orsaf radio hon?

2) Pryd y sefydlwyd yr orsaf a phryd y dechreuodd ddarlledu?

Dyddiad sefydlu Dyddiad dechrau darlledu

3) Sawl awr yr wythnos fydd eich gorsaf yn darlledu yn Gymraeg ac yn Saesneg?

Oriau darlledu yn Gymraeg yr wythnos Oriau darlledu yn Saesneg yr wythnos

Sut mae hynny wedi newid ers i'r orsaf agor?

4) Beth yw amcanion allweddol yr orsaf?

5) Pa fath o raglenni y byddwch chi'n eu darlledu a faint o amser sy'n cael ei neilltuo i'r gwahanol fathau bob wythnos? (er enghraifft newyddion lleol, cerddoriaeth, materion cyfoes)

Y mathau o raglenni yr wythnos Yr amser a neilltuwyd (oriau'r wythnos)

awr

awr

awr

awr

6) Beth yw eich cynulleidfaoedd targed a'ch cymunedau buddiant? (Er enghraifft, grŵp neu ardal ddaearyddol benodol)

Cynulleidfaoedd Targed:

Cymunedau Buddiant

7) Pa fanteision cymdeithasol yr ydych chi'n eu cyflawni ar gyfer yr ardal leol a'r cymunedau buddiant?

8) Faint o staff amser llawn sy'n derbyn tâl sy'n gweithio yn yr orsaf a faint o wirfoddolwyr?

Nifer y staff amser llawn sy'n derbyn tâl
(sy'n gweithio mwy na 30 awr yr wythnos)

Nifer y staff rhan amser sy'n derbyn tâl
(sy'n gweithio llai na 30 awr yr wythnos)

Nifer y gwirfoddolwyr (amser llawn)

Nifer y gwirfoddolwyr (rhan amser)

Pa gategorïau o bobl sy'n gwirfoddoli yn yr orsaf? (er enghraifft, myfyrwyr, pobl sydd wedi ymddeol, pobl ifanc ddi-waith neu bobl sy'n gweithio)

9) Pa hyfforddiant a ddarperir ar gyfer staff/gwirfoddolwyr?

10) Pa fath o waith sy'n cael ei wneud gan y gwirfoddolwyr? (er enghraifft, gwaith gweinyddol, cyflwyno rhaglenni, gwneud rhaglenni)

11) Ydych chi'n gweithio mewn partneriaeth neu'n cydweithio â sefydliadau neu grwpiau eraill i ddarparu'ch gwasanaeth?

Nac ydyn ☐ Ydyn ☐

Os ydych, rhowch fanylion y sefydliadau/grwpiau a rhowch enghreifftiau o sut yr ydych wedi cydweithio ag eraill.

Sefydliadau/Grwpiau:

Enghreifftiau o gydweithio:

12) Beth yw ffynhonnell incwm cyfalaf a refeniw'r orsaf?

Ffynonellau incwm refeniw:

Ffynonellau incwm cyfalaf:

13) Ac eithrio'r Gronfa Radio Cymunedol allwch chi restru'r grantiau yr ydych wedi gwneud cais amdanynt ac wedi'u derbyn dros y ddwy flwyddyn ariannol ddiwethaf (2009/10 – 2010/11). Os gallwch, pa grantiau?

Grantiau y gwnaethpwyd cais amdanynt:

Grantiau a dderbyniwyd:

| Corff sy'n dyfarnu'r grant | Math o grant a dderbyniwyd | Cyfanswm y cais | Blwyddyn |
|---|---|---|---|
| | | £ | |
| | | £ | |
| | | £ | |
| | | £ | |

**Gwybodaeth am Gronfa Radio Cymunedol Llywodraeth Cymru**

14) Pam y gwnaethoch chi gais i'r Gronfa?

Os nad oeddech wedi gwneud cais i'r Gronfa Radio Cymunedol am gymorth ariannol yn ystod rhyw flwyddyn benodol, nodwch eich rhesymau dros beidio â gwneud hynny?

15) Os gwrthodwyd eich cynnig am gymorth ariannol neu os mai cyfran o'r arian a roddwyd yn unig, rhowch fanylion y prosiect(au) a'r rhesymau a roddwyd dros wrthod eich cais neu gwtogi arno?

Prosiectau a wrthodwyd neu y cwtogwyd arnynt

Rhesymau dros wrthod/cwtogi ar eich cais

16) Sut clywsoch chi am y Gronfa?

Llythyrau gan Lywodraeth Cymru ☐

Y wasg / cyfryngau ☐nodwch

Gorsafoedd radio eraill ☐

Arall ☐nodwch

17) Rhowch eich barn am y wybodaeth a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru am ddiben y Gronfa? (1 = gwael / 5 = rhagorol)

1☐ 2 ☐ 3 ☐ 4 ☐ 5 ☐

Sut y gellir ei gwella mewn unrhyw ffordd yn eich barn chi?

18) Rhowch eich barn ar y canllawiau ar gyfer gwneud cais i'r Gronfa? ( 1 = gwael / 5 = rhagorol)

1☐ 2 ☐ 3 ☐ 4 ☐ 5 ☐

Sut y gellir eu gwella mewn unrhyw ffordd yn eich barn chi?

19) Pa mor hawdd oedd y ffurflen gais i'w defnyddio?
( 1 = anodd iawn / 5 = hawdd iawn)

1☐ 2 ☐ 3 ☐ 4 ☐ 5 ☐

Sut y gellir ei gwella mewn unrhyw ffordd yn eich barn chi?

20) Pa mor glir oedd yr wybodaeth a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru o ran sut y byddai'ch cais yn cael ei asesu? (1 = aneglur iawn / 5 – clir iawn)

1☐ 2 ☐ 3 ☐ 4 ☐ 5 ☐

Sut y gellir ei gwella mewn unrhyw ffordd yn eich barn chi?

21) Rhowch ein barn am y gwasanaeth a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod y broses ariannu? (1 = gwael / 5 = rhagorol)

1☐ 2 ☐ 3 ☐ 4 ☐ 5 ☐

Sut yr ydych chi'n credu y gellir ei gwella mewn unrhyw ffordd?

Effaith y Gronfa Radio Cymunedol

22) Yn eich barn chi sut y gwnaeth eich gorsaf elwa o ganlyniad i'r grant a dderbynioch gan y Gronfa? (Byddwch mor benodol â phosibl).

A fodlonwyd eich disgwyliadau a'ch gobeithion yn llwyr?

Do ☐ Naddo ☐

Os na, rhowch fanylion:

23) Os na fyddech wedi cael cynnig unrhyw gymorth gan Lywodraeth Cymru neu os byddech wedi derbyn llai o arian na'r hyn yr oedd ei angen arnoch, pa effaith fyddai hynny wedi'i chael ar eich gorsaf, yn eich barn chi?

Llai o arian:

Dim arian o gwbl:

24) Yn eich barn chi, pa effaith fyddai tynnu'r arian yn ôl o'r Gronfa, neu leihau'r arian hwnnw, yn ei chael ar y sector radio cymunedol?
Llai o arian:

Dim arian o gwbl:

Dyfodol Radio Cymunedol

25) Yn eich barn chi pa ffactorau sy'n eich atal neu yn eich rhwystro rhag bodloni'r dyheadau ar gyfer yr orsaf?

Sut y byddech yn mynd ati i oresgyn y ffactorau hyn?

26) Yn eich barn chi sut y gellir newid y Gronfa er mwyn bodloni gofynion gorsafoedd unigol a'r sector radio cymunedol yng Nghymru?

27) Yn eich barn chi pa bethau eraill y gallai Llywodraeth Cymru eu gwneud i hyrwyddo a chefnogi gorsafoedd radio cymunedol a'r sector cyfan?

Diolch am eich cydweithrediad

Dychwelwch eich ffurflen wedi'i llenwi i:

Ian Thomas
Yr Adran Tai, Adfywio a Threftadaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Dyddiad Dychwelyd: 22 Tachwedd 2011

Fel rhan o'r gwaith hwn hoffem gysylltu â chi er mwyn edrych yn fanylach ar rai o'r materion. Mae'n bosibl y byddwn yn cysylltu â chi yn ystod yr ychydig wythnosau nesaf

## Atodiad 3

Ein cyf/Our ref:

Dyddiad: 10 Ionawr 2012

Annwyl ,

**Gwerthusiad o Gronfa Radio Cymunedol Llywodraeth Cymru**

Diolch i chi am lenwi'r holiadur a anfonais atoch ym mis Tachwedd. Bûm yn dadansoddi'r ymatebion ac yn anffodus am nad oedd unrhyw gategorïau pendant yn y cwestiynau gwreiddiol ni fu'n bosibl i mi gymharu pob un o'r ymatebion yn ystyrlon am fod gorsafoedd wedi defnyddio gwahanol gategorïau i grwpio'r wybodaeth a ddarparwyd ganddynt. Er mwyn rhoi darlun mor gadarnhaol â phosibl o'r sector radio cymunedol rwy'n ysgrifennu i ofyn i chi a allech roi gwybodaeth ychwanegol i mi am bedwar maes er mwyn fy ngalluogi i gwblhau'r gwerthusiad. Mae'r wybodaeth hon yn cynnwys y canlynol:

(i) Faint o oriau bob wythnos a ddarlledir gan yr orsaf, yn enwedig

- Cyfanswm yr oriau a ddarlledir gan yr orsaf.
- Cyfanswm yr oriau a ddarlledir ganddi yn Gymraeg.
- Cyfanswm yr oriau a ddarlledir ganddi yn Saesneg.

Sut mae'r patrwm hwn wedi newid yn ystod y ddwy flynedd diwethaf (ers 2010) ac a yw'r arian grant a gafwyd gan Gronfa Radio Cymunedol Llywodraeth Cymru wedi effeithio ar oriau darlledu'r orsaf.

(ii) Y mathau o raglenni a ddarlledir ar eich gorsaf a'r amser a neilltuir i bob un o'r categorïau canlynol:

| **Mathau o raglenni a ddarlledir** | **Faint o amser a neilltuir (oriau bob wythnos)** |
|---|---|
| Newyddion Lleol | |
| Newyddion cenedlaethol | |
| Cerddoriaeth | |
| Rhaglenni o ddiddordeb lleol | |
| Rhaglenni o ddiddordeb cyffredinol | |
| Chwaraeon | |
| Arall (nodwch) | |

Sut mae cymysgedd rhaglenni eich gorsaf wedi newid yn ystod y ddwy flynedd diwethaf?

(iii) Manylion incwm gorsafoedd yn ystod y ddwy flwyddyn ariannol ddiwethaf (2009-10 a 2010-11), o'r ffynonellau incwm canlynol:

| **Ffynonellau incwm gorsafoedd** | **£** |
|---|---|
| Hysbysebu | |
| Nawdd | |
| Digwyddiadau | |
| Cytundebau lefel gwasanaeth â sefydliadau gwasanaeth megis awdurdodau lleol a phartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf (Nodwch) | |
| Cyfanswm y grantiau refeniw | |
| Cyfanswm y grantiau cyfalaf | |
| Ffynonellau incwm eraill (Nodwch) | |

Rhowch fanylion y grantiau refeniw a chyfalaf penodol a'u gwerthoedd yn ystod y ddwy flwyddyn ariannol ddiwethaf.

(iv) Yn ystod y ddwy flwyddyn ariannol ddiwethaf (2009-10 a 2010-11) rhowch fanylion y canlynol :

- Nifer y gwirfoddolwyr a ymgymerodd â rhaglenni hyfforddiant.
- Nifer y gwirfoddolwyr a gwblhaodd raglenni hyfforddiant.
- Nifer gwirfoddolwyr yr orsaf a gafodd waith â thâl rywle arall neu yn yr orsaf radio.
- Nifer y sioeau teithiol a digwyddiadau a drefnwyd ac a gynhaliwyd.

Rwy'n ymddiheuro am gysylltu â chi unwaith eto i ofyn am wybodaeth bellach mor fuan ar ôl yr holiadur diwethaf a byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi'r wybodaeth i mi erbyn dydd Gwener, 20 Ionawr. Rhowch wybod i mi pe byddai'r amserlen honno yn peri unrhyw broblemau i chi.

Yn gywir,

Ian Thomas
Yr Adran Tai, Adfywio a Threftadaeth
Llywodraeth Cymru

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon